# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

## PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 16EG MEHEFIN, 2016**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 9/6/16)

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Elwyn Edwards | Dyfrig Jones | Charles Wyn Jones |
| Gweno Glyn | Michael Sol Owen | Gethin Glyn Williams |
| John Wyn Williams | R. H. Wyn Williams | Aled Wyn Jones |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Lesley Day | Trevor Edwards |
| W. Roy Owen | Eirwyn Williams |
| Hefin Underwood | |

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jason Humphreys | Anwen J. Davies |

## Llafur (1)

Y Cynghorydd Gwynfor Edwards

## Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd June Marshall

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau - ar gyfer eitem 11 (tua 11.30am)

# R H A G L E N


**1. CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2016/17.

**2. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2016/17.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION** 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Ebrill, 2016 fel rhai cywir (ynghlwm).

**7. YMATEB Y CABINET I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL** 8 - 10

Cyflwyno adroddiad y Cadeirydd a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**8. ADRODDIAD YR YMCHWILIAD TAI GWYLIAU A THRETHI** 11 - 61

Cyflwyno adroddiad drafft yr Ymchwiliad Craffu Tai Gwyliau a Threthi (ynghlwm).

**9. YMGYSYLLTU AR HER GWYNEDD** 62 - 64

Cyflwyno adroddiad y Cynghorwyr J.W.Williams ac R.H.Wyn Williams, cynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu Corfforaethol wnaeth ymgymryd â'r gwaith (ynghlwm).

**10. GWAITH CRAFFU PELLACH - SYMYLRWYDD IAITH (WRTH YMGYSYLLTU)** 65 - 67

Cyflwyno sgop ar gyfer ymchwiliad craffu (ynghlwm).

**11. ARBEDION YN YR ADRAN RHEOLEIDDIO** 68 - 82

Rhan 1 – Arbedion Pellach

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro) (ynghlwm).

Rhan 2 – Arbedion Pellach – Difa Pla

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol (ynghlwm).

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL DYDD IAU, 14 EBRILL 2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Jason Humphreys (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Anwen Davies, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Gweno Glyn, Aled Wyn Jones, Charles W.Jones, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, Eirwyn Williams, Gethin Glyn Williams, John Wyn Williams ac R.H.Wyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 3 isod:-**
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb)
Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol)
Meinir Williams (Swyddog Gwella Gwasanaeth)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod**
Y Cynghorwyr Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)
Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet Economi)
Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)
Dewi Morgan (Uwch Reolwr – Refeniw a Risg)

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Lesley Day.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Chwefror, 2016 fel rhai cywir.

## 3. TREFN GWYNION Y CYNGOR

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet (Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb) yn manylu ar Drefn Gwynion y Cyngor ac yn ymateb i gwestiynau a ddarparwyd ymlaen llaw mewn perthynas â:-

- Sut mae'r drefn newydd yn gwahaniaethu o'r hyn oedd yn digwydd yn y gorffennol a sut mae o fudd i drigolion Gwynedd.
- Y canlyniadau i drigolion Gwynedd a thystiolaeth i brofi hynny.
- Y berthynas gyda Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd fel y pwyntiau cyswllt cyntaf
- Ymateb y gwasanaethau i'r drefn newydd.
- Hyfforddiant i staff ar y drefn newydd a sut i ddelio â chwynion.
- Y gwersi a ddysgwyd dros y flwyddyn ddiwethaf a sut maent wedi eu cyfathrebu.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar yr atebion ysgrifenedig yn yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau pellach gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif neges y drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod pryder ynglŷn â chapasiti Galw Gwynedd i ateb galwadau.
- Argymhellid y dylid rhannu gwybodaeth ynglŷn ag ymchwiliadau ffurfiol gydag aelodau lleol os gwelir bod patrwm o gwynion yn datblygu o fewn ardal benodol.
- Gwerthfawrogir y ffaith bod yr adnodd cefnogol i gydlynu'r drefn newydd yn gweithredu'n annibynnol ac yn edrych ar y sefyllfa o safbwynt y cwsmer, gan ymateb yn amserol i gwynion.
- Bod angen sicrhau cysondeb a dysgu gwersi o drefn gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am y drafodaeth gan nodi o bosib' y gofynnid iddynt ddod yn ôl gerbron y pwyllgor ymhen blwyddyn.

## 4. BUDD I WYNEDD O GADW'R DRETH FUSNES

Eglurodd y Cadeirydd:-

- Mewn trafodaeth yn y Cyngor llawn ym mis Hydref 2015, y bu i aelod dynnu sylw'r Cyngor fod y Llywodraeth ganolog yn Lloegr wedi penderfynu bod cynghorau lleol Lloegr am gael cadw'r dreth busnes i gyd er mwyn ei ail fuddsoddi yn lleol, ond nad dyma'r sefyllfa yng Nghymru.
- Mewn ymateb i gynnig yr aelod i gysylltu gyda Llywodraeth Cymru i ofyn am yr un amodau yng Nghymru, awgrymodd y Prif Weithredwr fod gwaith craffu manwl yn cael ei wneud cyn hynny, er mwyn sicrhau a fyddai'r un drefn yng Nghymru yn debygol o arwain at fuddiannau, colledion, cyfleoedd neu beryglon i Wynedd.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau a'r Aelod Cabinet Economi yn gwahodd y pwyllgor i graffu ac ystyried buddion a risgiau cadw'r trethi busnes yn lleol ac yn ymateb i gwestiynau a ddarparwyd ymlaen llaw mewn perthynas â:-

- Chynnwys datganiad y Canghellor.
- Yr effaith ar awdurdodau lleol yn Lloegr.
- Y goblygiadau i Wynedd petai'r un amodau ar gael yng Nghymru.
- Y tebygolrwydd i Wynedd gael budd, colled, cyfle neu berygl o gadw'r dreth busnes a gesglir yn lleol.

Ymhelaethodd y Pennaeth Cyllid a'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg ar yr atebion ysgrifenedig yn yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau pellach gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif neges y drafodaeth fel a ganlyn:-

- Llongyfarch yr Aelodau Cabinet a'r swyddogion ar lunio adroddiad clir a dealladwy ar fater hynod dechnegol.

- Wedi edrych ar y cyfleoedd a'r risgiau, nid oedd y pwyllgor wedi'i argyhoeddi ar hyn o bryd y byddai cyflwyno'r un amodau yng Nghymru yn dod ag unrhyw fudd i Wynedd, ond yn hytrach, 'roedd o'r farn y byddai'n creu risgiau sylweddol.
- Ei bod yn gynamserol i lobïo'r Cynulliad ar hyn o bryd.
- Pe cyfyd mwy o fanylion am ddatblygiadau tebyg i Gymru, argymhellir bod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn gwneud gwaith craffu pellach ar y mater bryd hynny.

Diolchwyd i'r Aelodau Cabinet a'r swyddogion am y drafodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.30 y.h. a daeth i ben am 3.45 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD** | **16 MEHEFIN, 2016** |
| **TEITL** | **YMATEB Y CABINET I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL** |
| **PWRPAS** | **Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ar ymateb y Cabinet i argymhellion y Pwyllgor Craffu** |
| **AWDUR(ON)** | **Y Cynghorydd Dyfrig Jones, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| | **Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |

**CYFLWYNIAD**

1. Yn dilyn sylwadau diweddar mewn adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ac mewn holiadur ymysg aelodau ac uwch swyddogion y Cyngor, adnabuwyd yr angen i wella'r cyswllt a'r deialog rhwng y pwyllgorau craffu unigol a'r Cabinet er mwyn sicrhau y gellid adnabod dilyniant i waith craffu.

2. Fel arbrawf, cyflwynwyd papur i gyfarfod y Cabinet ar 15 Rhagfyr yn dwyn sylw ffurfiol y Cabinet at waith diweddar gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, er mwyn cael trafodaeth gyhoeddus ffurfiol ar ymateb y Cabinet fel corff a'r Aelodau Cabinet perthnasol i argymhellion Craffu. Bu'r eitem yn llwyddiannus, ac felly penderfynwyd ymestyn yr ymarferiad i'r holl bwyllgorau craffu.

3. Bu i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol gyflwyno argymhellion o gyfarfodydd diweddar y pwyllgor i gyfarfod y Cabinet ar 3ydd o Fai, 2016. Cafwyd trafodaeth agored a gonest gyda'r Cabinet, yn wir roeddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael deall cyd-destun y drafodaeth o amgylch ambell argymhelliad. Mae gwe-ddarllediad o'r drafodaeth hynny ar gael ar http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/webcasts (Gweler eitem 4).

4. Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno adroddiad yn ffurfiol, yn ôl i'r Pwyllgor Craffu o'r hyn a gytunwyd gan y Cabinet. Er gwybodaeth i'r pwyllgor, casgliad y Cabinet oedd y bu'r drafodaeth yn un fuddiol a cytunwyd i barhau gyda'r drefn o drafod materion sy'n codi o Bwyllgorau Craffu mewn cyfarfodydd Cabinet i'r dyfodol gyda chofnod o'r drafodaeth honno yn cael ei gylchredeg ymysg aelodau Pwyllgorau Craffu

**EITEMAU**

5. Cyflwynwyd tair eitem i sylw'r Cabinet. Fe grynhoir yr hyn a gyflwynwyd a'r ymateb iddynt isod:-

| **A. EITEM - STRATEGAETH CAFFAEL CYNGOR GWYNEDD: RHEOLAETH CATEGORI A CHADW'R BUDD YN LLEOL** |
|---|
| **ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU**<br>Ystyriwyd - Adroddiad gan yr Aelod Cabinet Economi (Cynghorydd Mandy Williams-Davies) ar y datblygiad hyd yma wrth gyflwyno rheolaeth categori fel trefn newydd o gaffael yn y Cyngor, gan gynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd trwy brofiadau'r maes Gofal hyd yma. Ystyriwyd hefyd yr elfen o gadw'r budd yn lleol wrth gaffael a pha gamau oedd yn cael eu cymryd i annog busnesau lleol i ddatblygu.<br><br>Penderfynwyd<br>a) Nid oes tystiolaeth hyd yma os yw trefniadau rheolaeth categori yn rhagori ar y drefn flaenorol. Dylid monitro cynnydd ar y strategaeth gaffael drwy'r pwyllgor hwn ymhen 6 mis, ac yn rheolaidd wedi hynny.<br>b) Nodi pryder ynglŷn ag effaith unrhyw doriadau posib' ar allu adrannau. Nodwyd pryder yn arbennig ar gyfer yr Adran Economi a Chymuned, i yrru'r elfen leol ac effaith hynny ar ffyniant economaidd y sir yn fwy cyffredinol.<br>c) Y dylid gwreiddio'r strategaeth yn egwyddorion Ffordd Gwynedd, drwy wrando'n gyson ar y negeseuon sy'n dod yn ôl gan y sector leol ac addasu'r strategaeth yn unol â hynny.<br>d) Y dylid ceisio sicrhau cefnogaeth i hybu a chreu cyfleoedd i fusnesau lleol, mentrau cymdeithasol ayyb i ddatblygu busnesau trwy adnabod y bylchau sydd yn y farchnad, gan gynnwys annog unigolion i sefydlu busnesau o'r newydd<br>e) Y dylid lledaenu'r neges ar draws y Cyngor, fel bod pawb yn gwybod ac yn deall yn glir beth yw'r drefn newydd. |
| **YMATEB Y CABINET**<br>Nododd y Cyng. Mandy Williams-Davies y dyhead i gynyddu'r budd a gedwir yn lleol ac fe eglurodd yr angen i godi ymwybyddiaeth, o fewn a thu allan i'r Cyngor. Nododd hefyd ei pharodrwydd i ddiweddaru'r Pwyllgor Craffu bob 6 mis a croesawodd unrhyw drafodaethau pellach.<br>Cadarnhawyd y byddai'r Aelodau'n ailymweld â chynnydd y strategaeth gaffael, â sylw penodol i reolaeth gategori, yn cael ei fonitro ymhen 6 mis.<br>Sylw – gellir rhaglennu'r adrodd cynnydd ar gyfer cyfarfod Hydref o'r pwyllgor. |

| **B. EITEM - STRATEGAETH TECHNOLEG GWYBODAETH DDRAFFT** |
|---|
| **ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU**<br>Ystyriwyd – Adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau (Cynghorydd Peredur Jenkins) a'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid yn manylu ar gynnwys y strategaeth Technoleg Gwybodaeth ddrafft. Fel rhan o'r trafodaethau, ystyriwyd gwerth am arian ac effeithlonrwydd, gan graffu gwybodaeth costau a bodlonrwydd cwsmer.<br><br>Penderfynwyd<br>a) Argymell y dylid sicrhau eglurder am lwyddiant y strategaeth flaenorol ac esbonio hynny yn glir ar y dechrau, gan ei ddefnyddio fel sail i'r strategaeth newydd. Bydd hyn yn ein galluogi i fesur cynnydd. Argymhellir bod angen i'r gwasanaeth adnabod ac asesu lle mae'r Cyngor wedi cyrraedd, pa wersi a ddysgwyd hyd yma, gan ymgorffori'r wybodaeth fel sail i'r strategaeth newydd.<br>b) Mae angen i'r Strategaeth TG fod yn hyblyg i ymateb i ofynion y cwsmer (pan fo'r anghenion |

hynny'n glir) a bod mor hyblyg â phosib' o fewn cyfyngiadau diogelwch.

c) Dylid ystyried ymyriad Ffordd Gwynedd yn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn fuan. Fe all yr ymyrraeth ryddhau adnoddau a allai gael eu defnyddio yn y mannau sy'n cael eu crybwyll yn y Strategaeth.

**YMATEB Y CABINET**

Ni chafwyd trafodaeth mor fanwl ar yr eitem hon gan fod y Cabinet am fod yn symud ymlaen i drafod y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn ystod cyfarfod y diwrnod hwnnw. Croesawodd y Cyng. Peredur Jenkins y pwyntiau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Craffu a diolchodd i'r Pwyllgor am eu rhan yn y trafodaethau.

**C. EITEM – BUDD I WYNEDD O GADW'R TRETH FUSNES**

**ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU**

Mewn trafodaeth yn ymwneud â threthi busnes yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Hydref 2015, bu i Aelod dynnu i sylw'r Cyngor fod Llywodraeth ganolog yn Lloegr wedi penderfynu fod cynghorau lleol Lloegr am gael cadw'r dreth busnes i gyd er mwyn ei ail fuddsoddi yn lleol. Esboniwyd nad dyma'r sefyllfa yng Nghymru.

Ystyriwyd – Adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau (Cynghorydd Peredur Jenkins), y Pennaeth Cyllid a'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn amlinellu'r sefyllfa debygol i Wynedd petai Llywodraeth Cymru yn gosod yr un amodau yng Nghymru. Pwrpas y craffu oedd sicrhau a fyddai'r un drefn yng Nghymru yn debygol o arwain at fuddiannau, colledion, cyfleon neu beryglon i Wynedd. Gellid penderfynu yn dilyn y gwaith os oedd y Cyngor am gysylltu gyda'r Llywodraeth yng Nghymru.

Penderfynwyd

a) Ymddengys fod y sefyllfa yn Lloegr yn gymhleth. O ystyried y ffeithiau a gyflwynwyd, nid oes sicrwydd a fyddai budd i Wynedd o dan yr un amodau i Gymru. Yn wir, mae'n ymddangos y byddai risgiau sylweddol i Wynedd.
b) Mae'r Pwyllgor yn argymell felly na ddylid ysgrifennu at y Llywodraeth yng Nghymru ar hyn o bryd i ofyn am yr un telerau i Gymru.
c) Pe cyfyd mwy o fanylion am ddatblygiadau tebyg i Gymru, argymhellir fod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn gwneud gwaith craffu pellach ar y mater bryd hynny.

**YMATEB Y CABINET**

Croesawodd y Cyng. Dyfrig Siencyn y pwyntiau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor, a nododd yr argymhelliad na ddylai'r Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i ofyn am yr un telerau i Gymru a sy'n bodoli yn Lloegr.

# ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU

# TAI GWYLIAU A THRETHI

Pwyllgor Craffu Corfforaethol – 16/06/2016

**Aelodau'r Ymchwiliad**

Y Cynghorydd Eirwyn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Trevor Edwards
Y Cynghorydd Aled Evans
Y Cynghorydd Jason Humphreys
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd John Wyn Williams
Y Cynghorydd R H Wyn Williams

**Swyddogion**

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)
Dewi A Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg)
Euryl Lloyd Jones (Rheolwr Trethi)
Emyr Edwards (Rheolwr Polisi Strategol Adnoddau)
Nia Davies (Rheolwr Polisi Cynllunio)
Vera Jones (Swyddog arweiniol - craffu)
Eirian Roberts (Swyddog cefnogol)

**Cynnwys**


| |
|---|
| **Yr Adroddiad** |
| 1. Cefndir |
| 2. Cyd-destun |
| 3. Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu |
| 4. Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad |
| 5. Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion yr Ymchwiliad |
| 6. Camau nesaf |
| **Yr Atodiadau** |
| **Atodiad 1** – copi llawn o friff yr Ymchwiliad |
| **Atodiad 2** – data a gwybodaeth gefndirol a gyflwynwyd i'r ymchwiliad |
| **Atodiad 3** – diweddariad i'r ffigurau a gyflwynwyd yn yr adroddiad gwreiddiol |
| **Atodiad 4** – nodiadau cyfarfod gyda Prif Brisiwr Cymru, Asiantaeth Brisio |
| **Atodiad 5** – nodiadau cyfarfod<br>a) ochor Cynllunio<br>b) gwaith ymchwil i'r sefyllfa mewn cynghorau eraill |
| **Atodiad 6** – ymateb Cyngor Gwynedd i ymgynghoriad Technegol Llywodraeth y Cynulliad ar fersiwn draft Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2015 a'r canllawiau ategol i dalwyr trethi nol ym mis Medi 2015. |
| **Atodiad 7** – nodiadau cyfarfod gyda Joanna Valentine, Pennaeth Trethi Lleol o fewn Adran Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru |
| **Atodiad 8** – copi o ohebiaeth Sir Benfro at Lywodraeth Cymru |

**1. Cefndir**

1.1 Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau (Cynghorydd Peredur Jenkins) nifer o bapurau i gyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn ymateb i gwestiynnau'r pwyllgor ynghylch trethu "ail gartrefi" ac "unedau hunan ddarpar", a'r sefyllfa yng Ngwynedd. Gwelwyd yn glir fod her flynyddol o warchod y sylfaen drethiannol a cholled ariannol yn wyneb eiddo'n symud o'r gyfundrefn Treth Cyngor i Drethi Annomestig.

1.2 Gofynnodd yr Aelod Cabinet Adnoddau i'r pwyllgor sefydlu ymchwiliad i graffu'r mater ar ei ran, drwy edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn siroedd eraill, a llunio argymhellion i'w sylw.

1.3 Gellir gweld copi o briff llawn yr ymchwiliad yn **Atodiad 1**.

**2. Cyd-destun**

2.1 Mae diffiniad pendant o fewn y gyfraith ar gyfer "Ail Gartrefi", sy'n destun Treth Cyngor, ac "Uned Hunan Ddarpar", sef cartrefi gwyliau sy'n dod o fewn y gyfundrefn Trethi Annomestig – gellir gweld y diffiniadau yn y papurau yn **Atodiad 2**.

2.2 Y gofynion cyfreithiol ar gyfer "uned hunan ddarpar" yw ei fod ar gael i'w logi am 140 diwrnod mewn blwyddyn (blwyddyn dreigl), a'i fod wedi ei osod am 70 diwrnod. Noder, nid oes cyfyngiad defnydd yn ôl y gyfraith ar weddill yr amser.

2.3 Mae pob annedd yn cychwyn yn y gyfundrefn Treth Cyngor (hyd yn oed os ydynt wedi derbyn caniatad cynllunio ar gyfer annedd newydd fel unedau hunan-ddarpar).

2.4 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r ffigurau sydd i law yn dangos fod nifer o anneddau yn symud o'r gyfundrefn Treth Cyngor i'r gyfundrefn Trethi Annomestig. Gellir gweld y tabl gyda'r wybodaeth yn Atodiad 2, gyda ffigurau diweddaraf wedi eu cyflwyno yn **Atodiad 3**.

2.5 Mae effaith ar sylfaen trethiannol a cholled ariannol i'r Cyngor yn wyneb eiddo sy'n symud o'r Gyfundrefn Treth Cyngor i Drethi Annomestig.

## 3. Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu

3.1 Pwrpas yr ymchwiliad craffu oedd edrych ar sefyllfa cynghorau eraill yng nghyd-destun trosglwyddiadau o gyfundrefn Treth Cyngor i gyfundrefn Trethi annomestig, gan chwilio am atebion ymarferol er mwyn delio â'r sefyllfa yng Ngwynedd gan atal neu arafu unrhyw drosglwyddo anaddas.

3.2 Er mwyn gallu dod i gasgliad, bwriad yr ymchwiliad oedd:

a) Deall y sefyllfa yng Ngwynedd a'i effaith
b) Deall rôl a chyfrifoldebau Swyddfa'r Prisiwr a'u craffu
c) Deall rôl a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'u craffu (gan roddi mewnbwn annibynnol i ymateb i ymgynghoriad technegol Llywodraeth Cymru i'r maes ar yr un pryd)
ch) Ymchwilio i'r sefyllfa mewn cynghorau eraill, gan gynnwys Lloegr, i weld os yw'r un problemau yn bodoli ac i weld os oes unrhyw wersi i'w dysgu ganddynt.

3.3 Ffocws yr ymchwiliad oedd yr eiddo hynny sy'n symud o'r gyfundrefn Treth Cyngor i Drethi Annomestig. Nid oedd cyfle o fewn cwmpas yr ymchwiliad hwn i ystyried materion eraill ynghylch y maes.

## 4. Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad

4.1 Cytunwyd ar raglen waith a oedd yn ceisio cyfarch y briff. Roedd sawl elfen gwahanol i'r gwaith, a dymuna aelodau'r ymchwiliad ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ddod i ateb cwestiynnau'r ymchwiliad yng Ngwynedd. Gweler isod grynodeb o'r gwaith i ymateb i'r briff.

4.2 <u>Deall y sefyllfa yng Ngwynedd a'i effaith.</u>
Bu cryn waith gan y Pennaeth Cyllid a'i swyddogion yn cyflwyno tystiolaeth er mwyn sicrhau dealltwriaeth aelodau'r ymchwiliad i'r sefyllfa yng Ngwynedd. Cyflwynwyd:

a) gwybodaeth am y rheolau oedd ynghlwm ag "ail gartrefi" ac "unedau hunan ddarpar" a'r diffiniadau penodol sy'n rhaid eu cwrdd cyn gallu trosglwyddo o un gyfundrefn i'r llall,
b) data yn dangos y tueddiadau dros y blynyddoedd diwethaf o ran y symudiadau rhwng y gyfundrefn Treth Cyngor a'r Gyfundrefn Trethi Annomestig ac
c) esboniwyd effaith ariannol y trosglwyddiadau ar y Cyngor.

Yn ogystal, gwelwyd tystiolaeth o ohebiaeth barhaus gan y Cyngor at Lywodraeth Cymru yn rhoi pwysau arnynt i weithredu i dynhau'r rheolau ar gyfer trosglwyddo. Gweler cofnod o'r materion a godwyd yn **Atodiad 2**. Gweler diweddariad o'r ffigurau yn **Atodiad 3**.

4.3 <u>Deall rôl a chyfrifoldebau Swyddfa'r Prisiwr a'u craffu.</u>
Cynhaliwyd cyfweliad gyda Mr Ritchie Roberts, Prif Brisiwr Cymru /Swyddog Prisio, o Asiantaeth Swyddfa Brisio. Trwy gyfweld â Phrif Brisiwr Cymru cafwyd cyfle i:

a) sicrhau dealltwriaeth glirach o'r gofynion cyfreithiol sydd ar unigolion sy'n cyflwyno cais cyfreithiol i drosglwyddo annedd i gyfundrefn trethi annomestig,
b) rôl Swyddfa'r Prisiwr yng nghyd-destun y trosglwyddiadau, sef mai hwy sydd yn penderfynu os yw eiddo yn trosglwyddo o gyfundren Treth Cyngor i gyfundrefn trethi annomestig (ac nid penderfyniad y Cyngor yw hwn)
c) ddeall a gwerthfawrogi'r cyd-weithio parhaus sydd wedi sefydlu rhwng Cyngor Gwynedd a Swyddfa'r Prisiwr i wirio statws anheddau, gan geisio gwneud yn siwr eu bod ar y rhestr cywir.

Yn ogystal, cadarnhaodd y Prisiwr mai Cyngor Gwynedd yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru oedd wedi mynegi pryder am y maes. Nododd aelodau'r ymchwiliad eu bod wedi gwerthfawrogi amser Prif Brisiwr Cymru yn mynychu'r sgwrs er mwyn sicrhau dealltwriaeth mwy trylwyr o'r sefyllfa a chael cyfle i'w holi ymhellach. Mae cofnod o'r cyfarfod a gynhaliwyd i'w weld yn **Atodiad 4**.

4.4 <u>Deall rôl Cynllunio.</u>
Wrth i'r ymchwiliad fynd yn ei flaen, daeth i'r amlwg fod gwahaniaeth mewn diffiniad a chyfynghiadau a osodir o safbwynt y drefn cynllunio ar eiddo, a'r hyn a osodir gan y gyfundrefn trethiant. Yn y bon, maent yn ddwy gyfundrefn ar wahan sydd heb unrhyw gyswllt yn gyfredol. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth glirach gan aelodau'r ymchwiliad, cynhaliwyd cyfweliad gyda Nia Davies, Rheolwr Polisi Cynllunio i geisio gwell dealltwriaeth o'r gwahanol ddifiniadau. Roedd yr elfen yma yn ychwanegol i'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r ymchwiliad, ond yn elfen holl bwysig i ddeall y maes a gallu creu argymhellion. Gellir gweld cofnod o'r cyfarfod yn **Atodiad 5**.

4.5 Ymchwilio i sefyllfa Cynghorau eraill.

Derbyniwyd cyflwyniad byr gan y Rheolwr Polisi Strategol Adnoddau ar ganlyniadau ei waith ymchwil i'r sefyllfa mewn cynghorau eraill. Nodwyd, heblaw am ardal y Ddinas yn Llundain ac Ynysoedd Scilly, mai Gwynedd oedd yr uchaf drwy Gymru a Lloegr o ran cyfran ail gartrefi, a bod trafodaethau wedi digwydd yn y gorffenol gyda rhai o'r cynghorau ond nad oedd fawr o ddiddordeb ar y pryd. Gellir gweld cofnod y cyfarfod yn **Atodiad 5**.

4.6 Deall rôl Llywodraeth Cymru a'u Craffu

Bu dwy elfen i'r gwaith yma. Yn gyntaf, bu i aelodau'r ymchwiliad gyflwyno sylwadau annibynnol er ymateb i ymgynghoriad technegol Llywodraeth y Cynulliad ar fersiwn draft Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2015 a'r canllawiau ategol i dalwyr trethi nol ym mis Medi 2015. Gweler **Atodiad 6**.

Yn ogystal, bu i aelodau'r ymchwiliad gyfweld Jo Valentine, Pennaeth Trethi Lleol o fewn Adran Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, sydd â chyfrifoldeb am bolisiau a deddfwriaeth eilradd yng nghyd-destun treth Cyngor yng Nghymru. Cafwyd trafodaethau ynghylch y rheolau o amgylch "unedau hunan ddarpar" a'r posibilrwydd o'u newid/addasu. Yn ogystal, cymerwyd y cyfle i drafod gwerth trethiannol busnesau bychain sy'n rhan o gyfundrefn trethi annomestig, a'r trefniadau rhyddhad trethi busnesau bychain cyfredol. Cafwyd diweddariad ar y datblygiadau ar gyfer symud tuag at well cyd-weithio ffurfiol rhwng yr Asiantaeth Brisio er mwyn rhannu gwybodaeth gyda'r cynghorau sydd ar y gweill. Gweler y cofnod yn **Atodiad 7**.

5. **Prif Ddarganfyddiadau'r Ymchwiliad, ac argymhellion.**

5.1 Mae gwaith yr ymchwiliad wedi profi'n hynod o werthfawr i aelodau'r ymchwiliad, yn arbennig o safbwynt sicrhau dealltwriaeth gliriach o'r sefyllfa a'r rheolau, gan gynnwys hefyd ddileu rhai ragfarnnau am y maes ar sail diffyg tystiolaeth.

5.2 Er mwyn gwireddu'r newidiadau mae'r aelodau craffu yn credu sydd angen eu gwneud, bydd angen newid mewn deddfwriaethau yn y maes, sy'n eithaf heriol i'w cyflawni gan eu bod y tu allan i bwerau uniongyrchol y Cyngor.

5.3 Fodd bynnag, mae wedi dod i'r amlwg fod Gwynedd yn llais eithaf unig yn galw am y newidiadau. Mae'r effaith ar Wynedd yn sylweddol uwch na chynghorau eraill Cymru. Mae'n fater llai sylweddol gan gynghorau eraill Cymru, tra bo Cyngor Gwynedd yn ceisio taro balans rhwng twristiaeth, sicrhau tegwch i fusnesau bach lleol, a gwarchod ardaloedd er mwyn gwarchod yr iaith.

5.4 Mae'r ymchwiliad wedi adnabod rhywfaint o argymhellion i'r Aelod Cabinet, ond yn cadarnhau nad oes ateb syml i'r sefyllfa. Gwaith parhau i geisio dwyn perswâd/ dylanwad ar eraill ydyw yn y bôn, yn hytrach na sefyllfa lle gall Gwynedd wneud newidiadau ei hun er mwyn newid y sefyllfa.

5.5 Cyflwynir yr argymhellion isod.

<table>
<tr><td>1. Y Drefn Trethiant.</td></tr>
<tr><td>Darganfyddiadau –<ul><li>Bod anghysondeb yn parhau yn y meini prawf ar gyfer gosod unedau hunan-ddarparu, gyda gofynion Gorchymyn 2010 yn nodi 70 diwrnod o wir osod, a gofynion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn nodi 105 diwrnod o wir osod.</li><li>Gwynedd yw'r awdurdod sy'n tynnu sylw Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Prisiwr i'r problemau. Yn ddiweddar, mae Cyngor Sir Benfro wedi gohebu gyda Llywodraeth Cymru ar y mater hefyd (gweler Atodiad 8).</li></ul></td></tr>
<tr><td>Tystiolaeth –<ul><li>Mae gwaith lobio/dwyn perswâd gan y Cyngor yn y gorffennol wedi dwyn ffrwyth wrth rwystro'r Llywodraeth rhag llacio'r rheolau (fel y bwriadwyd yn wreiddiol) yng nghyd-destun rheoliadau i adnabod “unedau hunan ddarpar” go iawn.</li><li>Petae mwy nag un awdurdod yn cynnal trafodaethau gyda'r gwahanol asiantaethau yna byddai'n cryfhau'r ddadl.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –<br><br>Cysylltu gyda Llywodraeth Cymru (ar yr un pryd a'r mater cynllunio) i barhau i geisio eu perswadio i gysoni meini prawf ar gyfer gosod unedau hunan-ddarpar i gyd-fynd â gofynion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sef 105 diwrnod.<br>Ar yr un pryd dylid ceisio codi ymwybyddiaeth awdurdodau eraill yng Nghymru sydd â phroffil sy'n ymdebygu i Wynedd (o ran proffil ail gartrefi) i geisio codi eu ymwybyddiaeth i'r uchod, gan eu hannog i'n cynorthwyo gyda'r perswadio.</td></tr>
</table>

**2. Y Drefn Prisio**

**Darganfyddiadau** –

- Mae gwerth trethiannol busnesau bychain yn ymddangos yn isel, yn arbennig o'i gymharu â'r incwm gosod. O ganlyniad, mae'r dreth fusnes a delir yn isel, yn llai na'r bil treth cyngor.

- Mae Swyddfa'r Prisiwr yn cynnal ymarferion gwirio i sicrhau fod anheddau ar y rhestrau cywir i dalu unai Treth Cyngor neu Trethi Annomestig. Fodd bynnag, ar adeg o adnoddau'n prinhau roedd yr ymchwiliad yn awyddus i weld fod y broses o wirio unrhyw geisiadau i newid o un drefn i'r llall yn digwydd cyn gynted ag y bo modd, gyda herio digonol.

**Tystiolaeth** –

- Gwyddus fod incwm "uned hunan gynhaliol" yn rhan o'r fformiwla i geisio adnabod gwerth trethiannol busnesau bychain.
- Mae pob eiddo sydd ar y rhestr trethi annomestig yn destun gwaith ail-brisio hir dymor, gyda gofyn statudol am restr brisio addasedig yn ei le o 1 Ebrill 2017.
- Disgwylir i werth trethiannol eiddo hunan-ddarpar gael ei asesu yn gyffredinol yn uwch.
- Yn y tymor hir, petai hyn yn digwydd, gallai arwain at werth trethiannol eiddo hunan-ddarpar yn cael ei asesu yn gyffredinol uwch, a fyddai yn ei dro, yn ei gwneud yn llai deiniadol o bosib i unigolion wneud cais i drosglwyddo o'r gyfundrefn dreth Cyngor i'r gyfundrefn trethi annomestig.
- Mae cyd-weithio da wedi sefydlu rhwng Cyngor Gwynedd a Swyddfa'r Prisiwr, sy'n sicrhau fod manylion yn cael eu gwirio cyn i anheddau drosglwyddo o'r gyfundrefn Treth Cyngor i'r gyfundrefn Trethi Annomestig.

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet** –

Er y byddai'n golygu newidiadau gweithio Prydeinig i'r maes, awgrymir y dylid cysylltu gyda Swyddfa'r Prisiwr i drafod y gwaith asesu gwerth trethiannol er mwyn sicrhau gwerth trethiannol teg ar gyfer unedau hunan-ddarpar.
Ceisio cefnogaeth awdurdodau eraill gyda hyn (gweler isod).

**3. Y Drefn Cynllunio**

**Darganfyddiadau** –

Yn gyfredol nid oes angen caniatâd cynllunio fel arfer i newid defnydd eiddo o "aelwyd" i "uned hunan-ddarpar" oherwydd, yn nhermau cynllunio defnydd tir, nid yw hynny yn cyfrif fel "newid defnydd perthnasol", h.y. nid oes newid arwyddocaol yn digwydd yn y ffordd y defnyddir yr eiddo.

**Tystiolaeth** –

- Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarth Defnydd) yn rhoi defnyddiau tir i wahanol grwpiau. Mae defnydd preswyl / tai yng Ngrŵp Dosbarth Defnydd C3.
- Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer sawl math o newid defnydd mewn adeiladau, ee o siop i gaffi er mwyn sicrhau rheolaeth dros effaith defnydd amgen ar dir neu adeiladau cyfagos.
- Yn gyfredol, nid yw'r Gorchymyn yn gwahaniaethu rhwng tai a ddefnyddir yn barhaol a rhai sydd ond yn cael eu defnyddio o dro i dro yn ystod y flwyddyn.
- Byddai'r angen i sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd eiddo o un sy'n cael ei ddefnyddio yn barhaol / fel y prif gartref i un sy'n cael ei ddefnyddio yn achlysurol yn ei gwneud yn haws i adnabod y gwahanol fathau o eiddo yng Ngwynedd, ac i sicrhau cofrestru i dalu'r trethiant cywir.
- Trwy lobio, llwyddwyd i ddwyn perswâd i addasu'r Gorchymyn yn Lloegr, ac yna yn ddiweddar iawn yng Nghymru, mewn perthynas â thai aml ddeiliaeth er mwyn sicrhau rheoli defnydd priodol o eiddo.

| |
|---|
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet** –<br><br>Cysylltu ymhellach, ar y cyd â'r Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio, gyda Llywodraeth Cymru i geisio eu hannog i newid y Gorchymyn perthnasol fel y bydd angen hawl cynllunio i newid defnydd 'aelwyd' i "uned hunan-ddarpar".<br>Ceisio cefnogaeth awdurdodau eraill gyda hyn (gweler uchod). |

**6. Y Camau Nesaf**

Mae'r Aelod Cabinet Adnoddau wedi derbyn diweddariadau parhaus trwy gydol cyfnod yr ymchwiliad, ac er y bu oediad cyn cyflwyno'r adroddiad swyddogol i Bwyllgor Craffu Corfforaethol, roedd yr Aelod Cabinet yn ymwybodol o'r cyfeiriad a'r argymhellion drafft.

# Ymchwiliad Craffu – Tai Gwyliau a Threthi

**Fersiwn 3.00 o'r Sgôp**

**Cefndir**

Mae diffiniadau pendant o fewn y gyfraith ar gyfer "Ail Gartrefi", sy'n destun Treth Cyngor, ac "Uned Hunan Ddarpar", sef cartrefi gwyliau sy'n dod o fewn y gyfundrefn Trethi Annomestig.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau nifer o bapurau i'r cyfarfod paratoi ar 20/05/2015 yn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ynghylch trethu "ail gartrefi" ac "unedau hunan ddarpar", a'r sefyllfa yng Ngwynedd. Gwelwyd yn glir fod her flynyddol o warchod y sylfaen trethiannol a'r gyllideb yn wyneb eiddo'n symud o'r gyfundrefn Treth cyngor i Drethi Annomestig.

Mae'r Aelod Cabinet Adnoddau wedi gofyn i'r pwyllgor sefydlu gweithgor i graffu'r mater ar ei ran, drwy edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn siroedd eraill, a llunio argymhellion i'w sylw.

Ffocws yr ymchwiliad hwn yw'r eiddo hynny sy'n symud o'r gyfundrefn Treth Cyngor i Drethi Annomestig. Ni fyddwn yn ystyried materion eraill ynghylch y maes.

**Pwrpas yr Ymchwiliad**

Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu fydd edrych ar sefyllfa cynghorau eraill yn y cyd-destun uchod gan chwilio am atebion ymarferol er mwyn delio â'r sefyllfa gan atal neu arafu y trosglwyddo.

Er mwyn ein galluogi i wneud hyn bydd angen:

- Deall y sefyllfa yng Ngwynedd a'i effaith
- Deall rôl a chifrifoldebau Swyddfa'r prisiwr a'u craffu
- Deall rôl a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'u craffu, (gan roddi mewnbwn annibynnol i ymateb i ymgynghoriad technegol Llywodraeth Cymru i'r maes ar yr un pryd)
- Ymchwilio i'r sefyllfa mewn cynghorau eraill, gan gynnwys Lloegr, i weld os yw'r un problemau yn bodoli ac i weld os oes unrhyw wersi i'w dysgu ganddynt

**Cyfnod yr Ymchwiliad**

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr ymchwiliad | Medi 2015 |
| Diwedd yr ymchwiliad | Rhagfyr 2015 |
| Adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 3ydd Rhagfyr 2015 neu 4ydd Chwefror 2016 |
| Adroddiad oddi wrth craffu at y Weithrediaeth | Yn fuan yn 2016 |

**Rhaglen**

Amlinelliad o'r prif gamau a chyfarfodydd.

**Bydd gofyn i'r aelodau wneud gwaith ychwanegol rhwng y cyfarfodydd.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau a'r Pennaeth Cyllid i'r cyfarfod agoriadol er mwyn deall y sefyllfa yn glir yng Ngwynedd. | Medi 3ydd |
| 2. | Sesiwn holi ac ateb gyda Swyddfa'r Prisiwr | Hydref 13eg |
| 3. | Sesiwn holi ac ateb gyda'r Llywodraeth | I'w drefnu |
| 4. | Sesiwn holi ac ateb gyda'r Adran Gynllunio er mwyn gallu ystyried a oes opsiynau o ran y drefn gynllunio i allu newid y sefyllfa | I'w drefnu |
| 5. | Cyflwyniad i wybodaeth am siroedd eraill gan gychwyn ystyried, dadansoddi a chrynhoi y wybodaeth a gasglwyd er mwyn cychwyn llunio argymhellion | Tachwedd |
| 6. | Llunio'r adroddiad | |
| 7. | Pwyllgor Craffu Corfforaethol i ystyried yr adroddiad drafft a chyflwyno'r argymhellion i'r Aelod Cabinet | |

***ATODIAD 2***
***DATA A GWYBODAETH GEFNDIROL***

**Cwestiynau'r Pwyllgor Craffu ynglŷn ag Ail Gartrefi a Cartrefi Gwyliau sy'n destun Trethi Annomestig**

**Diffiniadau**

Mae diffiniadau pendant o fewn y gyfraith ar gyfer "Ail Gartrefi", sy'n destun Treth Cyngor, ac "Uned Hunan Ddarpar", sef cartrefi gwyliau sy'n dod o fewn y gyfundrefn Trethi Annomestig.

**Diffiniad: "Ail Gartrefi"**

Mae'r gyfraith yn nodi fod "Ail Gartref" yn Nghymru yn eiddo **sydd ddim yn unig neu brif breswylfa unigolyn, ac sydd wedi ei ddodrefnu**.

*(Mae'r gyfraith hefyd yn rhannu'r ail gartrefi i Ddosbarth A neu Dosbarth B, yn ddibynnol os yw ei feddiant wedi ei wahardd drwy gyfraith am gyfnod parhaus o leiaf 28 diwrnod yn y flwyddyn berthnasol, neu beidio).*

**Diffiniad: "Uned Hunan Ddarpar"**

Mae diffiniad penodol hefyd o "Uned Hunan Ddarpar" o fewn y gyfundrefn Trethi Annomestig. Swyddfa'r Prisiwr sy'n asesu eiddo, ond yn dilyn asesiad o'r fath gall eiddo drosglwyddo i'r gyfundrefn Trethi Annomestig os yw Swyddfa'r Prisiwr wedi eu hargyhoeddi fod y canlynol wedi ei fodloni:

Bydd yr eiddo ar gael i'w osod yn fasnachol fel llety hunan ddarpar am gyfnodau sy'n dod i gyfanswm o 140 o ddiwrnodau neu fwy am gyfnod o 12 mis calendr o leiaf **ar ôl** yr asesiad, ac os, yn y 12 mis calendr **cyn** yr asesiad -

(i) roedd yr eiddo ar gael i'w osod yn fasnachol fel llety hunan ddarpar am gyfnodau sy'n dod i gyfanswm o 140 o ddiwrnodau neu fwy; **a**

(ii) cafodd yr eiddo ei osod felly am gyfnodau sy'n dod i gyfanswm o 70 o ddiwrnodau neu fwy.

**Cwestiynau'r Pwyllgor Craffu**

i. Beth yw'r darlun sirol o eiddo a gaiff ei osod fel llety gwyliau am gyfran fach o'r flwyddyn, a beth yw eu cyfraniad treth?

   Mae cyfanswm o **5,544** ail gartref wedi eu cofnodi o fewn y gyfundrefn Treth Cyngor yng Ngwynedd, a **776** "uned hunan ddarpar" wedi eu cofnodi o fewn y gyfundrefn Trethi Annomestig. Mae **Atodiad A** yn cynnwys dadansoddiad o'r ffigyrau hyn fesul cymuned.

ii. Pa fath o heriau/cyfleoedd y mae'r darlun hwn yn ei greu i Wynedd?

Wynebir her flynyddol o warchod y sylfaen trethiannol a'r gyllideb yn wyneb eiddo'n symud o'r gyfundrefn Treth Cyngor i Trethi Annomestig, a hynny'n golygu talu llai o dreth.

Byddai codi premiwm ar ail gartrefi yn gyfle i fynd i'r afael â'r dirywiad yn y sylfaen drethiannol.

iii. A yw'r patrwm o eiddo a gaiff ei osod fel llety gwyliau am gyfran fach o'r flwyddyn yn symud o un gyfundrefn trethi i'r llall (o dreth Cyngor i dreth fusnes) yn parhau? Os ydyw, beth yw ei effaith ar y sylfaen drethiannol ar gyllideb leol?

Mae **Atodiad B** yn dangos nifer yr eiddo sydd wedi symud o'r gyfundrefn Treth Cyngor i'r gyfundrefn Trethi Annomestig ers Ebrill 2006. Noder hefyd bod modd ôl-ddyddio trosglwyddiad yr eiddo o'r gyfundrefn Treth Cyngor, ond nad oes ôl ddyddio i bwrpasau grant i'n digolledu.

iv. Sut all y Cyngor sicrhau trethi teg ar dai gwyliau a gaiff eu gosod am gyfran fach o'r flwyddyn ar y naill law a gwarchod busnesau bach lleol ar y llaw arall?

Mae'r Cyngor yn gwarchod busnesau bach lleol trwy weithredu cynllun Llywodraeth Cymru a wnelo rhyddhad trethi annomestig busnesau bach, ond os yw eiddo yn cael ei osod am 70 niwrnod, nid oes modd trethu'r eiddo ar gyfer Treth Cyngor.

v. Beth oedd canlyniad yr ymgynghoriad ar Ganfyddiadau'r Adroddiad ar Effaith Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010?

Heb ei benderfynu. Ymholwyd ar y mater a gweler llythyr yr Aelod Cabinet dros Adnoddau i Jo Valentine o Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Cymru dyddiedig 27 Mawrth 2015 ynghyd ag ymateb Jo Valentine i'r llythyr hwnnw, dyddiedig 27 Ebrill 2015.

vi. Roedd gan y Cyngor bryder ynglŷn ag awydd Llywodraeth Cymru i lacio'r gofynion ar eiddo o'r math sydd dan sylw. Petai Llywodraeth Cymru yn penderfynu llacio'r gofynion, beth fyddai effaith hynny ar y Cyngor, ar berchnogion eiddo a gaiff ei osod am gyfran fach o'r flwyddyn, ac ar weddill trigolion Gwynedd?

Ychwanegu at y pryderon o golli eiddo o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig fuasai hynny. Gweler llythyr yr Aelod Cabinet dros Adnoddau dyddiedig 19 Mawrth 2014 anfonwyd i Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r bygythiad o hynny. Noder y gwrthwynebir unrhyw lacio ar y gofynion ac i'r Cyngor mewn ymateb argymell tynhau y drefn sydd ohoni trwy ymestyn y prawf i 105 niwrnod.

vii. Pa rymoedd sydd gan y Cyngor i sicrhau cyfraniad trethi teg ar eiddo a gaiff ei osod fel llety gwyliau am gyfran fach o'r flwyddyn?

Gan Llywodraeth Cymru mae'r grym i ddeddfu. Gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (asgell o Gyllid a Thollau'r Llywodraeth) mae'r grym yng nghyswllt dynodi gwerth trethiannol eiddo ar gyfer asesiad Trethi Annomestig neu ddynodi band Treth Cyngor ar gyfer y drefn Treth Cyngor.

viii. Pa mor hawdd ydyw i fonitro a sicrhau cyfraniad trethi teg ar eiddo a gaiff ei osod fel llety gwyliau am gyfran fach o'r flwyddyn?

Yr elfen yma, fel yr uchod, yn gyfrifoldeb Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

ix. A yw'r Cyngor yn ymwybodol o ymatebion Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru i'r mater yma?

Mae ymateb ysgrifenedig cynghorau eraill yn brin ac agwedd ar lafar ddim yn gefnogol iawn i safbwynt Cyngor Gwynedd.

# Atodiad A

Nifer yr eiddo sydd wedi eu dynodi fel ail gartrefi at bwrpasau Treth Cygnor, fesul Cymuned:

| Cymuned | Treth Cyngor - Ail Gartrefi | | | | Trethi Annomestig |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dos. A | Dos. B | Cyfanswm | | Unedau Hunan Gynhaliol |
| ABERDARON | 0 | 135 | 135 | | 31 |
| BEDDGELERT | 0 | 73 | 73 | | 27 |
| BOTWNNOG | 0 | 44 | 44 | | 7 |
| BUAN | 0 | 35 | 35 | | 2 |
| CLYNNOG | 1 | 54 | 55 | | 13 |
| CRICCIETH | 0 | 79 | 79 | | 26 |
| DOLBENMAEN | 0 | 66 | 66 | | 24 |
| LLANAELHAEARN | 0 | 40 | 40 | | 3 |
| LLANBEDROG | 25 | 155 | 180 | | 8 |
| LLANENGAN | 13 | 658 | 671 | | 40 |
| LLANNOR | 0 | 36 | 36 | | 14 |
| LLANYSTUMDWY | 13 | 50 | 63 | | 32 |
| NEFYN | 11 | 283 | 294 | | 32 |
| PISTYLL | 0 | 51 | 51 | | 15 |
| PORTHMADOG | 17 | 312 | 329 | | 57 |
| PWLLHELI | 0 | 82 | 82 | | 8 |
| TUDWEILIOG | 0 | 71 | 71 | | 13 |
| BANGOR | 0 | 39 | 39 | | 1 |
| CAERNARFON | 0 | 26 | 26 | | 7 |
| BETHESDA | 0 | 22 | 22 | | 2 |
| BETWS GARMON | 0 | 33 | 33 | | 6 |
| LLANBERIS | 1 | 38 | 39 | | 5 |
| LLANDDEINIOLEN | 0 | 52 | 52 | | 10 |
| LLANDWROG | 0 | 42 | 42 | | 10 |
| BONTNEWYDD | 1 | 4 | 5 | | 7 |
| Y FELINHELI | 0 | 85 | 85 | | 6 |
| LLANLLYFNI | 0 | 60 | 60 | | 2 |
| LLANRUG | 160 | 23 | 183 | | 11 |
| LLANWNDA | 16 | 15 | 31 | | 2 |
| WAUNFAWR | 31 | 10 | 41 | | 4 |
| ABER | 0 | 5 | 5 | | 0 |
| LLANDYGAI | 0 | 26 | 26 | | 4 |
| LLANLLECHID | 0 | 8 | 8 | | 2 |
| PENTIR | 0 | 19 | 19 | | 4 |
| BALA | 0 | 17 | 17 | | 6 |
| LLANDDERFEL | 0 | 32 | 32 | | 16 |
| LLANGYWAIR | 0 | 16 | 16 | | 2 |
| LLANUWCHLYN | 0 | 21 | 21 | | 4 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| LLANYCIL | 0 | 14 | 14 | | 2 |
| TYWYN | 18 | 203 | 221 | | 16 |
| BRYNCRUG | 44 | 23 | 67 | | 7 |
| ABERDYFI | 57 | 328 | 385 | | 35 |
| ABERMAW | 1 | 145 | 146 | | 24 |
| DOLGELLAU | 0 | 79 | 79 | | 20 |
| BRITHDIR & LLANFRACHETH | 0 | 59 | 59 | | 19 |
| Y GANLLWYD | 0 | 10 | 10 | | 5 |
| LLANEGRYN | 0 | 11 | 11 | | 5 |
| LLANELLTYD | 0 | 43 | 43 | | 8 |
| DYFFRYN ARDUDWY | 42 | 84 | 126 | | 17 |
| LLANFIHANGEL Y PENNANT | 1 | 58 | 59 | | 5 |
| ARTHOG | 4 | 142 | 146 | | 13 |
| LLANGELYNIN | 0 | 54 | 54 | | 11 |
| MAWDDWY | 5 | 42 | 47 | | 14 |
| PENNAL | 18 | 46 | 64 | | 7 |
| CORRIS | 12 | 48 | 60 | | 3 |
| FFESTINIOG | 0 | 141 | 141 | | 22 |
| LLANBEDR | 2 | 39 | 41 | | 13 |
| HARLECH | 0 | 124 | 124 | | 17 |
| LLANFAIR | 0 | 64 | 64 | | 7 |
| LLANFROTHEN | 0 | 19 | 19 | | 6 |
| MAENTWROG | 0 | 40 | 40 | | 7 |
| PENRHYNDEUDRAETH | 0 | 39 | 39 | | 9 |
| TALSARNAU | 0 | 55 | 55 | | 9 |
| TRAWSFYNYDD | 289 | 35 | 324 | | 12 |
| **CYFANSWM** | 782 | 4762 | 5544 | | 776 |


**Dosbarth A:** Ail Gartref y mae ei feddiant wedi ei wahardd drwy gyfraith am gyfnod parhaus o leiaf 28 diwrnod yn y flwyddyn berthnasol.

**Dosbarth B:** Ail Gartref lle nad oes gwaharddiad drwy gyfraith ar ei feddiannu am gyfnod parhaus o leiaf 28 diwrnod yn y flwyddyn berthnasol.

## ATODIAD B

**Nifer yr unedau domestig sydd wedi eu colli o gyfundrefn Treth Cyngor i'r gyfundrefn Trethi Annomestig ers 1 Ebrill 2006**

| Blwyddyn Ariannol | Cyfanswm Blynyddol |
|---|---|
| 2006/07 | 78 |
| 2007/08 | 86 |
| 2008/09 | 60 |
| 2009/10 | 52 |
| 2010/11 | 40 |
| 2011/12 | 106 |
| 2012/13 | 110 |
| 2013/14 | 82 |
| 2014/15 | 188 |
| **Cyfanswm dros y cyfnod** | **802** |



Llywodraeth Leol a Chymunedau
Local Government and Communities

**Llywodraeth Cymru**
**Welsh Government**

Cynghorydd Peredur Jenkins
Aelod y Cabinet ar gyfer Adnoddau
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

27 Ebrill 2015

Annwyl y Cynghorydd Jenkins,

**TRETH GYNGOR**

Diolch am eich llythyr mewn perthynas a'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar eithriadau posibl o bremiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi. Rwy'n edrych ymlaen at weld eich ymateb manwl maes o law.

Rwy'n deall eich pryderon ynghylch ail gartrefi ac eiddo hunanarlwyo yn eich ardal ac effaith hyn ar sylfaen dreth eich cyngor. Fel y gwyddoch, rydym wrthi'n ymchwilio gyda chyfreithwyr o ran pa welliannau y mae modd eu gwneud i Orchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010 er mwyn mynd i'r afael a materion a godwyd — mae hyn yn cynnwys pryderon gan y diwydiant twristiaeth, yn ogystal a phryderon awdurdodau lleol. Mae eich swyddogion wedi bod yn ymwneud a'r gwaith hwn, yn yr un modd ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, gydag Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru hefyd yn cynghori ar y gwaith hwn. Yn amodol ar gymeradwyo gan y Gweinidog, rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad technegol yn yr haf ar Orchymyn diwygiedig a chanllawiau ategol.

Yn y cyfamser, rydym wedi trafod gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio ynghylch cymorth ychwanegol y gallant ei roi i'ch cyngor i geisio cyfyngu ar symud ail gartrefi o restr y dreth gyngor i'r rhestr fusnes, ac rwy'n cael ar ddeall bod rhai gwiriadau ychwanegol wedi cael eu gosod.

Rydym yn cydnabod bod gweinyddu effeithiol o Orchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) yn hanfodol o ran gallu'ch cyngor i roi premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi. Mae Gweinidogion hefyd wedi cael eu hysbysu y bydd cyflwyno'r premiwm yn rhoi ysgogiad ychwanegol i berchnogion ail gartrefi gael eu gwneud yn gyfrifol am ardrethi annomestig yn hytrach na'r dreth gyngor.

Roedd yr ymgynghoriadau diweddar ar bremiymau'r dreth gyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar eithriadau posibl y gallai fod eu hangen i'r premiymau, yn hytrach nag ar roi'r premiwm ar waith yn benodol. 0 ganlyniad, penderfynwyd peidio a chynnwys adran fanwl ar Orchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010. Bydd yr ymgynghoriad technegol ar y Gorchymyn diwygiedig yn ystyried yn benodol beth yw effaith rhoi premiymau'r dreth gyngor ar waith.

Hefyd dylid nodi na fydd premiymau'r dreth gyngor yn cael eu rhoi ar waith tan 1 Ebrill 2017, ac rydym yn bwriadu adolygu effeithiolrwydd y Gorchymyn diwygiedig i ystyried unrhyw welliannau pellach y mae eu hangen cyn cyflwyno'r premiymau.

Hoffwn ymddiheuro'n ddiffuant am oedi yn ymateb i chi.

Yn gywir

**Jo Valentine**
Local Government Finance Policy Division / Yr Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Welsh Government / Llywodraeth Cymru

**Aelod Cabinet Adnoddau**
**Cabinet Member Resources**
Y Cynghorydd / Councillor Peredur Jenkins

Gofynnwch am/Ask for: Dafydd L Edwards
(01286) 682668
Ffacs/Fax: (01286) 679589
DafyddLE@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref: PJ/DLEJAJ
Eich Cyf / Your Ref:

Joanna Valentine
Pennaeth Polisi Trethiant Lleol
Is-adran Cyllid a Pherfformiad Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

27 Mawrth 2015

Annwyl Ms Valentine,

**TRETH CYNGOR**

Diolch am y ddogfen ymgynghorol "Eithriadau o Bremiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi yng Nghymru". Byddwn yn darparu ymateb cynhwysfawr i'r ymgynghoriad hwnnw maes o law, cyn y dyddiad cau, and hoffwn ddod ag un mater sylfaenol i'ch sylw cyn hynny.


Cefais fy synnu a'm siomi wrth ddarllen y ddogfen gan nad oes unrhyw gyfeiriad ynddo at gasgliadau'r ymgynghoriad blaenorol ar y meini prawf yng Ngorchymyn 2010 *(The Non Domestic Rating (Definition of Domestic Property) Wales Order 2010)* er mwyn penderfynu os mai Treth Cyngor neu treth busnes sy'n briodol i eiddo. Mae cysylltiad amlwg rhwng y diffiniad statudol sydd yn y Gorchymyn a gwarchod y dreth ychwanegol fydd yn cael ei godi trwy'r premiwm, ac mae unrhyw fudd a ddaw o gynyddu'r premiwm yn dibynnu i raddau helaeth ar gryfder a phendantrwydd y Gorchymyn.

Mae'n rhesymol, felly, i ddisgwyl y byddai'r mater yma wedi derbyn sylw haeddiannol a phriodol yn yr ymgynghoriad cyfredol a byddwch yn ymwybodol i swyddogion ac aelodau'r Cyngor hwn fanteisio ar pob cyfle i dynnu sylw swyddogion a'r Gweinidog i'r mater yma dros gyfnod o amser. Rwy'n ymwybodol hefyd i swyddogion o'r Cyngor eich hysbysu o'r nifer parhaus o dai sy'n trosglwyddo o'r gyfundrefn Treth Cyngor i dreth busnes.

Roedd y Cyngor yn croesawu'r gofyn yng Ngorchymyn 2010 am 70 niwrnod o wir osod, and rydym yn parhau o'r farn nad yw hynny yn ddigonol, a dymunwn weld cysondeb a maen prawf Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sef 105 niwrnod. Yn ychwanegol, rydym wedi galw am addasu'r gyfraith cynllunio fel bod angen caniatad cynllunio cyn symud eiddo o'r stoc tai lleol i faes busnes ers o leiaf Ebrill 2007. Buasem hefyd yn dymuno gweld adolygiad blynyddol o'r caniatad hwnnw.

Yn hytrach na darparu copIau llawn o'r holl ohebiaeth sydd wedi eu hanfon atoch ar y mater, mewn ymateb i amrywiol ymgynghoriadau, amgaeaf fel atodiad ddyddiadau'r ohebiaeth a anfonwyd gan y Cyngor, gan ddyfynnu rhannau perthnasol. Hyderaf fod ein pryderon wedi derbyn ystyriaeth fanwl ar y pryd ac y byddant yn parhau i gael, ac y gwelwn ymateb ffafriol trwy dynhau ymhellach ar feini prawf Gorchymyn 2010 fel rhan annatod o'r pwerau newydd. Byddai hynny yn ein galluogi i gyflwyno a gweinyddu premiwm ar sylfaen gadarn, ac yn arf cryf i gynghorau wrth iddynt wireddu nod unrhyw bolisi arfaethedig.

Yn gywir,



**PEREDUR JENKINS**
**AELOD CABINET ADNODDAU**

**Atodiad 1**

**Ebrill 2007 - Ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad parthed rhyddhad rhag trethi i fusnesau bychan ar gyfer unedau hunangynhaliol wedi'u gosod yn fasnachol**

"... nad yw'r rheoliadau cyfredol o dan y Ddeddf Cynllunio yn ddigonol ar gyfer gwahaniaethu rhwng defnydd trigiannol a defnydd gwyliau a masnachol ... gan fod colli tai preswyl yn gostwng y nifer o dai ar gael ar y
farchnad i'r bobl leol ac yn dwysau y mater fforddiadwy, yn enwedig mewn rhannau arfordirol a gwledig. Mae angen cydlynu'r strategaeth rhwng polisfau tai fforddiadwy, ac ni fuasai'n dderbyniol i hybu perchnogion / prynwyr tai preswyl i dynnu eiddo o'r fath o'r farchnad. Ymhellach, credir fod angen i berchnogion tai preswyl geisio a derbyn caniatad cynllunio cyn addasu defnydd eiddo i fusnes fel unedau hunan-gynhaliol."

**30 Fehefin 2009 — ymateb i Bapur Ymgynghorol : CYNIGION I DIWYGIO'R MEINI PRAWF I BENNU ATEBOLRWYDD ANNOMESTIG / Y DRETH CYNGOR AR EIDDO MASNACHOL AR OSOD**

Fel man cychwyn, croesawir unrhyw gam i dynhau'r prawf, and yn fwy penodol unrhyw gam i'w gysylltu air gwir ddefnydd. Mae'r symud i ystyried ffactorau dros 3 blynedd i'w groesawu, gan y buasai yn gorfodi rhywgymaint ar ymrwymiad unigolyn neu fusnes i'r fenter, yn hytrach na chipiun un flwyddyn.

Gwelir y ffactor bod rhaid gosod am o leiaf 70 diwrnod ((b) o fewn y papur) yn sicr fel gwelliant (cymerir yn ganiataol y bydd rhaid dangos tystiolaeth bendant o hynny i'r Asiantaeth Brisio). Fodd bynnag, ystyrir mai cyfnod byr ac amherthnasol o ddefnydd blwyddyn gyfan all cwta 2 fis fod yn flynyddol, felly rydym yn argymell fod y rhan yma o'r prawf newydd yn 3 mis o leiaf (90 diwrnod).

Yn ymarferol, os mai bodloni ffactorau dros gyfnod o 3 blynedd fydd y prawf, sut ymdrinnir a'r dyddiad effeithiol? 0 ystyried y nod i gyfiwyno biliau amserol, cynllun talu rhesymol, ayyb, buasai unrhyw ol-ddyddio treth yn wrthyn i hynny.

Byddwn awydd mynd ymhellach na'r meini prawf a gynigir, gan ofyn am benderfyniad gan yr awdurdod Ileol (swyddog neu bwyllgor cynllunio) er mwyn caniatau'r newid defnydd o breswylfa barhaus i fusnes.

**9 Hydref 2012 — ymateb i ymgynghoriad ar: "Y DRETH GYNGOR A CHARTREFI GWAG HIRDYMOR YNG NGHYMRU"**

Ein prif bryder gyda'r ddeddfwriaeth arfaethedig yw ei fod ddim yn mynd digon pell er mwyn delio gydag ail gartrefi (Ile byddai'r gyfradd safonol o dreth yn parhau'n daladwy) a thai gwyliau (Ile mae lefel sylweddol is o dreth annomestig yn daladwy). Rydym wedi datgan sawl tro eisoes dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu er mwyn Ileihau'r amwyster a chreu diffiniadau addas ac yn rhoi'r grym i awdurdodau bilio (trwy drefniadau cynllunio a/neu drethiant Ileol) gategoreiddio eiddo o'r fath (C4).

Mae ardrawiad ail gartrefi yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd y gwahanol awdurdodau Ileol. Yn yr un modd, mae ffactorau sy'n effeithio'r gallu i werthu / osod eiddo gwag hefyd yn amrywio rhwng rhai ardaloedd o fewn ffiniau awdurdodau unigol (e.e. ardaloedd Abersoch a Blaenau Ffestiniog o fewn tiriogaeth Cyngor Gwynedd). Felly, byddwn yn cefnogi hyblygrwydd i awdurdodau Ileol fedru amrywio'r dreth ychwanegol rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol o'u hawdurdod (C7).

25 Chwefror 2013 - **POLISI LLYWODRAETH CYMRU AR DRETH CYNGOR, AIL GARTREFI A THAI GWYLIAU**

*Rydym wedi datgan sawl tro eisoes dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu er mwyn Ileihou'r amwyster a chreu diffiniadau addas ac yn rhoi'r grym i awdurdodau bilio (trwy drefniadau cynllunio a/neu drethiant Ileol) gategoreiddio eiddo o'r fath.*

*Wrth gyfIwyno rheoliadau i ganiatou codi treth uwch or gartrefi gwag heb gyfyngu'r howl i gategoreiddio eiddo fel ail gartref, neu fel busnes (4i gwyliau), does dim i rwystro perchennog t9 gwag yn medru rhoi dodrefn yn yr eiddo a dadlau nad yw'n wag!*

*Mae ardrawiad ail gartrefi yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd y gwahanol awdurdodau Ileol, ac yng Ngwynedd mae prinder Ileoedd i bobl fyw ynddynt, a'r defnydd o ail gartrefi yn gyrru'r prisiau i fyny."*

Rydych chi yn ymwybodol fod aelodau a swyddogion o Cyngor Gwynedd ac o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi codi'r mater hyn gyda Llywodraeth Cymru ar sawl achlysur.

**19 Fawrth 2014 — ymateb i Ymgynghoriad ar Ganfyddiadau'r Adroddiad ar Effaith Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010 (Papur yr IRRV)**

Siom sylweddol oedd canfod argymhellion / opsiynau gyda phob un o'r amrediad cul yma'n cynnig Ilacio'r prawf! Rhestraf isod yr opsiynau yn y drefn mae'r IRRV yn ffafrio fwyaf:

(1) Opsiwn 4 - Darparu cyfle i'r trethdalwr i gyrraedd y 70 niwrnod tros gyfnod o 5 mlynedd (tebyg i argymhellion WASCO).

(2) Opsiwn 1 - Caniatau y fiwyddyn orau o ran gosod a hynny o'r 3/5 mlynedd ddiwethaf.

(3) Opsiwn 5 - Eu bod yn bodloni'r prawf ar unrhyw fiwyddyn tros gyfnod rhestr brisio.

(4) Opsiwn 3 - Caniatau i drethdalwr ddewis unrhyw gyfnod o 12 mis tros y 5 mlynedd ddiwethaf.

(5) Opsiwn 2 - Defnyddio cyfartaledd tros y 3/5 mlynedd ddiwethaf.

**Nid oes yr un o'r opsiynau uchod yn agos i'r hyn fuasai'r Cyngor yn dymuno gweld. Mae pob un ohonynt yn llacio'r gofyn ac yn ymbellhau oddi wrth argymhellion blaenorol Cyngor Gwynedd.**

Yn sylfaenol 'rydym o'r farn fod y maen prawf presennol, sy'n caniatau trin eiddo fel busnes hyd yn oed pe bai heb ei osod am dros 9 mis o'r fiwyddyn, yn Rawer mwy hael na'r diffiniad synnwyr-cyffredin o "fusnes". Byddai unrhyw symudiad tuag at lacio'r rheol ymhellach yn dadwneud y gwelliannau wnaed i'r gyfundrefn mewn ymateb i bwysau gan Gyngor Gwynedd ac eraill dros nifer o flynyddoedd. **Byddai'r opsiynau gerbron yn annheg i drethdaiwyr eraill sy'n gorfod talu'r dreth gyngor yn llawn, yn ogystal ag i "wir" fusnesau twristiaeth sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi Ileol ac felly yn teilyngu triniaeth treth fwy ffafriol.**

Yn wir, pe byddai'r gofynion yn cael eu llacio mae'n debyg y byddai yna gategori arall o eiddo fyddai wedyn yn methu cydymffurfio air maen prawf o drwch blewyn, gan arwain at bwysau i lacio'r gofynion ymhellach fyth i gynnwys rheiny hefyd, ac o ganiyniad perygl o golli rheoiaeth ar y sefyllfa yn gyfan gwbl.

Yn hytrach na mynd ar y trywydd anghyfrifol yna, fel isafswm, credwn **dylid ymestyn y prawf o 70 diwrnod i 105 diwrnod o wir osod.** Buasai hynny yn cyd-fynd a gofynion busnesau mewn perthynas a threth yr HMRC; cangen o'r Adran honno o'r Llywodraeth yw'r Asiantaeth Brisio ac mae'r cyfle i gydweithio a chysoni gwybodaeth rhwng un uned a'r Hall yn Iled amlwg ac yn un y dylid manteisio arno.

Ymhellach, fel yn y gorffennol, pwysir unwaith yn rhagor am addasu rheoiaeth cynllunio fei bod angen derbyn caniatad i addasu defnydd eiddo i ail gartref neu eiddo gwyiiau hunan-ddarpar, ac i greu cyswIlt rhwng y gyfundrefn trethi a'r defnydd ganiateir yn y drefn cynllunio er mwyn cael gwell rheoiaeth ar y maes yn ei gyfanrwydd.

**13 Awst 2014 - RHESTRU EIDDO AR GYFER TRETH CYNGOR NEU TRETH ANNOMESTIG**

Rwy'n bryderus (er ehangu'r prawf gan gyfiwyno 70 niwrnod gosod yn 2010) nad yw'r prawf cyfredol yn ddigonol er mwyn osgoi amhriodoideb sylweddol wrth ddosbarthu eiddo.

"Ein prif bryder gyda'r ddeddfwriaeth arfaethedig yw ei fod ddim yn mynd digon pell er mwyn delio gydag ail gartrefi (Ile byddai'r gyfradd safonol o dreth yn parhau'n daladwy) a thai gwyiiau (Ile mae lefel sylweddol is o dreth annomestig yn daladwy). Rydym wedi datgan sawl tro eisoes dyiai Llywodraeth Cymru ddeddfu er mwyn Ileihau'r amwyster a chreu diffiniadau addas ac yn rhoi'r grym i awdurdodau bilio (trwy drefniadau cynllunio a/neu drethiant Ileol) gategoreiddio eiddo o'r fath."

"Dyiai'r pier i godi trethi cyngor uwch ar ail gartrefi gynnwys mesurau i wella a thynhau'r meini prawf yng nghyswllt trethiant Ilety gwyliau hunanarlwyo. Rydym yn fodlon lawn i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddylunio pecyn o fesurau posib yn cynnwys, o bosib, tynhau'r amodau presennol a/neu gysylltu'r amodau a deddfwriaeth cynllunio.

"Yn seiliedig ar y dystiolaeth uchod, credwn yn gryf y byddai cyflwyno'r pwerau hyn ar y cyd air pwerau sydd eisoes wedi'u cynllunio yng nghyswllt eiddo gwag — yn rhoi cynghorau mewn gwell sefyllfa i weithredu mesurau Iliniaru a allai gyfrannu'n bositif tuag at fudd cymunedau. Credwn hefyd eu bod yn mynd law yn Ilaw a nod Bil Cenedlaethau'r Dyfodol sef diogelu dyfodol cymunedau gan sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod rhag y pwysau sy'n bygwth eu hyfywdra a'u goroesiad."

"... fel isafswm, credwn dylid ymestyn y prawf o 70 diwrnod i 105 diwrnod o wir osod. Buasai hynny yn cyd-fynd a gofynion busnesau mewn perthynas a threth yr HMRC; cangen o'r Adran honno o'r Llywodraeth yw'r Asiantaeth Brisio ac mae'r cyfle i gydweithio a chysoni gwybodaeth rhwng un uned a'r Ilall yn lied amlwg ac yn un y dylid manteisio arno.

**Aelod Cabinet Adnoddau**
**Cabinet Member Resources**
Y Cynghorydd / Councillor Peredur Jenkins

Gofynnwch am/Ask for: Dafydd L Edwards
☎(01286) 682668
Ffacs/Fax: (01286) 678962
✉DafyddLE@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref: PJ/DLE/AJ
Eich Cyf / Your Ref:

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Paul Bryant
Is-adran Cyllid a Pherfformiad Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

19 Mawrth 2014

Annwyl Mr Bryant,

**YMGYNGHORIAD AR GANFYDDIADAU'R ADRODDIAD AR EFFAITH GORCHYMYN ARDRETHU ANNOMESTIG (DIFFINIAD 0 EIDDO DOMESTIG) (CYMRU) 2010**

Diolch yn gyntaf am y cyfle i sylwebu ar yr hyn gyfeirir ato fel Ymgynghoriad ar ganfyddiadau'r adroddiad ar Effaith Gorchymyn Ardreth Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010. Cyflwynir y llythyr hwn fel ateb swyddogol ar ran Cyngor Gwynedd.

**`Rydym yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw addasiad(au) fel yr arfaethedig sy'n ymddangos yn dadwneud gwelliannau lwyddwyd i'w gwneud i'r drefn wedi pwysau parhaus Cyngor Gwynedd a chynghorau eraill tros gyfnod hir.**

Cyn symud I ymateb yn Hawn mae'n rhaid nodi pryder am ddiffyg cydbwysedd cyffredinol yr ymgynghoriad. Mae'r Cyngor yn Hawn werthfawrogi cyfraniad aliweddol eiddo hunan-ddarpar i'r economi, ac yn cefnogi parhau ymdrin a hwy fel busnesau yn y gyfundrefn drethu. **0** dan drefn o'r fath mae rhaid cael maen prawf ar gyfer gwahaniaethu rhwng busnesau 'go-iawn' (sy'n cyfrannu at dwristiaeth a'r economi leol dros gyfran helaeth o'r fiwyddyn) ac eiddo sydd i bob pwrpas yn dai, and yn cael eu gosod fel llety gwyiiau am gyfran fach o'r flwyddyn. Mae'n anochel - beth bynnag yw'r maen prawf - fod rhai eiddo yn mynd i'w fethu o drwch blewyn, ac yn anochel hefyd y byddai perchnogion yr eiddo hynny yn dymuno llacio'r maen prawf. Fodd bynnag, nid yw hynny (na'r ffaith ei fod wedi "denu sylw'r cyfryngau" - chwedl y papur ymgynghorol) yn rheswm digonol ynddo'i hun dros lacio'r gofynion. Dylid ystyried yr effeithiau ehangach a'r cyfiawnhad dros gyflwyno'r maen prawf yn y lle cyntaf.

Mae'r ymateb Hawn isod yn cyfeirio at ddau ymgynghoriad blaenorol gan Lywodraeth Cymru (ac ymatebion Cyngor Gwynedd bryd hynny) sydd unai yn gwbl ymwneud 5'r papur yma neu pherthynas annatod a'r egwyddorion dan sylw.

**Cefndir - sefyllfa trethi hyd at 2010**

Fel sy'n hysbys, mae Cyngor Gwynedd yn sir sydd a 5,600 o dai sydd wedi'u dynodi yn "prescribed classes" o Adran 12 o Ddeddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992, y cyfeirir atynt yn llac fel 'ail gartrefi'.

Ers bodolaeth Cyngor Gwynedd yn 1996 gwnaethpwyd penderfyniad i godi treth cyngor Hawn ar yr ail gartrefi (parhad oedd hynny mewn gwirionedd a'r drefn fabwysiadwyd gan y cynghorau dosbarth cyn ad-drefnu). Dros y blynyddoedd bu pryder wrth i eiddo symud o un gyfundrefn trethi i'r llall (o dreth cyngor i dreth fusnes), a'r effaith negyddol ar y sylfaen drethiannol a'r gyllideb leol.

Ar sail hyn, ac wrth gwrs effaith niweidiol gormodedd o ail gartrefi ar argaeledd stoc tai lleol, gwnaethpwyd pob ymgais ar lefel aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor hwn i gael tynhau'r meini prawf a ddefnyddiwyd gan yr Asiantaeth Brisio. Roedd mantais ariannol amlwg i drethdalwr ymgeisio i symud o'r dreth cyngor i dreth fusnes, a thystiolaeth fod hynny yn digwydd yn barhaus tros y blynyddoedd. Ymestynnwyd rhyddhad trethi busnesau bychain yn 2010 (i ryddhad (lawn os yw'r gwerth trethiannol o dan £6,000), gan amlygu fwyfwy y fantais o drosglwyddo, ac fel ymateb i hynny cyhoeddwyd y papur ymgynghorol canlynol.

**Papur Ymgynghorol Diwygio'r Meini Prawf i Bennu Atebolrwydd Trethi Annomestig ar Eiddo Masnachol ar Osod**

Yn 2009 cyflwynwyd y papur uchod gan Lywodraeth Cymru gan ymgynghori ar ychwanegu 70 diwrnod o wir osod eiddo i'r meini prawf. 'Roedd ymateb Cyngor Gwynedd bryd hynny yn croesawu'r datblygiad yma fel gwelliant i'r prawf cynharach, and yn dadlau ei fod yn parhau'n annigonol o ran cyfnod, gan hefyd ddatgan y dylid cyplysu'r maen prawf gyda gwell rheolaeth cynllunio ar newid defnydd eiddo. Roedd elfennau eraill o fewn ein ymateb, gan gynnwys yr angen i amlygu perthynas rhwng y meini prawf a rheoliadau treth incwm.

Cyflwynwyd y newid uchod (70 diwmod o wir osod eiddo) ar ffurf rheoliadau yn effeithiol o Ebrill 2010. Gwyddom fod tynhau'r meini prawf hyn yn 2010 wedi arwain at adolygu manwi a fwy tebyg i beth fuasai'r Cyngor yn dymuno. Gweler o'r tab/ isod y niter eiddo ddaru drosglwyddo yn 61 i'r dreth cyngor gyda'r angen i ddarparu tystiolaeth gosod i'r Asiantaeth Brisio.

| (Hydref - Hydref) | Atodlenni'r Asiantaeth | Treth Cyngor i Dreth Busnes | Treth Busnes i Treth Cyngor | Coiled Net |
|---|---|---|---|---|
| **2010/11** | 276 - 322 | 84 | 81 | 3 |
| **2011/12** | 323 - 380 | 119 | 78 | 41 |
| **2012/13** | 381 - 432 | 81 | 28 | 53 |
| | | | | |
| **Cyfanswm:** | | 284 | 187 | 97 |

**Ymgynghoriad ar Bwerau Disgresiwn i Awdurdodau Lleol i Gynyddu Treth Cyngor ar Ail Gartrefi**

Mae cyswllt amlwg rhwng yr ymgynghoriad diweddar uchod (Hydref 2013) a'r un cyfredol, oherwydd bod y gallu i weithredu unrhyw bremiwm ar ail gartrefi yn ddibynnol ar gryfder a phendantrwydd y meini prawf ar gyfer gwahaniaethu rhwng ail gartrefi ac eiddo busnes.

'Roedd ymateb Cyngor Gwynedd yn darparu manylion cynhwysfawr, ystadegol am effaith ail gartrefi ar fforddiadwyedd stoc tai, ar gymunedau a'u cynaladwyedd, ar fusnesau, ayb, ac ofer fuasai dyblygu hynny fan hyn. Roedd ein ymateb yn argymell cyflwyno'r pier i godi premiwm ar ail gartrefi er mwyn cyfrannu at Ieddfu rhai o'r problemau yma, ond yn nodi hefyd y dylid tynhau'r meini prawf presennol yng nghyswltt Ilety gwyliau, er mwyn osgoi'r posibilrwydd y gallai perchnogion osgoi'r dreth drwy osod eu heiddo am ran fach o'r flwyddyn.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chasgliadau yngl9n a hyn eto, ond 'rydym yn bryderus y gallai penderfyniad i lacio'r maen prawf treth fusnes danseilio'r broses o benderfynu ar y ffordd ymlaen o ran gosod premiwm ar ail gartrefi, drwy ei wneud yn ymarferol anodd i osod premiwm p'run bynnag.

**Yr Ymgynghoriad yma ar ganfyddiadau adroddiad yr IRRV ar Effaith Gorchymyn Ardreth Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010**

Ar y sail y bu i Gyngor Gwynedd ers tro bellach rannu pryderon gan bwyso ar Lywodraeth Cymru i dynhau'r drefn sydd ohoni, a hynny ar sail nifer o resymau a ffactorau, nid syndod yw i ni edrych 'mlaen at ddarganfyddiadau'r IRRV gan ddisgwyl canlyniadau fuasai'n gwarchod ymhellach y drefn treth cyngor. Rydym yn hynod siomedig yn adroddiad yr IRRV a dweud y Ileiaf. Yn anffodus ni welwn unrhyw agwedd ffafriol i'r adolygiad o bersbectif trethiant priodol ac effeithiol.

Cyflwynir y ddogfen yn gyntaf gan y Gweinidogion fel rhywbeth oedd angen ymgynghori arno wedi beirniadaeth o'r drefn gan fyd busnes, twristiaeth, ayb. Er yn cyfeirio i "tax base was being eroded" fel sail i symud i dynhau y prawf yn SI 2010 (cyfiwyno'r 70 diwrnod), ymddengys mai pwysau o'r diwydiant ymwelwyr yw gwir sail yr ymgynghoriad yma.

**Adroddiad yr IRRV ei hun**

Nodir mewn gwahanol rannau i awdurdod Ileol awgrymu nad oedd 70 diwmod yn ddigonol: *"there needed to be a strategic coherence between policies ... not acceptable to encourage owners of residential housing to take such property out of the market" / "the responses from Gwynedd in particular reveal a desire to make qualification more rigorous".* Er hynny, cyfeiriad yn unig geir i'n safbwynt ac mae agwedd drwy'r adroddiad o blaid ystwytho'r meini prawf, er hwylustod i berchnogion eiddo a'r Asiantaeth Brisio, yn hytrach nac angen i dynhau er cyfiawnder.

**Yr Opsiynau**

Siom syiweddol oedd canfod argymhellion / opsiynau gyda phob un o'r amrediad cul yma'n cynnig Ilacio'r prawf! Rhestraf isod yr opsiynau yn y drefn mae'r IRRV yn ffafrio fwyaf:

(1) Opsiwn 4 - Darparu cyfle i'r trethdalwr i gyrraedd y 70 niwrnod tros gyfnod o 5 mlynedd (tebyg i argymhellion WASCO).
(2) Opsiwn 1 - Caniatau y flwyddyn orau o ran gosod a hynny o'r 3/5 mlynedd ddiwethaf.
(3) Opsiwn 5 - Eu bod yn bodloni'r prawf ar unrhyw flwyddyn tros gyfnod rhestr brisio.
(4) Opsiwn 3 - Caniatau i drethdalwr ddewis unrhyw gyfnod o 12 mis tros y 5 mlynedd ddiwethaf.
(5) Opsiwn 2 - Defnyddio cyfartaledd tros y 3/5 mlynedd ddiwethaf.

**Nid oes yr un o'r opsiynau uchod yn agos i'r hyn fuasal'r Cyngor yn dymuno gweld. Mae pob un ohonynt yn Ilacio'r gofyn ac yn ymbellhau oddi wrth argymhellion blaenorol Cyngor Gwynedd.**


Yn sylfaenol 'rydym o'r farn fod y maen prawf presennol, sy'n caniatau trin eiddo fel busnes hyd yn oed pe bai heb ei osod am dros 9 mis o'r fiwyddyn, yn llawer mwy hael na'r diffiniad synnwyr-cyffredin o "fusnes". Byddai unrhyw symudiad tuag at lacio'r rheol ymhellach yn dadwneud y gwelliannau wnaed i'r gyfundrefn mewn ymateb i bwysau gan Gyngor Gwynedd ac eraill dros nifer o flynyddoedd. **Byddai'r opsiynau gerbron yn annheg i drethdalwyr eraill sy'n gorfod talu'r dreth gyngor yn Hawn, *yn* ogystal ag i "wir" fusnesau twristiaeth sy'n gwneud cyfraniad syiweddol i'r economi lleol ac felly yn teilyngu triniaeth treth fwy ffafriol.**

Yn wir, pe byddai'r gofynion yn cael eu llacio mae'n debyg y byddai yna gategori arall o eiddo fyddai wedyn yn methu cydymffurfio a'r maen prawf o drwch blewyn, gan arwain at bwysau i lacio'r gofynion ymhellach fyth i gynnwys rheiny hefyd, ac o ganlyniad perygl o golli rheolaeth ar y sefyllfa yn gyfan gwbl.

Yn hytrach na mynd ar y trywydd anghyfrifol yna, fel isafswm, credwn **dylid ymestyn y prawf o 70 diwrnod i 105 diwrnod o wir osod.** Buasai hynny yn cyd-fynd a gofynion busnesau mewn perthynas a threth yr HMRC; cangen o'r Adran honno o'r Llywodraeth yw'r Asiantaeth Brisio ac mae'r cyfle i gydweithio a chysoni gwybodaeth rhwng un uned a'r llall yn lied amlwg ac yn un y dylid manteisio arno.

Ymhellach, fel yn y gorffennol, pwysir unwaith yn rhagor am addasu rheolaeth cynllunio fel bod angen derbyn caniatad i addasu defnydd eiddo i ail gartref neu eiddo gwyliau hunan-ddarpar, ac i greu cyswllt rhwng y gyfundrefn trethi a'r defnydd ganiateir yn y drefn cynllunioer mwyn cael gwell rheolaeth ar y maes yn ei gyfanrwydd.

Yn gywir,



**PEREDUR JENKINS**
**AELOD CABINET ADNODDAU**

Nifer yr eiddo sydd wedi eu dynodi fel ail gartrefi at bwrpasau Treth Cyngor, fesul Cymuned:


| Cymuned | Treth Cyngor - Ail Gartrefi | | | | Trethi Annomestig |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dos. A | Dos. B | Cyfanswm | | Unedau Hunan Gynhaliol |
| ABERDARON | 0 | 137 | 137 | | 34 |
| BEDDGELERT | 0 | 80 | 80 | | 40 |
| BOTWNNOG | 0 | 45 | 45 | | 9 |
| BUAN | 0 | 33 | 33 | | 4 |
| CLYNNOG | 1 | 59 | 60 | | 13 |
| CRICCIETH | 0 | 90 | 90 | | 43 |
| DOLBENMAEN | 0 | 68 | 68 | | 26 |
| LLANAELHAEARN | 0 | 41 | 41 | | 3 |
| LLANBEDROG | 25 | 159 | 184 | | 11 |
| LLANENGAN | 2 | 687 | 689 | | 47 |
| LLANNOR | 0 | 37 | 37 | | 20 |
| LLANYSTUMDWY | 12 | 52 | 64 | | 35 |
| NEFYN | 13 | 284 | 297 | | 29 |
| PISTYLL | 0 | 50 | 50 | | 15 |
| PORTHMADOG | 18 | 311 | 329 | | 65 |
| PWLLHELI | 0 | 79 | 79 | | 11 |
| TUDWEILIOG | 0 | 68 | 68 | | 12 |
| BANGOR | 0 | 47 | 47 | | 3 |
| CAERNARFON | 0 | 30 | 30 | | 9 |
| BETHESDA | 0 | 22 | 22 | | 3 |
| BETWS GARMON | 0 | 31 | 31 | | 6 |
| LLANBERIS | 2 | 41 | 43 | | 4 |
| LLANDDEINIOLEN | 0 | 50 | 50 | | 12 |
| LLANDWROG | 0 | 49 | 49 | | 11 |
| BONTNEWYDD | 1 | 5 | 6 | | 8 |
| Y FELINHELI | 0 | 85 | 85 | | 4 |
| LLANLLYFNI | 0 | 57 | 57 | | 4 |
| LLANRUG | 157 | 25 | 182 | | 20 |
| LLANWNDA | 12 | 21 | 33 | | 2 |
| WAUNFAWR | 25 | 19 | 44 | | 3 |
| ABER | 0 | 5 | 5 | | 0 |
| LLANDYGAI | 0 | 24 | 24 | | 3 |
| LLANLLECHID | 0 | 8 | 8 | | 2 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| PENTIR | 0 | 21 | 21 | | 19 |
| BALA | 0 | 21 | 21 | | 7 |
| LLANDDERFEL | 0 | 34 | 34 | | 17 |
| LLANGYWAIR | 0 | 16 | 16 | | 3 |
| LLANUWCHLYN | 0 | 21 | 21 | | 7 |
| LLANYCIL | 0 | 13 | 13 | | 10 |
| TYWYN | 18 | 203 | 221 | | 16 |
| BRYNCRUG | 42 | 23 | 65 | | 7 |
| ABERDYFI | 57 | 322 | 379 | | 48 |
| ABERMAW | 1 | 150 | 151 | | 24 |
| DOLGELLAU | 0 | 81 | 81 | | 27 |
| BRITHDIR & LLANFACHRETH | 0 | 60 | 60 | | 21 |
| Y GANLLWYD | 0 | 10 | 10 | | 7 |
| LLANEGRYN | 0 | 16 | 16 | | 4 |
| LLANELLTYD | 0 | 37 | 37 | | 12 |
| DYFFRYN ARDUDWY | 37 | 87 | 124 | | 22 |
| LLANFIHANGEL Y PENNANT | 1 | 57 | 58 | | 6 |
| ARTHOG | 4 | 144 | 148 | | 17 |
| LLANGELYNIN | 0 | 50 | 50 | | 16 |
| MAWDDWY | 5 | 43 | 48 | | 15 |
| PENNAL | 18 | 43 | 61 | | 7 |
| CORRIS | 12 | 46 | 58 | | 0 |
| FFESTINIOG | 0 | 152 | 152 | | 26 |
| LLANBEDR | 2 | 41 | 43 | | 22 |
| HARLECH | 0 | 137 | 137 | | 15 |
| LLANFAIR | 0 | 68 | 68 | | 10 |
| LLANFROTHEN | 0 | 16 | 16 | | 6 |
| MAENTWROG | 0 | 44 | 44 | | 7 |
| PENRHYNDEUDRAETH | 0 | 35 | 35 | | 10 |
| TALSARNAU | 0 | 51 | 51 | | 10 |
| TRAWSFYNYDD | 292 | 33 | 325 | | 14 |
| **CYFANSWM** | **757** | **4874** | **5631** | | **943** |

**Nifer yr unedau domestig sydd wedi eu colli o gyfundrefn Treth Cyngor i'r gyfundrefn Trethi Annomestig ers 1 Ebrill 2006**

| Blwyddyn Arianol | Cyfanswm Blynyddol |
|---|---|
| 2006/07 | 78 |
| 2007/08 | 86 |
| 2008/09 | 60 |
| 2009/10 | 52 |
| 2010/11 | 40 |
| 2011/12 | 106 |
| 2012/13 | 110 |
| 2013/14 | 82 |
| 2014/15 | 188 |
| 2015/16 | 166 |
| **Cyfanswm dros y cyfnod** | **968** |

***CYFANSYMIAU BLYNYDDOL***



**Ymchwiliad Craffu – Tai Gwyliau a Threthi**
**Nodiadau Cyfarfod 13 Hydref, 2015**

Presennol: Y Cynghorwyr:- Trevor Edwards, Aled Evans, Jason Humphreys, Eirwyn Williams (Cadeirydd), John Wyn Williams ac R.H.Wyn Williams.

Swyddogion:- Dewi Morgan (Uwch Reolwr – Refeniw a Risg), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Geraint Evans (Uwch Swyddog Trethi Annomestig) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Hefyd:- Richie Roberts, Prif Brisiwr Cymru (ar gyfer eitem 1 isod).

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Dyfrig Jones.

| | Eitem |
|---|---|
| 1. | **Trafodaeth gyda Phrif Brisiwr Cymru** |
| | Croesawyd Richie Roberts, Prif Brisiwr Cymru, i'r cyfarfod.<br><br>Esboniwyd y cyd-destun, a gwahoddwyd Prif Brisiwr Cymru i ymateb i gyfres o gwestiynau gan yr aelodau, sef:-<br><br>*1. Pa mor gadarn yw'r dystiolaeth sy'n dderbyniol i Swyddfa'r Prisiwr er mwyn caniatáu trosglwyddiad o fod yn eiddo domestig i fod yn lety gwyliau?*<br><br>Mae'n rhaid i unrhyw drosglwyddiad fodloni'r meini prawf statudol. Rydym yn disgwyl gweld bwriad i osod eiddo am 140 diwrnod yn ystod y flwyddyn ddilynol, ond rhaid inni dderbyn gair y perchnogion fel tystiolaeth; mae bron yn amhosib cael tystiolaeth gadarn o 'fwriad'. Fodd bynnag, rydym yn gwirio a yw'r eiddo ar wefan gosod dilys ac a oes trefniadau i'w osod wedi'u derbyn. Rydym yn gwirio a gafodd yr eiddo ei osod yn fasnachol am 70 diwrnod yn y 12 mis calendr cyn yr asesiad. Rydym hefyd yn anfon ffurflen statudol, gyda chosbau os na chaiff ei llenwi'n gywir. Rhaid i berchnogion yr eiddo ddatgan yr incwm a'r costau o'r eiddo a byddwn yn eu dadansoddi i sicrhau ein bod yn fodlon. Ni fyddwn yn trosglwyddo eiddo heb gynnal y profion hyn. Pan dderbyniwn gais, byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd gynnal rhai gwiriadau cefndirol i sicrhau fod hwn yn fusnes dilys. Cyfrifoldeb y perchnogion yw llofnodi'r ddogfen gyfreithiol hon fel datganiad cywir am eu sefyllfa (yn yr un modd â hawliadau am fudd-dal ac ati).<br><br>*2. Mae'r canllawiau yn dweud bod yn rhaid i drethdalwyr wedyn gyflenwi tystiolaeth o argaeledd a gosodiadau gwirioneddol, ac incwm* |

| | |
|---|---|
| | *sy'n deillio o osodiadau, bob blwyddyn. Pa dystiolaeth sy'n cael ei ddarparu gan y trethdalwr i gefnogi'r ffigyrau hyn? Pa adnoddau sydd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio i wirio'r dystiolaeth yma?*<br><br>Mae'n rhaid llenwi'r ffurflen statudol sy'n hir ac yn fanwl, ac ni fyddwn yn symud unrhyw eiddo i Ardrethu Annomestig (NDR) heb y ffurflen hon. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn brin, sy'n golygu ein bod yn gorfod gweithio yn fwy effeithlon. Yn ymarferol nid yw'n ofynnol i drethdalwyr gyflwyno tystiolaeth eu bod yn cydymffurfio yn flynyddol, ond mae gofyniad cyfreithiol clir yn bodoli i berchnogion adrodd am unrhyw newidiadau. Mae'r holl berchnogion yn cael eu hysbysu am hyn wrth iddynt wneud cais am drosglwyddiad. Rwy'n cyfeirio eto at gyfrifoldeb y perchnogion mewn perthynas â'r datganiad cyfreithiol.<br><br>*3. Mae gofyniad statudol ar gyfer ailbrisio bob 5 mlynedd, sy'n golygu bod y manylion yn cael eu ceisio ar gyfer yr ailbrisio cyffredinol hwn, ond a ydych wedi ymrwymo i adolygu rheolaidd (yn flynyddol yn ddelfrydol) o'r achosion hyn?*<br><br>Nid oes gennym adnoddau i gynnal gwiriadau blynyddol, ond eto mae'r cyfrifoldeb ar berchennog yr eiddo i ddatgan unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a allai olygu nad ydynt yn gymwys am NDR.<br><br>*4. Oes gan y Cyngor unrhyw hawl apêl pan fydd Eiddo yn trosglwyddo?*<br><br>Atebwyd y cwestiwn hwn wrth ateb cwestiwn 1, yn y cyfeiriad at y cydweithio sy'n digwydd wrth gynnal gwiriadau ar eiddo sy'n trosglwyddo, gan fod symudiadau yn digwydd y naill ffordd a'r llall.<br><br>*5. Newidiodd Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010 y diffiniad o eiddo sydd ddim yn eiddo domestig at bwrpasau trethiant. Pa effaith gafodd y newidiadau hyn ar gyflymder y trosglwyddiad?*<br><br>Y prif wahaniaeth a ddigwyddodd yn 2010 yng Nghymru yw fod yn rhaid i'r eiddo fod wedi'i osod cyn ei drosglwyddo. Yn flaenorol (ac fel sy'n parhau yn Lloegr), yr oedd bwriad i osod yn ystod y flwyddyn i ddod yn ddigonol.<br><br>Gofynnwyd a oedd awdurdodau lleol eraill wedi codi'r un materion gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VAO), ac atebodd y Prisiwr mai Cyngor Gwynedd yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedi adrodd bod trosglwyddo eiddo hunanddarpar yn fater o bryder.<br><br>*6. Os bydd y Cyngor yn darganfod eiddo sydd wedi ei restru fel llety gwyliau ond ei fod yn amau nad yw yn cydymffurfio â'r diffiniad* |

*cyfreithiol, a fyddai Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn barod i weithredu i'w drosglwyddo yn ôl i fod yn annedd ddomestig?*

Nid oes gennym adnoddau digonol i fynd ati ein hunain i chwilio am y newidiadau hyn, ond os bydd unrhyw un yn rhoi gwybod i ni, boed y Cyngor neu unrhyw un arall, byddwn yn ymchwilio i ganfod y gwirionedd a gweithredu yn unol â hynny, gan weithio gyda Chyngor Gwynedd bob amser.

*7. Mae gan y Cyngor ffigyrau i ddangos sawl eiddo y mae Swyddfa'r Prisiwr wedi caniatáu eu trosglwyddo bob blwyddyn. Oes ffigyrau ar gael am y nifer y mae Swyddfa'r Prisiwr wedi eu gwrthod bob blwyddyn? Byddai'r ffigyrau hyn yn gymorth i ddangos os mai mwy o berchnogion eiddo sy'n gofyn am drosglwyddiad erbyn hyn, neu os mai Swyddfa'r Prisiwr sy'n fwy parod i'w caniatáu (e.e. oherwydd fod torri adnoddau yn golygu nad oes modd iddynt ymchwilio mor drwyadl).*

Nac oes, does gennym ddim ffigurau hollol gywir. O'ch safbwynt chi, mae cynnydd net yn nifer yr eiddo sy'n trosglwyddo'r ffordd anghywir. Ar hyn o bryd credaf fod oddeutu 850 o eiddo hunanddarpar wedi trosglwyddo i fod yn NDR. Fe wna i gadarnhau ar ôl imi wirio'r union ffigurau.

*8. Mae gan y mwyafrif helaeth o eiddo sydd wedi trosglwyddo i ardrethi busnes werth ardrethol gymharol fach ac fel y cyfryw maent yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi i fusnesau bach o 100%. Rydym wedi gweld bod rhai o'r gosodiadau yn ystod y cyfnod yn gallu gwireddu incwm wythnosol o £1,000 ac eto mae'r gwerth ardrethol yn ymddangos i aelodau fel petae'n disgyn yn fyr iawn o'r lefel sy'n gymesur â'r incwm am y cyfnod hwnnw. Yn fras pa ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth gyfrifo gwerth ardrethol?*

Cyfrifir y gwerth ardrethol ar amcangyfrif o'r incwm adeg y trosglwyddo, ac mae'n cael ei bennu tan yr ailbrisiad cyffredinol nesaf. Bydd yr ailbrisio nesaf yn digwydd yn 2017.

Yn ôl y rheoliadau, rhoddir rhyddhad ardrethol i fusnesau bach, ac ni allwn wrthod na gwahaniaethu rhwng un anheddiad ac un arall.

*9. Oes gan y Cyngor unrhyw bwerau "plismona"? Sut byddai Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn edrych ar ymarferiad gan y Cyngor i atgoffa pob eiddo sydd wedi trosglwyddo i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r VOA?*

Rydym yn ddibynnol ar gael perthynas waith dda gyda'r awdurdodau bilio. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad os ydych yn dymuno

| | |
|---|---|
| | cynnal ymarferiad atgoffa, ond nid oes gan y Cyngor unrhyw bwerau "plismona". Dim ond atgoffa perchnogion i adrodd am unrhyw newidiadau y gall y Cyngor ei wneud.<br><br>*10. <u>Mae llawer o'r llwyddiant i gynnal sylfaen cywir ar gyfer trethi lleol yn dibynnu ar rannu gwybodaeth yn dda. Mae'r cwestiwn yma yn ddeublyg:</u>*<br><br>*i. <u>Mae wedi cael ei awgrymu y byddai hyrwyddo perthynas agos ag HMRC gan y VOA yn annog cyflwyno data o ansawdd er mwyn sicrhau gwerth ardrethol cywir. A yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio (sy'n adain o'r HMRC) yn mynd ati i rannu a chymharu wybodaeth a gyflwynwyd gyda'u chydweithwyr yn HMRC.</u>*<br><br>Byddai gwella'r cyfathrebu yn ein cynorthwyo – rhan o'r broblem yw pam ein bod wedi casglu'r wybodaeth yn y lle cyntaf.<br><br>*ii. <u>Mae gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Cyngor ill dau nod gyffredin o gyflawni Rhestrau Prisio cywir, a biliau cywir yn deillio o hynny. Fodd bynnag, awgrymwyd i'r Gweithgor fod rhannu data ar hyn o bryd yn golygu Cynghorau yn anfon gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (e.e. holl fanylion eiddo sydd ar fin trosglwyddo), ac nad yw'r VOA yn dueddol o gydgyfnewid. Heb os bydd yna reswm da pam nad yw'r Asiantaeth Brisio mewn sefyllfa i wneud hynny a byddwn yn ddiolchgar am eich sylwadau?</u>*<br><br>Mae'r cydweithio rhwng yr Asiantaeth Brisio a Chyngor Gwynedd yn arbennig o dda, ac mae'r berthynas wedi datblygu ymhellach na chynghorau eraill. |
| | Diolchwyd i'r Prif Brisiwr am ateb cwestiynau'r aelodau. |

**Ymchwiliad Craffu – Tai Gwyliau a Threthi**
**Nodiadau Cyfarfod 9 Rhagfyr, 2015**

Presennol: Y Cynghorwyr:- Trevor Edwards, Aled Evans, John Wyn Williams ac R.H.Wyn Williams (a ddewiswyd i gadeirio yn absenoldeb y Cadeirydd).

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Emyr Edwards (Rheolwr Polisi Strategol Adnoddau), Euryl Lloyd Jones (Rheolwr Trethi), Nia Davies (Rheolwr Cynllunio - Polisi), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Hefyd yn bresennol:- Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Jason Humphreys, Dyfrig Jones ac Eirwyn Williams.

Trafodwyd eitemau 4 a 5 ar y rhaglen yn gyntaf, er mwyn rhyddhau rhai swyddogion.

| | Eitem |
|---|---|
| 3. | **Canlyniadau gwaith ymchwil i'r sefyllfa mewn cynghorau eraill** |
| | Derbyniwyd cyflwyniad byr gan y Rheolwr Polisi Strategol Adnoddau ar ganlyniadau ei waith ymchwil i'r sefyllfa mewn cynghorau eraill, gan gynnwys Lloegr, i weld a yw'r un problemau yn bodoli ac i weld oes unrhyw wersi i'w dysgu ganddynt.<br><br>Dosbarthwyd tabl yn rhestru'r 20 cyngor drwy Gymru a Lloegr sydd â'r nifer uchaf o ail gartrefi fel canran o dai trethadwy, ac felly'n debygol o fod yn debyg i Wynedd o ran proffil ail gartrefi.<br><br>Nododd y Rheolwr Polisi Strategol Adnoddau:-<br>• Heblaw am "City of London" (sef rhan penodol o ganol Llundain) ac Ynysoedd Scilly, mai Gwynedd oedd yr uchaf drwy Gymru a Lloegr o ran y gyfran o ail gartrefi.<br>• Bod y sefyllfa wedi ei grynhoi mewn ardaloedd penodol o Wynedd, gyda nifer llawer uwch o ail gartrefi mewn rhai rhannau o'r sir.<br>• Bod Cumbria wedi llunio adroddiad am y sefyllfa tai haf yn gyffredinol, oedd yn cyfeirio at y ffaith ei bod yn rhy hawdd trosglwyddo o'r gyfundrefn dreth gyngor i'r gyfundrefn dreth fusnes, ond tystiolaeth anecdotaidd ydoedd ac nid oedd yna unrhyw beth meintiol ar gael sy'n cadarnhau'r union sefyllfa yn Lloegr.<br>• Bod y "Taylor Review" ar gyfer y llywodraeth Lafur ddiwethaf wedi edrych ar broblemau ardaloedd gwledig, ac er iddynt sôn bod y trosglwyddiadau o'r naill gyfundrefn i'r llall yn digwydd, 'roedd hynny'n seiliedig ar brofiad un ardal (Cernyw) yn hytrach na thystiolaeth ehangach. Fodd bynnag, 'roeddent wedi awgrymu y byddai'r datrysiad i'w gael drwy'r cyfundrefnau cynllunio, yn hytrach na'r drefn drethi.<br><br>Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd:- |

| | |
|---|---|
| | • Y codwyd y mater hwn gyda chynghorau eraill yn flaenorol, ac er na chafwyd unrhyw gefnogaeth ganddynt, y gallai fod yn fuddiol ail-agor y drafodaeth honno.<br>• Y byddai caniatáu ychydig o ddisgownt treth cyngor ar ail gartrefi yn ei gwneud yn haws cadw golwg ar nifer yr anheddau sy'n trosglwyddo i'r gyfundrefn treth fusnes.<br>• Mae'n debygol y bydd modd codi mwy na 100% o dreth ar ail gartrefi yn y dyfodol, ond 'roedd peryg' y gallai hynny annog mwy o bobl i drosglwyddo i'r gyfundrefn treth fusnes.<br>• Bod y Cyngor hwn wedi pwyso y dylai perchnogion orfod cyflwyno tystiolaeth flynyddol bod eiddo wedi'i osod yn fasnachol fel llety hunan ddarpar am 70 diwrnod yn y 12 mis calendr blaenorol, ond 'roedd y llywodraeth yn dod dan bwysau hefyd gan fudiadau sy'n dymuno llacio'r rheolau, a byddai hynny'n ei gwneud yn rhy hawdd i bobl drosglwyddo i'r gyfundrefn treth fusnes.<br><br><u>Camau Gweithredu</u><br><br>• Cysylltu â 3-4 awdurdod arall yng Nghymru sy'n ymdebygu i Wynedd o ran proffil ail gartrefi, e.e. Môn, Ceredigion a Phenfro, i godi eu hymwybyddiaeth ynglŷn â'r broblem ac i geisio ail-agor y drafodaeth (*y cam gweithredu hwn i'w gyplysu gyda'r ail gam gweithredu o dan eitem 4 isod).*<br>• Gofyn i'r Prisiwr ddarparu gwybodaeth ynglŷn â nifer y trosglwyddiadau yn y siroedd hynny fel y gellir cyflwyno tystiolaeth o'r golled ariannol i'r cynghorau dan sylw. |

| | Eitem |
|---|---|
| 4. | **Yr ochr gynllunio** |
| | Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb gyda'r Rheolwr Cynllunio – Polisi er mwyn gallu ystyried a oes opsiynau o ran y drefn gynllunio i ddylanwadu ar y sefyllfa.<br><br>Ymatebodd y Rheolwr Cynllunio i'r cwestiynau isod, sef:-<br><br>• <u>*Oes modd cadarnhau beth yw'r sefyllfa gyfredol (o safbwynt Cynllunio) pan fo tŷ haf (ail gartref i ddefnydd perchennog) yn newid defnydd i fod yn uned hunan-ddarpar?*</u><br><br>Yn ôl y ddeddf cynllunio, rhaid i unrhyw beth sydd eisiau caniatâd cynllunio fod yn 'ddatblygiad' ac os nad yw'n disgyn o fewn y diffiniad o ddatblygiad, nid yw'n disgyn o dan y ddeddf. Mae 'datblygiad' yn cynnwys newid defnydd berthnasol ('material change of use'). Hefyd, o dan y ddeddf, mae'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yn gosod gwahanol ddefnyddiau mewn dosbarthiadau bras ac mae tŷ yn dod o dan gategori C3. Mae'r system gynllunio yn edrych ar dŷ fel aelwyd lle mae pobl yn byw gyda'i gilydd. Nid oes raid iddo gael ei ddefnyddio |

| | |
|---|---|
| | drwy gydol y flwyddyn i gael ei ystyried fel tŷ, ac os yw'n cael ei rentu i bobl eraill am gyfnodau byr, mae'n dal yn 'aelwyd' yn ôl y ddeddf a'r gorchymyn dosbarthiadau defnydd, gan nad oes yna newid yn y defnydd. Mae yna achosion prin sydd wedi bod o flaen y Llys lle mae'r barnwr wedi dod i gasgliad, yn yr achosion penodol hynny, bod yna newid defnydd berthnasol wedi digwydd oherwydd nad oedd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd oedd yn debyg i ddefnydd gan 'aelwyd' a bod mwynderau eiddo cyfagos yn cael eu heffeithio hefyd. Felly, fel arfer nid oes angen caniatâd cynllunio i osod tŷ fel uned hunan-ddarpar.<br><br>• *<u>Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd adeilad, e.e. o fod yn siop i fod yn gaffi. Sut bod hynny'n wahanol wrth newid i fod yn uned hunan-ddarpar?</u>*<br><br>Rhaid cael caniatâd cynllunio i newid defnydd adeilad o siop i gaffi oherwydd bod siop yn dod o dan gategori A1 a chaffi yn dod o dan gategori A3 yn y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd. Nododd y Rheolwr Cynllunio ymhellach y gallai rannu papur gyda'r aelodau sy'n rhestru'r gwahanol ddosbarthiadau defnydd a'r hyn sydd wedi'i gynnwys ymhob un.<br><br>• *<u>Beth fyddai'n rhwystro'r Cyngor rhag mynnu fod angen caniatâd cynllunio cyn cael yr hawl i osod tŷ fel uned hunan-ddarpar lle 'roedd gynt yn gartref?</u>*<br><br>Mae'n rhaid i gynlluniau datblygu osod polisïau sy'n ymwneud â datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio. Gan nad oes yna newid defnydd yn ôl y ddeddf, nid oes polisi am y mater yn y Cynllun Datblygu Unedol ac ni ellir cynnwys polisi amdano yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd wrthi'n cael ei baratoi.<br><br>• *<u>A fyddai'n ymarferol i Lywodraeth Cymru sefydlu rheoliadau i awdurdodau lleol reoli caniatâd newid defnydd eiddo o dy haf i uned gwyliau trwy'r drefn gynllunio?</u>*<br><br>Mae'n bosib' newid y ddeddfwriaeth, e.e. llwyddwyd i gyflwyno categori defnydd C4 yn Lloegr mewn perthynas â thai aml ddeiliaeth oherwydd y niferoedd uchel o fyfyrwyr yn sgil gwaith ymchwil am y mater. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yng Nghymru i daclo'r un mater. Byddai angen newid y ddeddf / is-ddeddf yng Nghymru i gyfarch y 'newid' i uned gwyliau.<br><br>Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-<br><br>• Nad oedd gan y Cyngor unrhyw rym i weithredu o dan y trefniadau presennol ac mai'r unig ffordd o ddatrys y broblem oedd drwy sicrhau newid mewn deddfwriaeth.<br><br><u>Camau Gweithredu</u><br><br>• Holi Llywodraeth Cymru beth yw'r posibiliadau ar gyfer newid y rheoliadau / is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gorchymyn |

| | |
|---|---|
| | Dosbarthiadau Defnydd er mwyn mynnu bod angen hawl cynllunio i newid defnydd i 'uned hunan-ddarpar', gan ofyn i'r Rheolwr Cynllunio – Polisi gynorthwyo gyda'r ffurf ar eiriad.<br>• Gofyn i'r awdurdodau (y bwriedir cysylltu â hwy dan eitem 1 uchod) am eu cefnogaeth yn y mater hwn hefyd, gan ofyn i'r Rheolwr Cynllunio – Polisi gynorthwyo gyda'r ffurf ar eiriad.<br><br>Nodwyd ymhellach fod Cadeirydd yr Ymchwiliad wedi cyflwyno cwestiwn oedd yn cyfeirio at faterion y tu allan i ffocws yr ymchwiliad gan ei fod yn holi am ganiatâd cynllunio i adeiladu / datblygu llety gwyliau hunangynhaliol o'r newydd, ac ymatebodd y Rheolwr Cynllunio i'r cwestiwn, sef:-<br><br>*<u>A fyddai'r Adran Gynllunio yn gallu esbonio Polisi D15 o'r Cynllun Datblygu Unedol os gwelwch yn dda ac unrhyw oblygiadau o'r polisi?</u>*<br><br>Mae'r polisi yn caniatáu datblygu llety gwyliau hunanwasanaeth parhaol newydd ar safle addas a ddatblygwyd o'r blaen y tu allan i'r ffin datblygu neu i addasu adeiladau presennol y tu allan i'r ffin yn llety o'r fath, cyn belled â bod yr adeilad yn strwythurol gadarn ac yn addas i'w addasu. Cynhwysir amod mai ond defnydd gwyliau a ganiateir, ond mae pryder wedi'i fynegi bod rhai yn defnyddio lletyau o'r fath fel lle preswyl, sy'n gyfystyr â thŷ newydd yng nghefn gwlad. Mae'n ymddangos i rai ei bod yn haws cael defnydd gwyliau na defnydd preswyl yng nghefn gwlad, ond, yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, mae'n rhaid ceisio cael defnydd economaidd yn gyntaf, sy'n cynnwys tai gwyliau, cyn gallu ystyried cynnig am dŷ. Os yw'r aelodau yn gwybod am enghreifftiau o gamddefnyddio lletyau gwyliau yn y modd hwn, gofynnir iddynt roi gwybod i'r Gwasanaeth Cynllunio. |

***ATODIAD 6***
***YMATEB I YMGYNGHORIAD TECHNEGOL***

**Ymateb Cyngor Gwynedd i ymgynghoriad Technegol Llywodraeth y Cynulliad ar fersiwn draft Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2015 a'r canllawiau ategol i dalwyr trethi nol ym mis Medi 2015.**

**Aelod Cabinet Adnoddau**
**Cabinet Member Resources**
Y Cynghorydd / Councillor Peredur Jenkins

Gofynnwch am/Ask for: Dafydd L Edwards
☎(01286) 682668
✉DafyddLE@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref: PJ/DLE/AJ
Eich Cyf / Your Ref: WG26148

8 Medi 2015

Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Annwyl Syr / Fadam,

**Ymgynghoriad technegol Llywodraeth Cymru ar fersiwn ddrafft Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2015 ("Gorchymyn drafft 2015") a'r canllawiau ategol i dalwyr ardrethi**

Mae ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad technegol yma fel a ganlyn.

**Ymateb i'r Cwestiynau ar y Gorchymyn Drafft**

| Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|
| 1. A ydych yn cytuno y dylid gwneud darpariaethau i gyfartaleddu'r meini prawf 70 diwrnod ar gyfer sawl eiddo sydd yn yr un lleoliad neu'n agos iawn at ei gilydd lle mai'r un busnes sy'n berchen arnynt? | **Lle mae sawl eiddo yn yr un lleoliad neu'n agos iawn at ei gilydd lle mai'r un busnes sy'n berchen arnynt, nid oes gennym wrthwynebiad i gyfartaleddu'r meini prawf gosod ar gyfer y rheiny. Fodd bynnag, dylid ystyried hynny o fewn cyd-destun ein sylwadau ar gwestiwn 3 isod.** |
| 2. A oes unrhyw faterion yn codi o ran gweinyddu a gorfodi'r cyfryw ddarpariaeth? | **Na** |

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*

Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

| | |
|---|---|
| 3. A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y Gorchymyn drafft? | **Mae Cyngor Gwynedd wedi gohebu sawl tro gyda Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diweddar yn mynegi ein barn am Orchymyn 2010 a'r trefniadau presennol. Gellir crynhoi ein safbwynt fel a ganlyn:**<br>o **Roedd Cyngor Gwynedd yn croesawu'r tynhau yn y gyfraith a ddaeth y sgil Gorchymyn 2010, a rydym felly'n croesawu'r bwriad yn y Gorchymyn drafft i barhau gyda hyn.**<br>o **Er hynny, mae'r Cyngor hefyd yn credu y dylid cynyddu'r 70 diwrnod i 105 diwrnod er mwyn bod yn gyson â canllawiau'r HMRC.**<br>o **Barn a dyhead tymor hir Cyngor Gwynedd yw y dylid newid y drefn sylfaenol i fod angen cael caniatâd cynllunio gan yr Awdurdod Lleol cyn newid defnydd eiddo o fod yn eiddo domestig i fod yn eiddo busnes.**<br>o **Ymhellach, lle caniateir hynny, dylid diweddaru'r caniatâd yn flynyddol.** |

**Ymateb i'r Cwestiynau ar y Canllawiau i Dalwyr Ardrethi**

| Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|
| 4. A yw'r canllawiau yn rhoi digon o gyngor i berchenogion eiddo hunanarlwyo ar y Gorchymyn drafft? | **Ydynt. Fodd bynnag, hoffem weld camau yn cael eu cymryd i weithredu'r hyn a amlinellir ar dudalen 6 y canllawiau, sef bod eiddo yn mynd yn ôl bob blwyddyn i'r sefyllfa arferol o fod yn eiddo domestig os na ellir dangos yn wahanol. Dylai'r Canllawiau i Dalwyr Ardrethi gynnwys (o bosib fel 4ydd pennawd yn Atodiad 1) ofyniad fod talwyr ardrethi ar eiddo hunan ddarpar yn cyflwyno tystiolaeth o osod yn flynyddol i Swyddfa'r Prisiwr.** |
| 5. A ddylai'r canllawiau gwmpasu unrhyw feysydd eraill? | **Nid ydym yn credu fod hynny'n angenrheidiol, ond mae un mater y credwn y dylid ei dynnu allan. Mae cyfeiriad at rhyddhad caledi dan Adran 13a ar dudalen 11 y Canllawiau. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae cynnwys hyn yn ddiangen ac yn anghynorthwyol.** |

Yn gywir,

**PEREDUR JENKINS**
**AELOD CABINET ADNODDAU**
Amg.

**Ymchwiliad Craffu – Tai Gwyliau a Threthi**
**Nodiadau Cyfarfod 6 Ionawr, 2016**

Presennol: Y Cynghorwyr:- Aled Evans, Jason Humphreys, Eirwyn Williams (Cadeirydd), John Wyn Williams ac R.H.Wyn Williams.

Hefyd yn bresennol:- Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau).

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr – Refeniw a Risg), Euryl Lloyd Jones (Rheolwr Trethi), Nia Davies (Rheolwr Cynllunio - Polisi), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Hefyd:-Jo Valentine (Llywodraeth Cymru) (ar gyfer eitem 1 isod).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Trevor Edwards a Dyfrig Jones.

| | Eitem |
|---|---|
| 1. | **Trafodaeth gyda Jo Valentine (Llywodraeth Cymru)** |
| | Croesawyd Jo Valentine o Lywodraeth Cymru i'r cyfarfod.<br><br>Esboniwyd y cyd-destun, a gwahoddwyd Jo Valentine i ymateb i gyfres o gwestiynau gan yr aelodau, sef:-<br><br>• ***Fedrwch chi esbonio eich rôl o fewn Llywodraeth Cymru?***<br><br>Rwyf yn Bennaeth Trethiant Lleol o fewn yr Adran Llywodraeth Leol felly rwyf yn edrych ar ôl y system Dreth Gyngor, ei pholisi a'i deddfwriaeth a'r cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae gen i gyfrifoldeb polisi am drethi annomestig cyn belled ag y mae'n ymwneud â system ariannol llywodraeth leol a chynhaliaeth o'r gronfa. Mae'n gyfrifoldeb sy'n cael ei rannu gyda fy nghydweithwyr yn yr Adran Economi sydd yn gyfrifol am y cynlluniau gostyngiadau yr ydym yn eu gweithredu.<br><br>• ***Yn sylfaenol, (a chyn ystyried safon y prawf ddefnyddir i benderfynu treth cyngor a'i treth fusnes), oes posib' deddfu fel bod y prawf a'r rheoliad 70 diwrnod yn ddianghenraid a bod tŷ o ganlyniad yn cael ei drethu i dreth cyngor ar bob achlysur?***<br><br>Cyflwynwyd y rheol 70 diwrnod gan orchymyn 2010 a ddiwygiodd Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i gynnwys meini prawf ychwanegol fel bod rhaid i eiddo hunan-ddarpar hefyd ddarparu tystiolaeth ei fod yn cael ei osod am 70 diwrnod yn ogystal â'r ffaith ei fod ar gael am 140 diwrnod i'w osod. Felly, mewn gwirionedd yr hyn fyddai'n digwydd petai gorchymyn 2010 yn cael ei ddiddymu yw y byddai'n dychwelyd at y meini prawf gwreiddiol a amlinellwyd yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, oedd yn gofyn iddo fod ar gael i'w osod am 140 diwrnod yn unig. Felly, er y gellir |

| | |
|---|---|
| | ei addasu, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn gallu ei addasu, sy'n llawer anoddach ac yn cymryd mwy o amser i'w weithredu nag is-ddeddfwriaeth.<br><br>• ***<u>'Rydym yn deall fod deddfwriaeth gyfredol yn nodi fod angen i berchennog uned hunan ddarpar brofi fod yr uned ar gael i'w osod am gyfnod o 140 diwrnod mewn blwyddyn dreigl, a bod yr uned wedi ei osod am gyfnod o 70 niwrnod.</u>***<br>***(i)*** ***<u>Beth yw'r posibilrwydd o allu 'tynhau' y gofyn yma gan godi'r nifer dyddiau y mae angen i annedd fod ar gael ac, neu wedi ei osod?</u>***<br>***(ii)*** ***<u>Yn gyfredol, mae'n rhaid i berchnogion gyflwyno hunan-ddatgeliad fod annedd yn cwrdd â'r gofyn uchod (140 diwrnod / 70 diwrnod), ond nid oes rhaid gwneud hynny yn flynyddol. Beth yw'r posibilrwydd o fedru newid y gofyn i fod yn orfodol i gyflwyno'r tystiolaeth yn amlach?</u>***<br>***(iii)*** ***<u>Beth sy'n rhaid digwydd o ran deddfwriaeth i alluogi newid o'r fath?</u>***<br><br>Byddai hynny'n bosibilrwydd ond yn amlwg mae hynny'n benderfyniad gwleidyddol ar gyfer gweinidogion Cymru a dyna fydd y gweinyddiad nesaf yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai. Yn amlwg, byddai'n rhaid iddynt ystyried barn yr holl fudd-ddeiliaid mewn perthynas â hynny. Ar hyn o bryd, maent yn derbyn cryn dipyn, yn ogystal â barn llywodraeth leol o ran eu sylfaen drethu yn cael ei erydu. Yn ogystal, ceir dipyn o safbwyntiau croes ynglŷn â'r ffaith fod rhai busnesau yn cael trafferth diwallu'r meini prawf am resymau megis llifogydd ac agweddau eraill megis hynny. Felly, ceir tystiolaeth ar hyn o bryd efallai na all bawb ddiwallu'r 70 diwrnod ac mae rhai ohonynt yn awgrymu eu bod yn fusnesau go iawn. Wedi dweud hynny, rydym hefyd yn ymwybodol bod rheoliadau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) ar gyfer llety gwely gyda dodrefn, sy'n ofynnol mewn perthynas ag agweddau eraill o'r system dreth ffiniol, yn gofyn am dystiolaeth o osod am 105 diwrnod a'i fod ar gael i'w osod am 210 diwrnod. Felly, yn amlwg ceir rhyw fath o gynsail yna o ran ffurfiau eraill o drethiant ond mae ychydig yn wahanol yn y modd maent yn cael eu caniatáu i wneud iawn am hynny yn erbyn dibenion treth eraill. Felly dyna pam mae'n fwy o ostyngiad treth - dyna pam mae'n fwy caeth. Efallai y bydd yn bosibilrwydd, ond yn yr hirdymor efallai.<br><br>• ***<u>Yn gyffredinol, mae'n ymddangos fod y gwerth trethiannol a'r dreth busnes o ganlyniad yn llai na'r bil treth cyngor, yn wir ymddengys bod y gwerth trethiannol yn isel o'i gymharu â'r incwm gosod. Beth bynnag fo'r rhesymau am hynny oes modd i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar y drefn benodol ddefnyddir wrth asesu?</u>***<br><br>Nid wyf yn arbenigwr ar brisiadau ond gwn mai rhan o leiaf o'r sail werthuso yw'r elw o'r busnes ac rwy'n gwybod eu bod ynghanol y broses o lunio cynllun prisiad ar gyfer ailbrisiad 2017. Maent wedi bod yn |

gweithio gyda sefydliadau cynrychioladol yn y diwydiant i geisio cytuno ar hynny o flaen llaw cyn mis Ebrill 2017 gan edrych ar y gwahanol gydrannau fydd yn llunio'r prisiad o ran faint sydd i'w briodoli i'r elw a'r troedfeddi sgwâr a faint o ystafelloedd gwely ac ati. Felly, mae system gyffredinol yn ei lle, ond yn amlwg mae hynny wedyn yn caniatáu nodweddion arbennig yr eiddo hefyd allai gynyddu ei werth ac arwain at ei werth ardrethol a gwn yn sicr eu bod yn disgwyl cynnydd penodol ym mhrisiadau'r eiddo. Yn sicr, dyna'r hyn a awgrymwyd o'r arwyddion cynnar gan Brif Brisiwr Cymru, eu bod wedi cynyddu dros gyfnod o amser o bosib, ac yn amlwg bu'n amser hir erbyn hyn ers y gwerthusiad diwethaf pan oedd eiddo'n seiliedig ar eu gwerthoedd rhent yn 2008, ac ar gyfer ailbrisiad 2017 byddant yn seiliedig ar eu gwerthoedd rhent ym mis Ebrill 2015. Felly, buasech yn disgwyl gweld symudiad yn y cyfnod o amser hwnnw ond o ran y cwestiwn yma ynglŷn ag a yw'n bosib i Lywodraeth Cymru ddylanwadu'r gweithdrefnau a ddefnyddir i asesu, ni fuasem yn ceisio ymyrryd â rôl Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn hynny o beth oherwydd nhw yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am brisiadau eiddo ac mae ganddynt yr arbenigedd prisio hwnnw ac rydym angen sicrhau eu bod yn gallu cadw'r hygrededd hwnnw oherwydd dyna mewn gwirionedd sy'n caniatáu i'r system drethiant ddod â mwy na £2bn o refeniw i Gymru. Wedi dweud hynny, rwy'n cydnabod mai rhan o'r rheswm pam fod rhai o'r eiddo yma yn talu cyn lleied o dreth yw Cymorth Trethu Busnesau Bach sydd, oherwydd bod eu gwerth ardrethol mor isel, fel arfer yn golygu bod yr eiddo yma mewn gwirionedd, os yw eu gwerth ardrethol yn llai na £6000, ddim yn gorfod talu trethi o gwbl ac fe wnaethom edrych ar y niferoedd ac ychydig iawn o eiddo hunan-ddarpar yng Nghymru oedd yn talu trethi busnes llawn o gwbl.

[*Awgrymodd y Pennaeth Cyllid y dylid lobio'r Swyddfa Brisio unwaith yn rhagor, drwy'r Aelod Cabinet neu'r Ymchwiliad hwn, ynglŷn â'r ffaith bod gwerth trethiannol yr unedau gwyliau hunan-ddarpar hyn mor isel.]*

- ***<u>Canfyddir bod y mwyafrif llethol o unedau hunan gynhaliol drosglwyddir i dreth busnes yn cymwyso i ryddhad trethi busnesau bychain. Deallwn bod rhai mathau o eiddo yn cael eu heithrio o'r rhyddhad yma. Os yw'r rhyddhad busnesau bychain i barhau yn 2016/17, beth fuasai'r drefn o gael adolygu rhain?</u>***

Mewn perthynas â chymorth trethu i fusnesau bach ar gyfer 2016/17, mae gweinidogion wedi penderfynu y bydd yn cael ei ymestyn ar gyfer y flwyddyn bresennol gyda'i delerau presennol, yn rhannol i roi'r sicrwydd cynnar hwnnw i fusnesau ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd y flwyddyn nesaf ond yn rhannol, yn amlwg, oherwydd bod yr ailwerthusiad ar y ffordd, dyma'r pwynt rhesymegol o ran amseru i adolygu cynllun a'r polisi a beth sy'n digwydd a sut y gellir ymgeisio amdano a'i feini prawf cymhwyso. Mae'n creu pwynt da iawn mewn amser o safbwynt adolygu effeithiolrwydd ac ati, ac mae'n sicr yn argymhelliad y byddwn yn ei gyflwyno i weinidogion. Mae'n ymwneud ag edrych ar p'un a yw wedi

| | |
|---|---|
| | cyflawni'r hyn yr oeddem am ei gyflawni. Mewn gwirionedd, cyn mis Hydref 2010, roedd pawb yn cyfrannu swm a dim ond 50% o gymorth trethu busnesau bach wnaethant ei dderbyn. Fel ymateb i'r dirwasgiad, cafodd hynny ei ddyblu i 100% a oedd yn ymddangos ar y pryd fel rhywbeth dros dro a fu'n help mawr, ond mae hynny wedi bod yn ei le bellach ers bron i 5-6 mlynedd, ac a yw'n iawn cael system lle mae nifer o bobl yn cyfrannu dim byd o gwbl ac yn sicr mae yna gwestiynau ynglŷn â hynny. Mae'n gynllun costus iawn o ran yr arian sydd angen i Lywodraeth Cymru ei ganfod er mwyn ei roi i mewn i'r cyfanswm o drethi annomestig a gynhyrchir i gymryd lle'r incwm hwnnw a gollwyd felly'n sicr mae'r rhain i gyd yn gwestiynau sydd angen eu hystyried cyn yr ailwerthusiad. Yn sicr, bydd yr hyn fyddwn yn ei gyflwyno i'r gweinidogion yn ymwneud â beth maen nhw eisiau'i weld yn symud ymlaen fel eu hymateb i'r ailwerthusiad.<br><br>• ***<u>Deallwn hyd yma nad oes modd ffurfiol i'r Asiantaeth Brisio rannu gwybodaeth â'r cynghorau. A ellwch egluro pa newidiadau sydd ar y gorwel fydd yn darparu hawl cyfreithiol i wneud hyn?</u>***<br><br>Ar hyn o bryd, un o'r rhesymau pam nad oes unrhyw drefniadau rhannu gwybodaeth ffurfiol yn eu lle yw oherwydd bod VOA yn cael ei atal rhag rhannu gwybodaeth adnabyddadwy am drethdalwr fel asiantaeth HMRC. Felly, fel Lloegr, rydym yn ystyried darpariaethau yn y Mesur Menter sydd yn mynd trwy'r Senedd ar hyn o bryd fydd yn creu mynediad cyfreithiol i ganiatáu i fwy o wybodaeth gael ei rhannu gydag awdurdodau lleol o ran y rhestr trethiant lleol. Felly, rydym yn rhagweld y bydd hynny'n golygu'r wybodaeth am enw a meddiannwr yr eiddo, ac yn y blaen. Ar y funud, yr unig beth a ddarperir gan y VOA yw beth yw'r gwerth ardrethol, ble mae'r eiddo ac ati. Mae hynny'n creu dipyn o wahanol broblemau o ran y ffaith bod dyblygu gwaith yn digwydd rhwng y VOA ac awdurdodau lleol. Efallai ei bod ychydig yn rhy hawdd i drethdalwyr geisio twyllo'r system oherwydd nid yw'r wybodaeth honno yn cael ei thriongli na'i gwirio. Felly, rydym yn mynd â hynny trwy'r Senedd ar hyn o bryd a chredaf mai'r bwriad yw ceisio cael y rheoliadau hynny yn eu lle cyn mis Ebrill 2017 i gyd-fynd â'r ailbrisiad. Ochr yn ochr â hynny, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o b'un a ellir gwneud mwy mewn perthynas â threthi annomestig, ac yn benodol yr elfen o anfon pethau ymlaen a gofyn i drethdalwyr ddarparu gwybodaeth. Felly yn y Bil Llywodraeth Leol maent yn ymgynghori arno ar hyn o bryd, ceir elfen o drafodaethau ynghylch y posibilrwydd o lunio math o ddeddfwriaeth sy'n gosod dyletswydd ar drethdalwyr i roi gwybod am newidiadau yn eu hamgylchiadau, a phethau penodol felly, sydd eisoes yn elfennau o fewn y system dreth gyngor. Felly mae'r cynigion hynny yn eu dyddiau cynnar hyd yn hyn a chawsant eu llunio cyn cyhoeddiad llywodraeth y DU. Ar ddiwedd y dydd, bydd angen i ni weithio allan sut fydd y cwbl yn ffitio gyda'i gilydd ond ceir awydd yna i ni edrych arno a symud y gwaith yn ei flaen. |

- ***I berson cyffredin, mae'n ymddangos fel bo newid defnydd wrth i annedd newid o fod yn 'dŷ / tŷ haf' i fod yn 'uned hunan-ddarpar'. 'Rydym ar ddeall fod y 'rhybudd dosbarthiadau defnydd' yn rhoi 'tŷ' yng nghategori C3. 'Rydym hefyd yn deall o ran trefniadau cynllunio nad oes angen caniatâd cynllunio i newid o dŷ haf i uned hunan-ddarpar oni bai fod 'newid defnydd perthnasol' yn digwydd. Deallir nad oes 'newid defnydd perthnasol' yn digwydd yn y rhan fwyaf o achosion oherwydd nad ydi cymeriad y defnydd o'r tŷ nag effaith y defnydd hwnnw ar gymeriad yr ardal yn newid.***

[*Gan nad oedd yn arbenigo mewn materion cynllunio, cytunodd Jo Valentine i ofyn y cwestiwn uchod a'r cwestiwn isod hefyd i'w chydweithwyr yn y maes cynllunio a bwydo'r wybodaeth yn ôl i'r ymchwiliad drwy'r Rheolwr Trethi*.]

***Deellir bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Rhybudd Dosbarthiadau Defnydd a'r Rhybudd Hawliau Datblygu Cyffredin ar hyn o bryd. Beth yw'r posibiliadau y gallai'r adolygiad yma gynnwys effaith ymchwil i:-***

***(i)*** ***Edrych ar a mesur natur y problemau sy'n gysylltiedig ag amlder unedau hunan-ddarpar oherwydd bod eiddo'n cael eu defnyddio ar sail fasnachol yn hytrach nag yn cael eu defnyddio gan y perchennog neu berthnasau, a***

***(ii)*** ***Gynnig atebion posib'? Er enghraifft, mae gwaith ymchwil a gafodd ei wneud i Lywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi argymell newidiadau i'r Rhybudd Dosbarthiadau Defnydd er mwyn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i reoli lleoliad Tai mewn Amlfeddiannaeth.***

***ATODIAD 8***
***GOHEBIAETH SIR BENFRO AT LYWODRAETH CYMRU***

*11 Mawrth 2016*

Mr Carl Sargeant AC,
Gweinidog Cyfoeth NaturiolMinister for Natural Resources
Llywodraeth Cymru
Bae Caerydd
Caerdydd
CF199 1NA

Annwyl Weinidog

RHEOLIADAU CYNLLUNIO – AIL GARTREFI/ CARTREFI GWYLIAU

Mewn cyfarfod diweddar o Gabinet y Cyngor Sir trafodwyd Rhybudd o Gynnig ynghylch rheoliadau cynllunio mewn cyswllt â thai gwyliau/ ail gartrefi. Penderfynwyd fy mod, fel Aelod Cabinet Cynllunio a Chynaliadwyedd yn ysgrifennu atoch i nodi pryder Cyngor Sir Penfro ynghylch yr effaith economaidd a chymdeithasol croes sy'n codi o'r nifer uchel o dai gwyliau o fewn y Sir. Mae'r prif effeithiau yn cynnwys cynnydd amghymesur mewn prisiau tai sy'n effeithio ar effaith pobl leol i fforddio prynu neu rhentu lle i fyw, yr effaith ar gydlyniad y gymuned a'r effaith allan o gyfnod gwyliau ar ardaloedd lle bo perchnogaeth tai haf yn fwy poblogaidd. Tra'n cydnabod fod gan deiliaid tai gwyliau yn gallu gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi leol tra'n ymweld â Phenfro, mae angen taro cydbwysedd rhesymol.

Rwy'n gwerthfawrogi fod mesurau diweddar wedi eu rhoi mewn lle i alluogi Cynghorau i ddyblu Treth Cyngor ar gyfer tai haf, ac i'r perwyl yma penderfynodd y Cyngor yn ei gyfarfod llawn ar 10 Mawrth y byddem yn ychwanegu 50% i hyn. Byddai mesurau pellach, megis rheoliadau cynllunio llymach, yn cynorthwyo ymhellach. Fel yr ydych yn ymwybodol, mae aneddau yn disgyn o fewn Dosbarth C3 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarth Defnydd) 1987 (wedi ei ddiwygio). Nid yw'r gorchymyn cyfredol yn gwneud gwahaniaeth rhwng aneddau sy'n cael eu defnyddio fel prif gartrefi ac aneddau sy'n cael eu defnyddio fel cartrefi gwyliau. Ar y sail yma, nid oes cyfyngiadau cynllunio yn bodoli yn gyfredol sy'n atal y defnydd o anedd fel cartref gwyliau, ag eithrio mewn engreifftiau lle mae amod cynllunio wedi ei osod ar yr hawl cynllunio gwreiddiol ynghylch yr annedd.

Yng ngoleuni y sefyllfa gyfredol, byddai angen newid i'r Gorchymyn er mwyn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i reoli cartrefi gwyliau ymhellach na nodi amodau cynllunio cyfyngol ar ddatblygiadau preswyl newydd (yn amodol fod yr amodau yn cwrdd â gofynion Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2016: Y defnydd o amodau ar gyfer rheoli datblygiadau). Byddai newid o'r fath mewn deddfwriaeth yn gallu cael ei gefnogi gan ganllawiau cynllunio atodol, ac yn y pen draw, polisiau cynllun datblygu, yn amlinellu ut y byddai newid defnydd yn cael ei reoli a'i fonitro o fewn ffiniau gweinyddol unigol.

Rw'n deall fod Llywodraeth Cymru am adolygu y Gorchymyn Defnydd Dosbarth yr haf yma. A gaf ofyn yn barchus eich bod yn defnyddio y cyfle hwn i ystyried yn ofalus y posibilrwydd fod rheoliadau cynllunio tynach yn gallu cynorthwyo mewn rheoli y nifer anneddau sy'n cael eu defnyddio fel tai gwyliau yn hytrach na 'chartrefi teuluoedd' yng Nghymru.

Yn gywir

Cynghorydd Myles Pepper
Aelod Cabinet Cynllunio a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| **DYDDIAD** | **16/06/2016** |
| **PWNC** | **Ymgysylltu ar Her Gwynedd** |
| **ARGYMHELLION** | **Adnabod ymarfer da a meysydd i'w gwella at unrhyw ymarferiad ymgysylltu i'r dyfodol** |
| **AWDURON** | **Cynghorydd John Wyn Williams**<br>**Cynghorydd R H Wyn Williams**<br>**(cynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu Corfforaethol wnaeth ymgymryd â'r gwaith)** |
| **SWYDDOG PERTHNASOL** | **Vera Jones**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol wedi adnabod pwysigrwydd y maes ymgysylltu yn ei gyfarfod blynyddol, ac yn awyddus iawn i fod yn craffu y maes. Tros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf mae'r Strategaeth Ymgysylltu wedi ei graffu lawer gwaith, ac roedd teimlad gan y Craffwyr nad oeddent yn ychwanegu gwerth trwy ail-ymweld eto â'r strategaeth.

1.2 Penderfynwyd mai'r ffordd orau o edrych ar faes mor enfawr, dyrys a phwysig oedd adnabod darn penodol o waith ymgysylltu, a chraffu ar y gwaith hwnnw er mwyn gweld os oedd gwersi i'w dysgu i alluogi'r Cyngor i wneud yn well y tro nesaf, neu rannu gwersi o ymarfer da ar draws y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Ystyriwyd nifer o wahanol feysydd sensitif, ee llyfrgelloedd, meysydd parcio ayyb, ond yn y diwedd daethpwyd i'r casgliad nad oedd ymchwiliad craffu llawn am ddod a'r budd gorau i'r Cyngor.

1.3 Wedi trafodaethau yn y cyfarfodydd paratoi, a chyda swyddogion o'r Cyngor, penderfynwyd cysylltu gyda Grŵp Ymgysylltu Gwynedd er mwyn gweld os oedd modd craffu y gwaith ymgysylltu mawr diweddar a fu gydag Her Gwynedd, ond gan wneud hynny mewn ffordd gwahanol.

**2. Herio Ymarferiad Her Gwynedd er mwyn dysgu gwersi.**

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Ymgysylltu ar 5 Ebrill ac, yn y cyfarfod hwnnw, roedd y Grŵp yn cymryd stoc o ymarferiad Her Gwynedd i weld pa wersi y gellid eu dysgu ynglŷn â threfniadau ymgysylltu'r Cyngor yn fwy cyffredinol. Roedd y Cynghorwyr John Wyn Williams ac R H Wyn Williams yn bresennol yn y cyfarfod a chafwyd trafodaeth agored a gonest iawn am yr ymarferiad Her Gwynedd. Dyma'r prif gasgliadau:-

I. Ar y cyfan, roedd yn ymarferiad hynod lwyddiannus. Roedd yn fenter unigryw ac uchelgeisiol ac mae'r Cyngor i'w ganmol am fentro i geisio barn trigolion ar faterion oedd yn bwysig ac hefyd yn gymhleth. Er bod rhai wedi mynegi siom ar y niferoedd a ymatebodd, roedd y nifer yn ardderchog o ystyried cymhlethdod y pwnc a hefyd y buddsoddiad amser oedd ynghlwm â chymryd rhan ynddo, ac yn cymharu'n ffafriol gyda'r ymateb i ymarferiadau cyffelyb gan gynghorau eraill.

II. Mae'n annhebygol y bydd y Cyngor yn ymgymryd ag ymarferiad mor drwyadl am rai blynyddoedd eto, ond mae gwersi y gellir eu dysgu a fyddai o ddefnydd wrth gynllunio ymarferiad ymgysylltu dros y blynyddoedd nesaf.

III. a) Mae'n bwysig bod yn eglur beth yw diben ymgysylltu a bod yn agored a gonest gyda'r cyhoedd am hynny.
b) Mae lle i edrych eto ar y Llawlyfr Ymgysylltu i sicrhau ei fod yn gofyn y cwestiwn "Pam ydych chi yn meddwl ymgysylltu?" er mwyn osgoi sefyllfa lle mae'r Cyngor yn ymgysylltu ar fater nad oes ganddo feddwl cwbl agored arno.
c) Dylid bod yn glir pa opsiynau, os o gwbl, sydd ar y bwrdd a dylid gofyn y cwestiwn hynny cyn cychwyn ar unrhyw weithgaredd ymgysylltu.

Noder - mae'r gwaith o ddiweddaru'r llawlyfr eisoes ar y gweill, a'r bwriad yw ei ddiweddaru erbyn diwedd Chwarter 1 2016/17

IV. Mae gwaith da wedi ei wneud i gael adborth yn fewnol gan staff er mwyn dysgu gwersi o'r broses. Fodd bynnag, credir y dylid cymryd y cyfle hefyd i holi trigolion os y gwnaethant gymryd rhan yn Her Gwynedd gan holi – "Os ddim, pam?" ac os do, "sut brofiad oedd hynny?"

V. Mae'n ymddangos bod datblygiad y teclyn ar lein wedi galluogi'r Cyngor i gyrraedd amrediad gwell o'r boblogaeth na'n dulliau traddodiadol. Mae hynny felly yn rhywbeth i adeiladu arno.

VI. Un o'r gwendidau posib oedd bod peth o'r cynnwys a ddarparwyd gan y gwasanaethau yn anodd i'r cyhoedd ei ddeall ac yn defnyddio iaith gymhleth a gormod o "dermau Cyngor" na all y cyhoedd eu deall (yn y Gymraeg a'r Saesneg). Mae'r anallu i gyfathrebu negeseuon clir a syml yn wendid y mae angen edrych arno. Efallai bod lle yma am waith gan Ymchwiliad Craffu neu Grŵp Tasg i edrych ar sut y gellid gwella ar hyn.

VII. Gwnaed nifer o newidiadau i gyfeiriad y gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen. Roedd hynny fymryn yn drafferthus, ond hefyd yn beth positif, gan ei fod yn dangos y parodrwydd i newid ac addasu wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Mae'n amlwg bod rhai gwersi i'w dysgu o ran ceisio cynllunio'r gwaith ymlaen llaw hyd eithaf ein gallu ond, fel Cyngor, yn swyddogion ac aelodau, rhaid i ni fod yn barod ac yn hyblyg o ran gweithredu gan fod yn barod i newid cyfeiriad ar hyd y ffordd.

VIII. Mae'r her o ymgysylltu'n effeithiol yn un parhaus ac yn un y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gorfod mynd i'r afael ag ef o ran cael deialog gyda thrigolion Gwynedd a Môn. Mae angen dilyn datblygiad y trefniadau hynny'n ofalus iawn er mwyn osgoi dyblygu a cheisio adnabod ffyrdd o ddefnyddio grwpiau sydd eisoes yn bodoli er mwyn clywed y lleisiau sydd fel arfer yn dawel mewn ymgynghoriadau cyhoeddus.

Y Prif gasgliad o safbwynt Craffu felly yw bod yr ymarferiad wedi llwyddo yn rhyfeddol o dda. Ar ben hynny, mae parodrwydd y Grŵp Ymgysylltu i edrych yn agored a beirniadol ar y gwaith a dysgu o'r gwersi hynny yn dangos ymrwymiad pendant i chwilio'n barhaus i wella ein trefniadau ymgysylltu.

## 3. Gwersi i'w dysgu o safbwynt Craffu

Bu'r ymarferiad uchod yn ymarferiad newydd a gwahanol o safbwynt craffu, ac felly mae angen ceisio asesu a oedd cryfderau a/neu wendidau i'r trefniadau hyn er mwyn gallu ceisio dod i gasgliad a ellid defnyddio'r math yma o ymarferiad craffu i'r dyfodol, a hynny mewn gwahanol feysydd.

CRYFDERAU

- Defnyddio 'fforwm' oedd yn bodoli eisoes i osgoi dyblygu
- Y grŵp hwnnw yn agored i her adeiladol gan y craffwyr ac yn fodlon trafod yn onest ag agored gyda phawb

- Agwedd y craffwyr oedd ceisio gwella'r gwasanaeth ymgysylltu i'r dyfodol (ni fyddai mynychu i gwyno a gweld bai wedi gweithio cystal)
- Ymarferiad amserol, cyflym gyda chasgliadau yn cael eu cyflwyno mewn amserlen fer
- Tim bychan o graffwyr – haws cael pawb at ei gilydd

GWENDIDAU

- Byddai'n rhaid bod yn siŵr fod y ddwy ochor yn agored a gonest, gydag unrhyw sylwadau gyda'r ffocws ar wella gwasanaeth
- Byddai'n angenrheidiol sicrhau fod y maes yn addas i'r math yma o graffu, gan na fyddai disgwyl i aelodau fod yn deall meysydd technegol gymhleth mewn cyfarfod mor fyr

Y casgliad felly yw fod yr ymarferiad o safbwynt craffu wedi bod yn ymarferiad llwyddiannus, lle gellid ymgeisio gwneud gwaith tebyg mewn meysydd eraill i'r dyfodol.

# Gwaith Craffu pellach – Symylrwydd iaith (wrth ymgysylltu)

## Fersiwn 1.00 o'r Sgôp

## Cefndir

Yn ddiweddar, bu i aelodau o'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol gynnal ymarferiad craffu yn edrych ar sut y bu i'r Cyngor ymgysylltu fel rhan o Her Gwynedd, gan geisio cynorthwyo'r tîm ymgysylltu i adnabod gwersi ar gyfer unrhyw ymgysylltu fydd i'r dyfodol.

Roedd nifer o bethau da yn deillio o'r gwaith hynny, a nodwyd hynny yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu corfforaethol ar 16/06/2016. Fodd bynnag, roedd un o'r argymhellion a gyflwynwyd gan y craffwyr, fel a nodir isod, yn destun gwaith pellach:

> "*Un o'r gwendidau posib oedd bod peth o'r cynnwys a ddarparwyd gan y gwasanaethau yn anodd i'r cyhoedd ei ddeall ac yn defnyddio iaith gymhleth a gormod o "dermau Cyngor" na all y cyhoedd eu deall (yn y Gymraeg a'r Saesneg). Mae'r anallu i gyfathrebu negeseuon clir a syml yn wendid y mae angen edrych arno. Efallai bod lle yma am waith gan Ymchwiliad Craffu neu Grŵp Tasg i edrych ar sut y gellid gwella ar hyn.*"

## Pwrpas y gwaith

Pwrpas y gwaith craffu pellach fyddai cymryd cam yn ôl i edrych ar waith ymgysylltu ysgrifenedig diweddar (yn y Gymraeg a'r Saesneg) i weld pa mor hawdd ydyw i'r cyhoedd ei ddeall. Bydd argymhellion yn deillio o'r gwaith.

Er mwyn ein galluogi i wneud hyn bydd angen:

- Deall egwyddorion ymgysylltu (yn arbennig o safbwynt yr iaith)
- Cysylltu ag arbenigwyr er mwyn deall sut y dylid cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig ar gyfer trwch y boblogaeth
- Cymharu yr uchod gyda 3 neu 4 ymarferiad ymgysylltu sydd wedi eu cynnal yn ddiweddar, gan geisio barn y cyhoedd a'r swyddogion (awduron) ar symlder ac addasrwydd yr iaith.
- Asesu a oes gwersi i'w dysgu o'r uchod.

Draft

## Cyfnod y gwaith

| | |
|---|---|
| Cychwyn y gwaith | Yn syth |
| Diwedd y gwaith | |
| Adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 20 Hydref 2016 neu 6ed Rhagfyr 2016 |
| Adroddiad oddi wrth craffu at y Cabinet | Yn dilyn y Pwyllgor |

## Rhaglen

Amlinelliad o'r prif gamau a chyfarfodydd.

**Bydd gofyn i'r aelodau wneud gwaith ychwanegol rhwng y cyfarfodydd.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cysylltu gyda Cyfranogaeth Cymru i ddeall egwyddorion ymgysylltu, yn arbennig o ran natur yr iaith. (Gweler atodiad A er gwybodaeth) | |
| 2. | Cysylltu ag arbenigwyr i gael arweiniad ar<br>• gyfartaledd lefel darllen (neu oedran darllen) mwyafrif y boblogaeth<br>• sut mae deunydd ar gyfer yr oedran darllen cyfartalog yn edrych<br>• oes canllawiau ar gyfer creu'r deunydd darllen yma?<br>• ac unrhyw wybodaeth arall ddefnyddiol allai fod ar gael | |
| 3. | Dewis 3 neu 4 eitem ymgysylltu sydd wedi bod yn eithaf diweddar, a chymharu'r hyn a gyflwynwyd gyda'r canllawiau sydd wedi eu derbyn uchod. | |
| 4. | Gofyn am sylwadau aelodau o'r cyhoedd ar yr eitemau a nodwyd yn 3. | |
| 5. | Trafod gyda rhai o swyddogion/ awduron yr uchod i geisio eu barn ar sut y gellid gwella o'u safbwynt hwy (ac efallai pa gefnogaeth sydd ei angen arnynt) | |
| 6. | Crynhoi argymhellion | |
| 7. | Cyflwyno i Bwyllgor Craffu Corfforaethol | |

Draft

**Atodiad A**

# EGWYDDORION CENEDLAETHOL AR GYFER YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD YNG NGHYMRU

## 1 Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth

Mae ymgysylltu'n rhoi gwir gyfle i ddylanwadu ar bolisïau, ar gynllunio gwasanaethau ac ar gyflwyno gwasanaethau o gyfnod cynnar.

## 2 Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny

Cynhwysir y bobl a effeithir gan fater neu newid mewn cyfleoedd i ymgysylltu fel unigolion neu fel rhan o grŵp neu gymuned, ac mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

## 3 Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol

Mae'r broses ymgysylltu'n glir ac yn cael ei chyfathrebu i bawb mewn ffordd hawdd i'w deall ac o fewn amserlen resymol. Hefyd, defnyddir y dull/iau mwyaf addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.

## 4 Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol

Dylai sefydliadau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio lle bo modd er mwyn sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

## 5 Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall

Mae pobl mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd mae gwybodaeth berthnasol sydd wedi'i haddasu i ddiwallu eu hanghenion ar gael iddynt yn hwylus.

## 6 Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan

Gall pobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd mae unrhyw rwystrau i wahanol grwpiau o bobl yn cael eu datgan ac yn cael sylw.

## 7 Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol

Dylai'r prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder y cyfranogwyr i gyd.

## 8 Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol

Darperir hyfforddiant, cyfarwyddyd a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ymgysylltu'n effeithiol, yn cynnwys cyfranogwyr cymunedol a staff.

## 9 Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad

Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr i gyd am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r trafodaethau a'r camau gweithredu a gafwyd o ganlyniad; dylai dull a ffurf yr adborth roi ystyriaeth i hoffterau'r cyfranogwyr.

## 10 Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu

Dylid monitro a gwerthuso profiadau pobl o'r broses ymgysylltu er mwyn mesur ei llwyddiant o ran ymgysylltu pobl ac effeithiolrwydd eu cyfranogiad; dylid rhannu'r gwersi a ddysgir a'u defnyddio mewn ymgysylltu yn y dyfodol.

Cafodd yr egwyddorion hyn eu datblygu gan Cyfranogaeth Cymru trwy weithio gyda TPAS Cymru, o dan arweiniad partneriaeth Cyfranogaeth Cymru. Cawsant eu cymeradwyo gan Brif Weinidog Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC ar ran Llywodraeth Cymru.
Mae arweiniad pellach ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gael o
www.participationcymru.org.uk
Mawrth 2011

Cyfranogaeth Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 16 MEHEFIN 2016 |
| **TEITL** | ARBEDION YN YR ADRAN RHEOLEIDDIO<br>RHAN 1 - Arbedion Pellach<br>RHAN 2 – Arbedion Pellach – Difa Pla |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro) |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **PWRPAS** | Arbedion pellach wedi eu cyfeirio am waith pellach gan y pwyllgorau craffu cyn dod i gasgliad |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Cyflwynir dwy adroddiad o dan y pennawd "Arbedion Rheoleiddio" ar gyfer eich ystyriaeth, sef:

- Arbedion Pelllach
- Arbedion Pellach – Difa Pla

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 16 MEHEFIN 2016 |
| **TEITL** | Arbedion Effeithlonrwydd Pellach |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro) |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **PWRPAS** | Arbedion pellach wedi eu cyfeirio am waith pellach gan y pwyllgorau craffu cyn dod i gasgliad |

**1. CEFNDIR**

1.1 Fel rhan o'r ymarferiad i ganfod cynlluniau Arbedion ariannol rhwng 2015 a 2018 mae'r Adran Rheoleiddio wedi cyflwyno gwerth £1,242,883 i Gabinet y Cyngor ac mae'r rhain wedi eu cymeradwyo. Yn ogystal, mae toriadau o £523,000 wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 3ydd o Fawrth, 2016. Mae manylion y cynlluniau arbedion sydd wedi eu cymeradwyo gan y Cabinet ynghyd a phroffil gweithredu wedi ei atodi yn Atodiad 1 er gwybodaeth.

1.2 Mae gan yr Adran yn ogystal 4 cynllun sydd wedi eu cyfeirio gan y Cabinet am waith pellach gan y pwyllgorau craffu perthnasol cyn dod i gasgliad sef:

1. **Rhoi'r gorau i swyddogaethau anstatudol – Gwasanaethau Difa Pla** - £67,000 [y mater yma yn dilyn adroddiad arall ger bron y Pwyllgor Craffu]
2. **Cam 2**: Lleihad o 10% pellach yng nghyllideb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd - £69,000
3. **Cam 3:** Lleihad o 10% pellach eto yng nghyllideb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd - £69,000
4. **Hysbysebu ceisiadau Cynllunio** - £15,000

1.3 Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor craffu cymunedau ar 12 Ionawr 2016 yn delio gyda'r cynllun cyntaf [Gwasanaeth Difa Pla] a chytunwyd y byddai'r Adran yn dychwelyd i'r pwyllgor gyda strwythur ffioedd a mesurau eraill i wneud yr Uned Difa Pla yn hunan cynhaliol. Fe fydd yr adroddiad yma felly yn ystyried y 3 cynllun arall sef 2 gynllun yn ymwneud a lleihau cyllidebau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd a chynllun yn ymwneud a lleihau'r gyllideb ar gyfer hysbysebu ceisiadau cynllunio.

**2. ARBEDION**

<u>ARBEDION WEDI EU CYMERADWYO</u>

2.1 Mae'r Adran wedi llwyddo i gyrraedd targed arbedion ar gyfer blwyddyn 2015-16 ac arbedion o £530,390 wedi eu canfod, a disgwylir cwrdd â'r targed o £349,810 yn 2016-17 a £362,683 yn 2017-18.

2.2 Mae mwy o fanylder am bob cynllun arbedion unigol wedi ei atodi yn Atodiad 1. Gwelwch yn yr atodiad yma bod y symiau ariannol yn erbyn pob cynllun wedi eu lliwio i gyd-fynd gyda pha mor hyderus ydi'r Adran o gyrraedd swm yr arbediad. Mae be mae'r lliwiau gwahanol yn dynodi wedi ei amlinellu isod yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Esboniad o ddynodiad lliwiau risg ar y rhestr arbedion**

| LLIW | DYNODIAD RISG |
|---|---|
| Gwyn | Cynllun wedi ei wireddu |
| Gwyrdd | Dim problem yn cael ei ragweld |
| Melyn | All fod problem yn cyrraedd yr arbediad disgwylir |
| Oren | Tebygol fod problem yn cyrraedd yr arbediad disgwylir |
| Coch | Annhebygol bod posib canfod yr arbediad |

2.3 Ar hyn o bryd [diweddariad 16 Mai 2016 yn atodiad 1], mae'r proffil risg i gwrdd ar arbedion sydd wedi eu cymeradwyo wedi ei ddangos isod yn Nhabl 2. Gellir gweld o Dabl 2 bod £35,000 o arbediad ar risg uchel o beidio cael ei ganfod tra bod yn debygol bod problem cyrraedd yr arbediad a ddisgwylir am werth £85,290 o arbedion sydd wedi eu cymeradwyo [oren]. Mae'r Adran yn ymdrechu i leihau lefel risg ar y cynlluniau hyn ac yn ogystal yn ceisio cynyddu'r arbedion dan y penawdau eraill sydd wedi eu cymeradwyo i reoli'r risgiau o **beidio â chyflawni** [coch].

**Tabl 2 Proffil risg o allu cwrdd gydag arbedion wedi eu cymeradwyo**

| LEFEL RISG | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| Gwireddwyd | £470,390 | £241910 | £ 4,300 | £716,600 |
| Gwyrdd | £0 | £151,900 | £174,713 | £326,613 |
| Melyn | 0 | £ 10,000 | £ 69,380 | £ 79,380 |
| Oren | 0 | £ 6,000 | £ 79,290 | £ 85,290 |
| Coch | 0 | 0 | £ 35,000 | £35,000.00 |
| **Cyfanswm** | **£470,390.00** | **£409,810** | **£362,683.00** | **£1,242,883.00** |

2.4 Mae swm ychwanegol o £90,000 wedi ei ganfod yn y flwyddyn ariannol 2015-16 i ddod a'r cyfanswm i £560,390, sydd hefyd yn codi cyfanswm arbedion yr Adran [2015-18] i £1,332,883. Mae'r arbediad ychwanegol yma wedi ei ganfod drwy reolaeth well o swyddfeydd y Cyngor sydd wedi galluogi rhentu allan gofod swyddfa i gwmnïau preifat yn swyddfeydd Penrallt, Caernarfon.

## ARBEDION CAFFAEL

2.5 Mae gofyn i'r Adran yn ogystal gwrdd ag arbedion o £78,000 rhwng 2015-18 drwy geisio lleihau'r pris yr ydym yn ei dalu am wasanaethau allanol drwy eu caffael mewn modd gwahanol. Mae £40,000 wedi ei ganfod yn barod drwy dendro gwasanaethau cludiant cyhoeddus gyda gofynion amgen o ran meini prawf. Mae oddeutu £38,000 yn weddill i'w gyfarfod dan y pennawd hwn.

**<u>ARBEDION YCHWANEGOL ERAILL</u>**

2.6 Fel rhan o'r rhestr o gynlluniau sydd wedi eu cyfeirio am waith pellach gan y pwyllgorau craffu yr oedd 2 gynllun arall wedi eu cynnwys yn wreiddiol sef:

- Cydweithio Cynllunio [Gwynedd ac Ynys Môn] £50,000
- Cydweithio Cynllunio [Gwynedd a APCE] £50,000

2.7 Nid yw yn bosib cyfarfod yr arbedion hyn drwy gydweithio gydag eraill bellach, ac o ganlyniad mae'r 2 gynllun yma wedi eu hepgor o'r rhestr. Er hyn, mae Pennaeth yr Adran wedi cytuno y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio cyfarfod yr arbediad yma mewn modd arall, ond wrth gwrs, nid yw wedi bod yn bosib hyd yma i warantu hyn.

**3. TORIADAU SYDD WEDI EU PENDERFYNU**

3.1 Yng Nghyngor llawn yr Awdurdod ar y 3ydd Fawrth 2016 fe benderfynwyd ar y toriadau i wasanaethau'r Cyngor.

3.2 Mae cyfanswm y toriadau sy'n effeithio'r Adran Rheoleiddio yn uniongyrchol yn £523,400, ac mae'r union benawdau, y swm ar amseriad ar gyfer pob toriad ynghyd ar amserlen wedi eu hamlinellu yn Nhabl 3.

**<u>Tabl 3:</u>** Toriadau wedi eu penderfynu ac amserlen ar gyfer Adran Rheoleiddio

| TORIAD | SWM | PRYD |
|---|---|---|
| Dwy swydd yn Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | £30,000<br>[50% i Ynys Môn] | Ebrill 2018 |
| Un swydd Uned Bioamrywiaeth | £30,000 | Ebrill 2017 |
| Hanner Cyllideb Uned Traffig a Phrosiectau | £65,000 | Ebrill 2016 |
| 20% o gyllideb cynnal llwybrau (cynnwys un swydd) | £110,000 | £20,000 Ebrill 2016<br>£90,000 Ebrill 2017 |
| Swydd o Uned Rheoli Llygredd | £35,000 | Ebrill 2017 |
| Swydd o Uned Hylendid Bwyd | £36,000 | Ebrill 2017 |
| Cyllideb Gwarchodfeydd Natur | £59,400 | £15,000 Ebrill 2016<br>£44,400 Ebrill 2017 |
| Swydd yn Uned Rheolaeth Gwaith Ffyrdd | £30,000 | Hydref 2016 |
| Cau Frondeg, Pwllheli a'r Traeth, Felinheli | £60,000 | Frondeg yn ôl i'r Cabinet |
| Swydd o Uned Cynnal Adeiladau | £28,000 | Ebrill 2016 |
| Swydd a hanner o Uned Stadau | £40,000 | Tachwedd 2016 |
| **CYFANSWM** | **£523,400.00** | |

3.3 Mae'r toriadau sydd wedi eu llachar liwio mewn glas (cyfanswm o £339,000) yn doriadau swyddi sydd yn golygu bod angen rhyw gymaint o newid strwythur a chyfrifoldebau i geisio lleihau'r effaith o'r toriad ar wasanaethau'r Adran.

**4. SUT GALLWN GWRDD AR ARBEDION CYNLLUNIAU SYDD WEDI EU CYFEIRIO AM WAITH PELLACH GAN Y PWYLLGORAU CRAFFU?**

4.1 Gobeithir bod yr esboniad o'r materion cyllidol o ran arbedion a thoriadau sydd yn wynebu'r Adran yn ddefnyddiol i'r pwyllgor werthfawrogi'r trosolwg. Er bod pob arbediad a thoriadau yn cael eu pecynnu fel materion ar wahân, anodd dros ben ydi rheoli'r her o gyrraedd y symiau sydd wedi eu hamlinellu heb fod yn ystyried y darlun cyfan. Felly mae yn rhesymol ystyried yr holl arbedion a thoriadau wrth feddwl am sut i ddelio gyda'r cynlluniau arbedion sydd wedi eu cyfeirio am waith pellach gan y pwyllgorau craffu.

4.2 Mae 3 cynllun yn cael ei ystyried yn yr adroddiad hwn, ac fe fydd y rhan yma o'r adroddiad yn son am sut gallwn gyfarfod yr arbedion yn eu herbyn sef:

1. **Cam 2:** Lleihad o 10% pellach yng nghyllideb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd - £69,000
2. **Cam 3:** Lleihad o 10% pellach eto yng nghyllideb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd - £69,000
3. **Hysbysebu ceisiadau Cynllunio** - £15,000

**CAM 2: LLEIHAD O 10% PELLACH YNG NGHYLLIDEB GWASANAETH GWARCHOD Y CYHOEDD - £69,000**

4.3 Efallai i aelodau'r pwyllgor gofio y bu i'r Uwch Reolwr gyda chyfrifoldebau am Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ymddeol ym mis Awst 2015. Ar y pryd, fe ddaru'r cyfrifoldeb am y Gwasanaeth hwn gael eu hychwanegu at gyfrifoldebau'r Uwch Rheolwr Cynllunio ac Amgylchedd ar sail dros dro. Yr oedd yn anodd iawn proffwydol a fyddai'r trefniant yma yn llwyddiannus ai pheidio, gan fod y maes gwaith yn arbenigol, bod 4 o Unedau ychwanegol i'w rheoli a bod dim llawer o amser wedi bod i drosglwyddo'r cyfrifoldebau.

4.4 Er hyn, mae Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd wedi ymdopi ar dyletswyddau ychwanegol yn rhagorol, gyda staff a rheolwyr yn cytuno bod y trefniant yn gweithio yn dda. Yng ngoleuni hyn, mae trefniadau wedi eu gwneud i roi'r trefniant yn ei le ar sail barhaol, ac felly unwyd y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd gyda Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd dechrau Chwefror 2016. Fe fydd y trefniant yma yn arbed y gost o gyflogi Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd, ac wedi cydnabyddiaeth am ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol cael ei ystyried mae'r arbediad o wneud hyn yn oddeutu £70,000. Bwriedir felly rhoi'r arbediad yma yn erbyn Cam 2, sef lleihad o 10% pellach yng nghyllideb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd - £69,000.

**CAM 3: LLEIHAD O 10% PELLACH YNG NGHYLLIDEB GWASANAETH GWARCHOD Y CYHOEDD - £69,000**

4.5 Gellir gweld o Rh8 a Rh11 [Atodiad 1] bod arbediad o £194,850 wedi ei gyflawni wrth leihau nifer staff yng Ngwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Mae hyn yn erbyn targed o £169,000. Felly mae gôr gyflawni o £25,850.

4.6 Barn yr Adran yw y dylid y ffigwr o gor-gyflawni gyfarfod rhan o'r arbediad Cam 3: lleihad o 10% pellach yng nghyllideb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sydd yn £69,000. Mae hyn wedyn yn gadael diffyg o £43,150.

4.7 Tra bod yn bosib ystyried lleihau cyllideb Gwarchod y Cyhoedd ymhellach debyg ei fod yn hynod anodd gwireddu hyn heb effeithio gallu’r Gwasanaeth i gynnal eu dyletswyddau statudol. Mae yn rhaid hefyd ystyried y toriadau sydd yn wynebu’r uned sef un swydd hylendid bwyd (£36,000) ac un swydd rheolaeth llygredd (£35,000).

**<u>HYSBYSEBU CEISIADAU CYNLLUNIO - £15,000</u>**

4.8 Ymhellach i ddeddf Cynllunio newydd a gyflwynwyd yn 2015 sydd ddim yn cyfeirio at newid y gofynion statudol i hysbysebu rhai mathau o geisiadau i’r wasg, ni fydd yn bosib lleihau’r gost ar gyfer hysbysebu ceisiadau cynllunio. Felly barn yr Adran yw y dylid ceisio gyfarfod ar arbediad drwy gynllun amgen.

## 5. CASGLIAD

5.1 Nid yw’r sefyllfa yma yn un hawdd, ond teimlir bod posib cwrdd â’r arbedion dan sylw drwy fod yn hyblyg ac ystyried yr her yn ei gyfanrwydd fel Adran wrth greu cynlluniau amgen.

5.2 O’r hyn sydd wedi ei gyflwyno, fe welwch fod angen ystyried nid yn unig y cynlluniau sydd wedi eu cyfeirio am waith pellach gan y pwyllgorau craffu, ond hefyd yr arbedion sydd wedi eu cymeradwyo sydd gyda risg o beidio cyflawni. Mae'r cynlluniau yma yn cael eu dangos yn Nhabl 4. Gweler o’r tabl yma bod cynllun amgen ei angen i gyfarfod isafswm o £178,440 ac yn ddelfrydol £278,440.

**<u>Tabl 4:</u>** Arbedion angen eu hystyriaeth mewn cynlluniau amgen:

| CYNLLUN | SWM |
|---|---|
| Cam 3: Lleihad o 10% pellach yng nghyllideb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | £ 43,150 |
| Hysbysebu ceisiadau Cynllunio | £ 15,000 |
| Arbedion wedi eu cymeradwyo- lefel risg oren | £ 85,290 |
| Arbedion wedi eu cymeradwyo- lefel risg coch | £ 35,000 |
| Deheuad i gwrdd ag arbediad i gwrdd â’r diffyg o ddau gynllun cydweithio wedi eu hepgor | £100,000 |
| **CYFANSWM** | **£278,440.00** |
| **Cyfanswm heb gynnwys yr arbediad deheuad** | **£178,440.00** |

## 6. CYNLLUN AMGEN

6.1 Sonnir yn rhan 3 o’r adroddiad wrth drafod toriadau sy’n wynebu’r Adran y bwriad i edrych ar man addasiadau i strwythur Gwasanaethau’r Adran i leihau’r effaith y toriadau ar wasanaethau. Mae'r Adran o’r farn bod posib edrych ar man addasiadau i strwythur Gwasanaethau’r Adran ar draws yr holl Unedau, gan gynnwys yr Unedau sydd yn cael eu heffeithio gan doriadau yn ogystal â’r rhai sydd ddim. Credir bod posib cyfarfod rhywfaint o’r swm sydd ei angen drwy wneud man addasiadau i’r strwythur.

6.2 Gwelir o’r wybodaeth am arbedion sydd wedi eu cymeradwyo (Atodiad 1) bod sawl cynllun lle mae arbediad yn cael ei ganfod drwy gynyddu incwm. Teimlir bod sgôp i gynyddu incwm drwy ganolbwyntio fwy o ymdrech ar rhai agweddau. Mae faint fwy o incwm posib gellir ei godi drwy gynyddu ymdrech angen tipyn mwy o waith cyn ymrwymo'r ffigwr.

6.3 Mae hefyd sgôp wrth gwrs i leihau’r risgiau sydd yn ein rhwystro rhag gwireddu’r arbedion sydd wedi eu cymeradwyo. Mae’r Adran yn canolbwyntio ar hyn a dros y misoedd diwethaf wedi llwyddo i leihau’r risg o wireddu ar nifer o’r cynlluniau.

**7. ARGYMHELLIAD**

7.1 Derbyn yr wybodaeth yn yr adroddiad yn cynnwys yr hyn sydd wedi ei gyflawni ar yr arbedion hyd yn hyn.

7.2 Bod yr Adran yn bwrw ymlaen i gyfarfod arbediad isafswm o £178,440 [anelu at £278,440] drwy weithredu ar gynllun amgen. Fe fydd y cynllun amgen yn canolbwyntio ar gynyddu incwm, newid strwythur a lleihau risgiau sydd yn rhwystro arbedion sydd wedi eu cymeradwyo rhag eu gwireddu..

7.3 Bod yr Adran yn adrodd ar y cynnydd ar yr holl arbedion a thoriadau ynghyd a ffigyrau pendant i’w ymrwymo iddynt o ran cynllun amgen i’r Pwyllgor Craffu mewn 9 mis.

| Cyf | Cynllun | Swyddog perthnasol | 2015/16 £ | 2016/17 £ | 2017/18 £ | 2018/19 £ | Cyfanswm £ | Cyfnod Gwireddu | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cynlluniau Cwantwm £16m** | | **90,000** | **0** | **0** | | **935,880** | | |
| | **Cynlluniau Effeithlonrwydd .5%** | | | | | | **162,000** | | |
| | **Cyfanswm cynlluniau £16m** | | **90,000** | **0** | **0** | | **1,097,880** | | |
| | **Cyfanswm Cynlluniau Effeithlonrwydd 1%** | | **0** | **0** | **0** | | **390,930** | | |
| | **Arbedion 2015 i 2018** | | | | | | | | |
| Rh1 | Ail Strwythuro Gwasanaeth (Pob Uned) | | 58,170 | 71,830 | | | **130,000** | Ch 1/15-16 Ch 1/16-17 | 15/16 wedi ei wireddu ac ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu'r gweddill. |
| Rh2 | Cyfrif Llif / Cyflymdra (Uned Traffig) | | 30,000 | | | | **30,000** | | Wedi ei wireddu |
| Rh3 | Arbed Arian Cynnal Pontydd (1) (Refeniw) | | | | 62,000 | | **62,000** | Ch 2/17-18 | Bydd angen datrys y sefyllfa hefo'r Adran Priffyrdd gan gynnwys cytuno ar raglen waith er gallu gwireddu |
| Rh4 | Arbed Arian Cynnal Pontydd (2) (Refeniw) | | | 37,000 | | | **37,000** | Ch 1/16-17 | Wedi ei wireddu |
| Rh5 | | | | | | | **0** | | |
| Rh6 | Cynnydd Incwm Gwaith Strydoedd (Uned Gwaith Strydoedd) | | 10,000 | 10,000 | 17,290 | | **37,290** | Ch 1/15-16 Ch 1/16-17 Ch 1/17-18 | Er bod yr incwm yn cynyddu, mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd ar waith i fewnoli gwasanaethau, sy'n golygu colled incwm o oddeutu £65,000 i'r Uned Gwaith Strydoedd. Er hyn, mae datrysiad ar y gweill er gwireddu yn llawn. |
| Rh7 | | | | | | | **0** | | |
| Rh8 | Gostyngiad mewn costau rheoli – Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | | 96,100 | | | | **96,100** | | Wedi ei wireddu |
| Rh9 | Rhoi'r gorau I Swyddogaethau Anstatudol – Gwasanaethau Rheoli Pla | | | | | | **0** | | |
| Rh10 | Cynnydd yn y ffioedd Marchnadoedd a Ffeiriau er mwyn adennill costau | | | 6,000 | | | **6,000** | Ch 1/16-17 | Mae'n bosib na fydd modd gwireddu'r arbediad fel oedd wedi ei ragweld a bydd angen cyflwyno cynllun amgen. |
| Rh11 | Lleihad o 10% yng nghyllidebau Uned Gwarchod y Cyhoedd sy'n ymdrin â swyddogaethau ble mae gan y Cyngor ddisgresiwn yn lefel y gwasanaeth a ellir ei ddarparu. | | 87,340 | 11,410 | | | **98,750** | | Wedi ei wireddu |
| Rh12 | Lleihad ar Rh11 o 10% pellach (h.y. cyfanswm o 20%), yng nghyllidebau'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sy'n ymdrin â swyddogaethau ble mae gan y Cyngor ddisgresiwn yn lefel y gwasanaeth a ellir ei ddarparu. | | | | | | **0** | | |
| Rh13 | Rhesymoli'r Uned Bioamrywiaeth | | | 30,070 | | | **30,070** | Ch 1/16-17 | Ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu. |
| Rh14 | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | | | | 23,213 | | **23,213** | Ch 1/17-18 | Ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu. |
| Rh15 | Codi ffi am gyngor Cynllunio. | | 10,000 | | | | **10,000** | | Wedi ei wireddu |
| Rh16 | Hysbysebu Ceisiadau Cynllunio | | | | | | **0** | | |
| Rh18 | Rhesymoli Gwasanaeth Coed Cymru | | 8,560 | | | | **8,560** | | Wedi ei wireddu |
| Rh19 | | | | | | | **0** | | |
| Rh20 | | | | | | | **0** | | |
| Rh21 | Cydweithio cefn gwlad a mynediad (Gwynedd a'r Parc) | | | | 35,000 | | **35,000** | Ch 1/17-18 | Hwn wedi ei adnabod o'r cychwyn cyntaf fel arbediad fuasai'n anodd ei warantu heb ail strwythuro llywodraeth leol neu newidiadau yn nhrefniant llyowdraeth Paricau ac AHNE. Mae'r Adran am gyflwyno cynllun amgen yn y man. |
| Rh23 | Rhesymoli Pridiannau Tir 2014 | | | 12,500 | | | **12,500** | | Wedi ei wireddu |
| Rh24 | Rhesymoli defnydd o'r ceir pwl a fflyd a lleihau costau teithio | | | 18,000 | | | **18,000** | Ch 1/16-17 | Ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu. |
| Rh25 | Ail strwythuro Unedau Rheolaeth Datblygu, Gorfodaeth Cynllunio a Chefnogol Cynllunio | | 36,920 | | 59,380 | | **96,300** | Ch 1/15-16 Ch 1/17-18 | 15/16 wedi ei wireddu ond mae angen ychydig o waith i allu gwireddu'r gweddill. |
| Rh26 | Rhesymoli gwaith y Tîm Hawliau Tramwy | | 74,300 | 10,000 | 10,000 | | **94,300** | Ch 1/15-16 Ch 1/16-17 Ch 1/17-18 | 15/16 wedi ei wireddu o dorri 2 swydd ond mae angen cytuno ar gynllun gwaith er gwireddu'r gweddill |
| Rh27 | Lleihad pellach ar Rh11 a Rh12 o 10% (h.y. cyfanswm o 30%) yng nghyllidebau'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sy'n ymdrin â swyddogaethau ble mae gan y Cyngor ddisgresiwn yn lefel y gwasanaeth a ellir ei ddarparu. | | | | | | **0** | | |
| Rh28 | Cynnydd mewn ffioedd er mwyn adennill costau – Trwyddedu Tacsis | | | 10,000 | | | **10,000** | Ch 1/16-17 | Wedi ei wireddu |
| Rh29 | Tystysgrifau DEC | | 7,000 | | | | **7,000** | | Wedi ei wireddu |
| Rh30 | Ail strwythuro Uned Datblygu | | | | 39,000 | | **39,000** | Ch 1/17-18 | Yn weithredol 1/4/17. Ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu. |
| Rh31 | Ail Strwythuro Uned Stadau | | | 12,000 | 7,500 | | **19,500** | Ch 1/16-17 Ch 1/17-18 | Ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu. |
| Rh32 | Gwasanaeth Glanhau | | 20,700 | 15,000 | 4,300 | | **40,000** | | Wedi ei wireddu yn fuan. |
| Rh33 | Adolygiad Rhent Manddaliadau | | | | 20,000 | | **20,000** | Ch 1/17-18 | Ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu. |
| Rh34 | Ail Strwythuro Uned Diogelwch a'r Uned Gwaith Rhaglenedig | | | 10,000 | 5,000 | | **15,000** | Ch 1/16-17 Ch 1/17-18 | Ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu. |
| Rh35 | Trwyddedau meddalwedd | | 5,000 | | | | **5,000** | | Wedi ei wireddu |
| Rh36 | Lleihau arbenigedd mecanyddol a thrydanol | | | 36,000 | | | **36,000** | | Wedi ei wireddu |
| Rh37 | Lleihau nifer o faniau | | 7,000 | | | | **7,000** | | Wedi ei wireddu |
| Rh38 | Lleihau nifer Gofalwyr Pencadlys | | 19,300 | | | | **19,300** | | Wedi ei wireddu |
| Rh39 | Adolygiad Parcio | | | 120,000 | 80,000 | | **200,000** | Ch 1/16-17 Ch 1/17-18 | 15/16 a 16/17 wedi eu gwireddu ac ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu'r gweddill. (£60k 15/16 ddim i'w dynnu allan - WEJ 8.3.16 |
| | | | | | | | **0** | | |
| | | | | | | | **0** | | |
| | | | | | | | **0** | | |
| | **Cyfanswm Cynlluniau Arbedion 2015 i 2018** | | **470,390** | **409,810** | **362,683** | | **1,242,883** | | |
| | **Toriadau 2016-17 i 2017-18** | | | | | | | | |
| 2 | Dileu 1 swydd allan o 10.5 yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | | | | 15,000 | | **15,000** | Ch 1/18-19 | Ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu. |
| 17 | Dileu ail swydd o'r 10.5 yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y cyd. | | | | 15,000 | | **15,000** | Ch 1/18-19 | Ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu. |
| 21 | Dileu 1 swydd allan o 2.45 yn yr Uned Bioamrywiaeth | | | | 30,000 | | **30,000** | Ch 1/17-18 | Ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu. |
| 22 | Lleihau 50% ar y gyllideb rheoli traffig | | | 65,000 | | | **65,000** | Ch 1/16-17 | |
| 23 | Dileu 20% ar y gyllideb llwybrau cyhoeddus yn cynnwys 1 swydd allan o 7.2 | | | 20,000 | 90,000 | | **110,000** | Ch 1/16-17 Ch 1/17-18 | 16/17 wedi ei wireddu ac ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu'r gweddill. |
| 25 | Dileu 1 swydd allan o 8 yn yr Uned Rheoli Llygredd | | | | 35,000 | | **35,000** | Ch 1/17-18 | Ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu. |
| 27 | Dileu 1 swydd allan o 13.8 yn yr Uned Hylendid Bwyd | | | | 36,000 | | **36,000** | Ch 1/17-18 | Ni ragwelir unrhyw broblem gwireddu. |
| 46 | Dileu'r gyllideb ar gyfer cynnal y Gwarchodfeydd Natur | | | 15,000 | 44,400 | | **59,400** | Ch 1/16-17 Ch 1/17-18 | 16/17 wedi ei wireddu a trafodaethau ar y gweill hefo asiantaethau eraill er creu incwm i gynnal y gwasanaeth |
| 63 | Dileu 1 swydd allan o 7 ar reolaeth gwaith ffyrdd | | | 15,000 | 15,000 | | **30,000** | Ch 3/16-17 | Wedi ei wireddu |
| C8 | Cau adeiladau Frondeg Pwllheli ac Adeilad Ffordd y Traeth yn y Felinheli | | | 20,000 | 23,330 | 16,670 | **60,000** | Ch 1/16-17 Ch 1/17-18 Ch 1/18-19 | Angen i'r Gwasanaeth adrodd yn ôl i'r Cabinet ar achos busnes cynllun C8 (Frondeg) cyn symud ymlaen i'w wireddu er mwyn sicrhau fod yna atebion derbyniol i anghenion y rhai sydd yno ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, rhagwelir y posibilrwydd y bydd y cynllun yn o leiaf llithro |
| C9 | Dileu 1 swydd allan o 8.5 yn yr Uned Cynnal a Chadw Adeiladau | | | 28,000 | | | **28,000** | Ch 1/16-17 | Wedi ei wireddu |
| C10 | Dileu 1.5 swydd allan o 7.2 yn yr Uned Stadau a Chyfleusterau | | | 16,670 | 23,330 | | **40,000** | Ch 3/16-17 | Rhagwelir llithriad mewn gwireddu'r cynllun hwn gan bod angen rhyw gymaint o newid strwythur a chfrifoldebau i geisio lleihau'r effaith ar wasanaethau'r Adran |
| | | | | | | | **0** | | |
| | | | | | | | **0** | | |
| | **Cyfanswm Toriadau 2016-17 i 2017-18** | | | **179,670** | **327,060** | **16,670** | **523,400** | | |
| | **Cyfanswm Strategaeth Arbedion** | | **560,390** | **589,480** | **689,743** | **16,670** | **3,255,093** | | |

| | | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm cynlluniau £16m** | Gwireddwyd | 90,000 | | | | |
| | Gwyrdd | 0 | | 0 | | |
| | Ambr | 0 | | 0 | | |
| | Coch | 0 | | 0 | | |
| | | **90,000** | | **0** | | **1,097,880** |
| **Cynlluniau Effeithlonrwydd 1%** | Gwireddwyd | 0 | 0 | 0 | | |
| | Gwyrdd | 0 | 0 | 0 | | |
| | Ambr | 0 | 0 | 0 | | |
| | Coch | 0 | 0 | 0 | | |
| | | **0** | **0** | **0** | | **390,930** |
| **Cyfanswm Cynlluniau Arbedion 2015 i 2018** | Gwireddwyd | 470,390 | 241,910 | 4,300 | | |
| | Gwyrdd | 0 | 151,900 | 174,713 | | |
| | Melyn | 0 | 10,000 | 69,380 | | |
| | Ambr | 0 | 6,000 | 79,290 | | |
| | Coch | 0 | 0 | 35,000 | | |
| | | **470,390** | **409,810** | **362,683** | | **1,242,883** |
| **Toriadau** | Gwireddwyd | | 143,000 | 15,000 | 0 | |
| | Gwyrdd | | 0 | 265,400 | 0 | |
| | Melyn | | 36,670 | 23,330 | 0 | |
| | Ambr | | 0 | 23,330 | 16,670 | |
| | | | **179,670** | **327,060** | **16,670** | **523,400** |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | Mehefin 16eg, 2015 |
| **TEITL** | Y Gwasanaeth Difa Pla |
| **AWDUR** | Dafydd Gibbard, Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Aelodau ar opsiynau posib ar gyfer darpariaeth y Gwasanaeth Difa Pla a Wardeiniaid Cwn i'r dyfodol a gofyn iddynt graffu'r opsiynau a gynigir i gau'r bwlch ariannol presennol. |

**1. CEFNDIR**

1.1 Fel rhan o raglen arbedion effeithlonrwydd yr Adran Rheoleiddio ar gyfer 2015-18 cyflwynwyd cynnig o arbedion gwerth £67,000 drwy ddileu'r Uned Difa Pla, oedd bryd hynny yn rhan o Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yr Adran. Pan roddwyd ystyriaeth i gynlluniau arbedion effeithlonrwydd yr Adran gan y Cabinet, eu penderfyniad oedd gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau gael eglurder ar wir effaith diddymu'r Uned Difa Pla.

1.2 Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar Ionawr 12fed 2016. Barn y Pwyllgor oedd bod hwn yn wasanaeth pwysig iawn i'r cyhoedd gan nodi'r prif gasgliadau isod:

- Gwasanaeth pwysig ac angenrheidiol i'r cyhoedd - pe na fyddai ar gael gan y Cyngor byddai risg i gwmnïau preifat allu rheoli'r farchnad yn llwyr gan godi eu prisiau ac arwain at gostau uwch i'r cyhoedd
- Mae'n wasanaeth dibynadwy a safonol ac mae gan y cyhoedd ffydd yng ngallu'r Cyngor i ddelio a materion fel hyn, yn aml mewn sefyllfaoedd sy'n achosi pryder a phoen meddwl i'r rhai sy'n goddef y pla ar y pryd.
- Croesawu'r bwriad i farchnata'r gwasanaeth ac edrych ar y strwythur ffioedd presennol
- Rhaid ystyried oblygiadau iechyd a diogelwch i'r cyhoedd petai'r gwasanaeth yn cael ei ddiddymu - nid ystyriaethau ariannol yn unig.
- Mae nifer o wasanaethau mewnol y Cyngor (e.e. cartrefi henoed ac ysgolion) yn ddibynnol ar y gwasanaeth Difa Pla - pe bai'n cael ei ddiddymu byddai cynnydd sylweddol mewn costau i'r gwasanaethau hynny a fyddai'n lleihau effaith unrhyw arbediad ariannol i'r Cyngor

1.3 Prif allbwn y craffu oedd cais i edrych ar opsiynau i wneud y gwasanaeth yn hunan gynhaliol yn gyllidol, yn hytrach na'i ddiddymu.

1.4 Cydnabuwyd hefyd na fyddai diddymu'r Uned Difa Pla yn arwain at arbediad o £67,000 doed a ddel. Gellir crynhoi sefyllfa gyllidol yr Uned fel a ganlyn

| | |
|---|---|
| Costau darparu'r gwasanaeth | £144,880 (yn cynnwys ad-daliadau canolog) |
| Targed Incwm | £88,590 |
| **Bwlch Cyllidol** | **£56,290** |

1.5 Ymddengys felly mai'r uchafswm arbediad fyddai ar gael o ddiddymu'r uned Difa Pla yw £56,290. O edrych yn oer ar yr uchod gellid tybio y byddai angen cau bwlch o £56,290 os am wneud yr uned yn hunan gynhaliol yn gyllidol a chreu'r un swm a fyddai yn deillio o ddiddymu'r uned.

1.6 Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof fod costau darparu'r gwasanaeth yn cynnwys cyfraniad tuag at gostau canolog y Cyngor, sef £27,850. Pe diddymir y gwasanaeth byddai'n rhaid i'r Cyngor ail gyfeirio'r costau canolog hyn i wasanaethau eraill ac felly ni fyddai'r swm yma'n cael ei arbed mewn gwirionedd. Felly, y gwir arbediad o ddiddymu'r gwasanaeth ar ôl hepgor y costau hyn fyddai:


| | |
|---|---|
| Bwlch cyllidol presennol (costau llai incwm) | £56,290 |
| llai | |
| Ad-daliadau canolog fyddai angen eu hail gyfeirio at wasanaethau eraill | £27,850 |
| **Gwir arbediad o ddiddymu'r Uned Difa Pla** | **£28,440** |

1.7 Yn unol â chais y Pwyllgor, bydd yr adroddiad yma felly'n edrych ar opsiynnau i gyflawni'r arbedion a fyddai'n deillio o ddiddymu'r Uned, ond drwy ei gwneud yn hunan gynhaliol yn gyllidol yn hytrach na diddymu'r gwasanaeth pwysig yma i'r cyhoedd. Bydd yr opsiynnau yn canolbwyntio ar geisio cyrraedd isafswm o £28,440, sef y gwir arbediad arianol fyddai'n deillio o ddiddymu'r Uned Difa Pla.

**2. ESBONIAD O NATUR Y GWASANAETH RHEOLAETH A DIFA PLA**

2.1 Mae gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn cyflogi 4 swyddog llawn amser i weithredu fel Swyddogion Difa Pla/Wardeniaid Anifeiliaid. Mae'r swyddogion yn treillio 70% o'u hamser yn darparu gwasanaeth Rheoli a Difa Pla, 20% o'u hamser yn darparu gwasanaeth statudol Rheoli Cŵn ac 10% o'u hamser ar gydweithio gyda'r Swyddogion Iechyd Amgylchedd ar faterion statudol o wahardd niwsans sŵn a gwarchod iechyd cyhoeddus. Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chyflogi'r swyddogion wedi eu rhannu rhwng y penawdau gwaith hyn, ac yn cael ei ddangos ar ffurf diagram yn Ffigwr 1.

**Ffigwr 1:** Diagram yn dangos rhaniad gwaith swyddogion rheolaeth a difa pla:




2.2 Mae'r uned yn cynnig gwasanaeth rheoli pla drwy gytundeb i gleientiaid allanol a mewnol , yn ogystal â gwasanaeth ymatebol i ddifa pla.

2.3 Mae gan yr Uned nifer o gytundebau gyda chleientiaid allanol a mewnol i reoli pla. Cynhyrchir incwm oddeutu £26,000 drwy gytundebau allanol, a £24,000 drwy gytundebau mewnol, sydd yn gyfanswm o £50,000. Dylid nodi nad yw'r uned yn hysbysebu na marchnata'r gwasanaeth yma ar hyn o bryd.


2.4 Mae'r Uned hefyd yn cynnig gwasanaeth ymatebol i ddifa pla ar eiddo domestig a masnachol ar gyfer ystod eang o bla. Mae llawer o ganmol gan gwsmeriaid am y gwasanaeth hwn.

2.6 Mae'r gwasanaeth yn creu incwm o oddeutu £34,000 yn flynyddol o waith ymatebol difa pla, ond wrth gwrs does dim sicrwydd pendant ar faint yr incwm yma oherwydd natur gwbl ymatebol y gwaith. Dengys y tabl a'r diagram isod fanylder pellach o'r galw am y gwasanaeth yma.

**Tabl 2:** Cymhariaeth o alw am wasanaethau difa pla yn 2014-2015.

| Math o Bla | Cais am Gyngor | Cais Difa Pla |
|---|---|---|
| Llygod Mawr | 240 | 354 |
| Llygod Tŷ | 62 | 156 |
| Chwilod Du (cocrotsys) | 3 | 2 |
| Chwilod Gwely | 7 | 3 |
| Chwain | 35 | 84 |
| Gwiwerod Llwyd | 4 | 2 |
| Gwenyn Meirch | 173 | 478 |
| Gwenyn | 55 | 8 |
| Morgrug | 17 | 53 |
| Pryfetach eraill | 56 | 46 |
| Gwylanod | 34 | 0 |
| Arall | 45 | 4 |
| **CYFANSWM** | **731** | **1190** |

**Ffigwr 2:** Dadansoddiad o'r 1190 o geisiadau am wasanaeth difa pla yn 2014-15



2.7 Hyd nes yn ddiweddar, roedd yr Uned Difa Pla yn eistedd o fewn Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Yn dilyn adolygiad o sawl maes gwaith o fewn yr Adran Rheoleiddio, mae'r Uned bellach wedi ei throsglwyddo i'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol. Mae gan y Gwasanaeth Eiddo brofiad o fod yn darparu gwasanaethau ar sail fasnachol i gleientiaid allanol ac maent eisoes yn rheoli gweithluoedd sy'n darparu gwasanaeth trwsio a gwasanaeth glanhau. Mae'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol hefyd yn un o brif gwsmeriaid yr Uned Difa Pla gan gomisiynu gwaith cyson ganddynt i warchod adeiladau ysgol, canolfannau hamdden, cartrefi henoed ayb. Credir y bydd gallu priodi'r agweddau hyn gyda'r Uned Difa Pla yn cynnig opsiynau gwell o ran ceisio sicrhau gwasanaeth hunan gynhaliol yn gyllidol.

**3. OPSIYNAU I WNEUD Y GWASANAETH YN HUNAN GYNHALIOL YN GYLLIDOL**

3.1 Yn dilyn neges glir y Pwyllgor Craffu yn Ionawr, aseswyd y posibilrwydd realistig o gwrdd â'rarbediad o ddiddymu'r gwasanaeth (£28,440) fel isafswm a cheisio cyrraedd y ffigwr o £56,290 i fod yn hollol hunan gynhaliol.

3.2 Yn dilyn gwaith manwl i ystyried pa opsiynnau sy'n agores i'r Cyngor, argymhellir y gellir cau'r bwlch drwy gyfuniad o'r canlynol:

- Adolygu ffioedd contractau mewnol
- Adolygu ffioedd contractau allanol
- Adolygu ffioedd gwaith ymatebol
- Gosod targed incwm realistig ar gyfer gwaith ychwanegol yn dilyn marchnata

**<u>Adolygu ffioedd contractau mewnol</u>**

3.3 Oni bai am gynnyddu i gwrdd â chwyddiant, nid yw'r ffioedd ar gyfer cytundebau difa pla blynyddol gyda chleientau mewnol y Cyngor wedi cael eu hadolygu ers blynyddoedd lawer. O ganlyniad mae nifer ohonynt yn sylweddol is na'r hyn fyddai'n cael ei gynnig gan y farchnadbreifat. Golyga hyn fod y lefel incwm presennol yn isel a bod modd gwireddu cynnydd rhesymol fel cyfraniad tuag at y bwlch ariannol.

3.4 Dylid cadw mewn cof y byddai'n rhaid i gleientau mewnol fynd at gwmnïau preifat pe bai'n rhaid diddymu'r Uned Difa Pla. Wrth adolygu'r ffioedd presennol rydym wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng cynyddu i lefel sy'n adlewyrchiad teg o'r gwasanaeth a dderbynnir, ond heb wthio'r gost i lefel a fyddai'n anghynaladwy i'r cleientau mewnol neu'n uwch na lefelau'r sector breifat.

3.5 Casgliad yr ail asesiad o'r ffioedd hyn yw bod modd gwireddu cynnydd blynyddol o £16,500 fel cyfraniad tuag at wneud yr Uned yn hunan cynhaliol yn arianol a thrwy hynny warchod ei fodolaeth fel gwasanaeth.

3.6 Er mwyn dod i'r casgliad hwn, cafwyd pris cyfatebol gan gwmni preifat sy'n gwasanaethu'r ardal, yn seiliedig ar yr union adeiladau sy'n cael eu gwasanaethu gan yr Uned Difa Pla ar hyn o bryd.

3.7 Y "cwsmer" yn achos mwyafrif y cleientau mewnol ydi'r Uned Gynnal a Chadw Adeiladau, sydd wrth gwrs bellach yn yr un Gwasanaeth a'r Uned Difa Pla. Golyga hyn ein bod wedi gallu dod i gytundeb ar y ffioedd newydd cyn eu cyflwyno fel rhan o'r datrysiad i wneud yr uned yn hunan gynhaliol yn gyllidol. Yn ogystal â'r sicrwydd yma 'rydym hefyd wedi gallu cytuno ar rhai materion fydd yn sicrhau gwell lefel gwasanaeth i ddefnyddwyr ein hadeiladau e.e. sicrhau ymateb brys i geisiadau am wasanaeth ymatebol i adeiladau allweddol y Cyngor e.e. ysgolion a chartrefi gofal. Bydd yr Ysgolion cynradd hefyd yn derbyn un ymweliad ychwanegol y flwyddyn i'r hyn sy'n cael i gynnig ar hyn o bryd a fydd ar gael ar gyfer gwaith ymatebol ei natur.

**<u>Adolygu ffioedd contractau allanol</u>**

3.8 Fel yn achos y contractau mewnol, nid yw'r ffioedd ar gyfer cytundebau difa pla blynyddol gyda chleientau allanol wedi cael eu hadolygu ers 2011/12.

3.9 Eto, rydym wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng cynyddu i lefel sy'n adlewyrchiad teg o'r gwasanaeth a dderbynnir, ond mae'n rhaid bod yn effro i'r risg y gallai codi ffioedd yn rhy uchel arwain at gwsmeriaid yn chwilio am wasanaeth gan eraill.

3.10 Casgliad yr ail asesiad o'r ffioedd hyn yw bod modd gwireddu cynnydd blynyddol o £6,500 fel cyfraniad tuag at wneud yr Uned yn hunan gynhaliol yn arianol a thrwy hynny warchod ei fodolaeth fel gwasanaeth.

**<u>Adolygu ffioedd gwasanaeth ymatebol</u>**

3.11 Nid yw'r ffioedd hyn wedi eu hadolygu ychwaith ac fel yn achos y contractau allanol mae'n rhaid bod yn ofalus nad ydym yn cynyddu'r ffioedd i lefel sydd ddim yn gystadleuol nac yn cynnig gwerth am arian.

3.12 Casgliad yr ail asesiad o'r ffioedd hyn yw bod modd gwireddu cynnydd blynyddol o £7,500 fel cyfraniad tuag at wneud yr Uned yn hunan gynhaliol yn arianol a thrwy hynny warchod ei fodolaeth fel gwasanaeth.

**4. Dennu gwaith newydd drwy farchnata**

4.1 O edrych ar gapasiti presennol yr Uned, rydym yn ffyddiog y gellid cyflawni mwy o waith gyda'r Adnoddau staff presennol. Dros y misoedd diwethaf rydym wedi adolygu ein trefniadau gweinyddol a chyflwyno datrysiad meddalwedd newydd a fydd yn rhyddhau amser staff i ganolbwyntio ar y gwaith dydd i ddydd yn hytrach na'r elfen weinyddol ac anfonebu.

4.2 Mae'n anodd proffwydo faint o alw sydd yn y farchnad ar gyfer y gwaith yma, ond gwyddom y bydd y galw yn cynyddu o Fedi ymlaen wrth i ddeddfwriaeth gyflwyno rheolau newydd a fydd yn cyfyngu gallu unigolion a chwmnïau masnachol i ddefnyddio rhai mathau o gemegau difa pla.

4.3 Gwyddom hefyd nad ydym wedi marchnata'r gwasanaeth Difa Pla o gwbl ac er hynny mae'r cyhoedd yn cysylltu'n ddyddiol i ofyn am wasanaeth. Gwyddom fod gan ein cwsmeriaid ffydd yn y gwasanaeth a roddir gan yr uned ac mae'n deg tybio y gallem ddenu cwsmeriaid newydd pe baem yn marchnata 'r hyn y gallwn ei gynnig.

4.4 Rhaid bod yn wyliadwrus nad ydym yn bod yn orfodog yn hyn o beth. Ar hyn o bryd mae'r contractau difa pla sydd gennym wedi eu rhannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dwyfor | 52 |
| Meirionnydd | 29 |
| Arfon | 13 |

4.5 O edrych ar Arfon yn benodol, mae'n ymddangos fod y nifer o gontractau presennol yn isel iawn o gofio mai dyma'r ardal fwyaf poblog o'r sir a bod y niferoedd busnesau yno yn llawer uwch na'r ddwy ardal arall. O bosib bod mwy o gystadleuaeth yn Arfon wrth gwrs, ond wedi dweud hynny mae'r cwmnïau cenedlaethol sy'n cynnig y gwasanaeth yma yn gweithredu drwy Wynedd gyfan. Er mwyn bod yn geidwadol, rydym wedi rhagdybio y gellid cynyddu'r nifer contractau yn Arfon i'r un lefel a Meirionnydd.

4.6 Mae'r ymarferiad proffwydo isod yn ceisio ystyried beth fyddai'n bosib o ran denu gwaith newydd o fewn yr adnodd staff sydd ar gael, pe baem yn marchnata'r gwasanaeth:

| Nifer contractau presennol (ar ôl codi nifer Arfon i'r un lefel a Meirionnydd | Cynnydd mewn ffioedd o gynyddu nifer contractau Arfon i'r un nifer a Meirionnydd | Cynnydd o 10% o farchnata'r gwasanaeth | Cynnydd o 20% o farchnata'r gwasanaeth | Cynnydd o 30% o farchnata'r gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| 110 | £3,840 | £2,640 | £5,280 | £7,920 |

4.7 O fabwysiadu'r opsiwn canol, sef cynnydd o 20% yn y contractau allanol, ynghyd a chodi niferoedd contractau Arfon i'r un nifer a'r rhai ym Meirionnydd, gellid creu incwm o'r newydd o £9,120. Byddai angen proffilio'r cynnydd dros gyfnod o ddwy flynedd er mwyn rhoi cyfle i'r marchnata ddwyn ffrwyth.

## 5. CASGLIADAU

5.1 I grynhoi'r hyn a nodwyd yn rhan 3 a 4 yr adroddiad hwn, byddai cyflwyno'r ffioedd newydd a dennu gwaith o'r newydd drwy farchnata yn arwain at y cynnydd incwm canlynol: :

| | |
|---|---|
| Contractau mewnol | £16,500 |
| Contractau allanol | £6,500 |
| Gwasanaeth Ymatebol | £7,500 |
| Dennu gwaith newydd | £9,120 |
| **Cyfanswm** | **£39,620** |

5.2 Byddai'r elfennau uchod felly yn arwain at gynnydd incwm oddeutu £40,000, o'i gymharu gyda'r gwir arbediad oddeutu £28,000 a fyddai'n deillio o ddiddymu'r gwasanaeth.

5.3 Mae elfen o risg wrth ymgymryd ag unrhyw ymarferiad proffwydo incwm yn y dyfodol wrth gwrs. Ond, fel esboniwyd yn 3.7 uchod mae mwyafrif yr elfen contractau mewnol eisoes wedi eu cytuno. Ar gyfer y gweddill, rydym wedi ceisio bod yn rhesymol ym mhob achos, ac ar sail y galw am wasanaeth arferol, dengys yr uchod fod modd mynd tu hwnt i'r £28,000 a fyddai'n cael ei arbed o ddiddymu'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd. Pe na fyddai'r cynnydd a broffwydir yn cael ei wireddu yna byddai angen ail asesu'r lefelau staffio presennol er mwyn ceisio cwrdd ag unrhyw ddiffyg.

**6. ARGYMHELLION**

6.1 Gwireddu'r camau a argymhellir yn rhan 3 a 4 yr adroddiad hwn gyda'r nod o wireddu cynnydd mewn incwm oddeutu £40,000 y flwyddyn,  yn hytrach na diddymu'r gwasanaeth Difa Pla yn ei gyfanrwydd.